



**National Independent
Safeguarding Board Wales**

**Bwrdd Diogelu Annibynnol
Cenedlaethol Cymru**



Adroddiad Blynyddol 2016-17

sy'n cynnwys testun
cyfochrog

Contents

Rhagair	5
Cyflwyniad	7
Dyletswyddau'r Bwrdd Cenedlaethol	11
1. Rhoi cymorth a chynghor i Fyrddau Diogelu gyda golwg ar sicrhau eu bod yn effeithiol	13
2. Cyflwyno adroddiadau am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru	19
3. Mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella trefniadau diogelu	69
Casgliadau	81
Atodiad 1: Aelodau a strwythurau'r Byrddau Diogelu	88
Atodiad 2: Cynllunio, Cydweithredu a Chyflawniadau	93
Atodiad 3: Effeithiolrwydd Byrddau Rhanbarthol a hyfforddiant ynghylch diogelu	97
Atodiad 4: Y geiriau sy'n ymddangos amlaf yn adroddiadau blynyddol y Byrddau Rhanbarthol	105

Dyma ail adroddiad y Bwrdd Cenedlaethol. Mae'r Bwrdd wedi dweud wrth Weinidogion Cymru

- bod canllawiau yn bwysig
- bod gwaith papur am adolygiadau yn bwysig, a
- bod angen gwasanaethau ar bobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl.

Mae'n anodd dweud a yw'r Byrddau Rhanbarthol yn gweithio'n dda neu beidio.

Nid yw pob un o'r Byrddau Rhanbarthol wedi gwneud beth y mae'n rhaid iddynt ei wneud yn ôl y gyfraith.

Mae'r Byrddau Rhanbarthol yn llunio llawer o gyfarwyddiadau sy'n dweud wrth weithwyr proffesiynol beth y dylent ei wneud.

Cytunodd Cadeiryddion y Byrddau Rhanbarthol y gallai eu hadroddiadau blynyddol fod yn well.

Mae'n bleser gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol gyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn ynglŷn â'i waith ei hun a gwaith y chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol sydd yng Nghymru. Rydym yn cael y ffrind o fynychu cyfarfodydd y Byrddau Rhanbarthol, comisiynu gwaith, a chyfrannu at waith sy'n berthnasol i ddysgu ac arweinyddiaeth ym maes diogelu. Yn ystod 2016-2017 rydym wedi argymhell wrth Weinidogion bod angen cyflwyno canllawiau statudol ar frys; rydym wedi tynnu eu sylw at y dryswch ynghylch llywodraethu dogfennau sy'n deillio o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion; ac rydym wedi sôn am y diffyg darpariaeth ar gyfer plant sy'n hysbys i wasanaethau iechyd meddwl. Rydym wedi dysgu bod yr ymarfer diogelu yr adroddir yn ei gylch wrth y Byrddau Rhanbarthol yn adlewyrchu'r pwysau sy'n gysylltiedig ag amserlenni a llwyth gwaith.

Cyflwynodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddyletswyddau newydd i adrodd ynghylch plant ac oedolion sy'n wynebu risg ac i sicrhau cydweithredu rhwng asiantaethau. At hynny mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, sy'n ceisio gwella ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru wrth iddo fynd i'r afael â thrais sy'n seiliedig ar rywedd, yn ymddangos ar agendâu'r Byrddau Rhanbarthol. Mae nodweddion gwaith dehongli a chydymffurfio'n amrywio ar draws Cymru.

Mae llawer o'r adroddiad hwn a'r atodiadau yn mynd i'r afael â "digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru". Mae'n cyfuno gwybodaeth o adroddiadau a chynlluniau blynyddol y Byrddau Rhanbarthol. Ni chydymffurfiwyd â'r canllawiau statudol (o safbwynt cyhoeddi'r adroddiadau hynny nac o safbwynt eu cynnwys) ac mae'r adroddiad yn datgelu bod hynny wedi peryglu'r cylch cynllunio ac adrodd; trosolwg rhagarweiniol o hyfforddiant ynghylch diogelu; a'n gallu i fyfyrwyr ynghylch y pynciau cynnwys y mae'n "rhaid" i'r Byrddau eu hymgorffori wrth lunio eu hadroddiadau a'u cynlluniau blynyddol.

Mae Byrddau Rhanbarthol unigol yn goruchwyllo'r gwaith o lunio llawer o brotocolau, adnoddau, strategaethau a pholisïau heb gyfeirio at ddeunyddiau presennol sydd yng Nghymru a thu hwnt. Rydym yn amau a yw hynny'n angenrheidiol i lywio ymarfer effeithiol ac effeithlon, ac rydym yn awgrymu y dylid gweithredu'n ofalus. Fel rheol nodir bod mynychu cyfarfodydd a bod rhwydweithiau ac ystadegau'n dystiolaeth o gydweithredu â'r Byrddau Rhanbarthol. Rydym yn awgrymu y byddai nodi canlyniadau penodol a gwahodd cydweithwyr o sectorau gwahanol i gydysgrifennu asesiadau cyfranwyr unigol yn meithrin mwy o ddealltwriaeth.

Yn ein barn ni, mae'r Byrddau Rhanbarthol wedi gwneud cam â'u hunain drwy ddibynnu ar eu timau cymorth busnes i ysgrifennu eu hadroddiadau, heb ysgwyddo'r cyfrifoldeb terfynol am gynnwys yr adroddiadau. Nid yw'r adroddiadau yn ymdrin â phroblemau yr adroddodd y cyfryngau yn eu cylch, a'r agwedd fwyaf siomedig yw'r ffaith nad ydynt yn rhoi'r pwys priodol ar rai o'r manteision sylweddol sy'n deillio o arbenigedd cymunedau ac ymarferwyr diogelu.

Mewn cyfarfod â Chadeiryddion y Byrddau Rhanbarthol i drafod adroddiad blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol, roedd yn galonogol bod pawb yn cydnabod yr angen i roi sylw arbennig i'r gwaith o baratoi, drafftio a chyhoeddi cynlluniau ac adroddiadau. Mae eu brwdfrydedd a'u penderfyniad ynghylch sicrhau bod sefyllfa'r sawl sy'n cael eu cam-drin yn gwella, a bod camdriniaeth – y ceir llawer o enghreifftiau ohoni ledled Cymru – yn cael ei hatal, yn ategu ac yn parchu strwythurau diogelu effeithiol a natur ddynol pawb.

Margaret Flynn, Keith Towler, Simon Burch, Ruth Henke, Jan Pickles a Rachel Shaw

31 Hydref 2017

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio beth y mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi bod yn ei wneud.

Rhaid i'r Bwrdd Cenedlaethol helpu'r Byrddau Rhanbarthol i weithio'n dda. Rhaid iddo adrodd ynghylch pa mor dda y maent yn gwarchod pobl rhag camdriniaeth, a rhaid iddo ddweud wrth Lywodraeth Cymru sut y gallai gwaith y Byrddau Rhanbarthol fod yn well.

Dyma ail Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a sefydlwyd dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Er i'r Bwrdd Cenedlaethol ddod yn weithredol ar 6 Ebrill 2016, dyma'r Adroddiad Blynyddol cyntaf sy'n cyflwyno gwybodaeth am weithgareddau'r Bwrdd ei hun yn ystod 2016-2017 a'i fyfyrddau ynghylch gweithgareddau'r chwe ardal bwrdd diogelu.

Mae gan y Bwrdd Cenedlaethol dair prif ddyletswydd statudol. Mae'r dyletswyddau hynny fel a ganlyn:

- 1. Rhoi cymorth a chyngor i Fyrddau Diogelu, gyda golwg ar sicrhau eu bod yn effeithiol**
- 2. Cyflwyno adroddiadau am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru**
- 3. Gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella'r trefniadau hynny (adran 132 (2)).**

Tasg fwyaf sylfaenol yr adroddiad hwn yw egluro'r graddau y mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi cyflawni ei brif ddyletswyddau. I wneud hynny, mae'r adroddiad yn cychwyn â'r elfennau sylfaenol, sef egwyddorion y Ddeddf.

Mae'r blociau adeiladu ar gyfer ei waith yn cynnwys:

- Llesiant pobl, eu barn a'r ffaith eu bod yn cael eu cynnwys
- Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael help pan fydd ei angen arnynt, a
- Bod yn atebol.

Yr egwyddorion sy'n sail i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014

Mae'r Ddeddf yn seiliedig ar egwyddorion.¹ Y rhain yw sylfeini cyfundrefnau meddwl neu gred. Maent fel a ganlyn:

- Mae'r Ddeddf yn helpu i sicrhau **llesiant** y rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt
- Mae'r system newydd yn canolbwyntio ar **bobl** – ac yn rhoi llais cryf iddynt yn y penderfyniadau a wneir am y cymorth a gânt
- Caiff gwasanaethau eu darparu drwy **bartneriaethau** a thrwy gydweithredu
- Bydd gwasanaethau'n ceisio **atal** anghenion rhag cynyddu a bydd y cymorth iawn ar gael ar yr adeg iawn
- **Cydgynhyrchu** – annog unigolion i gymryd mwy o ran mewn cynllunio a throsglwyddiad gwasanaethau.²

Yn ogystal, mae Canllawiau Statudol y Ddeddf³ yn datgan fel a ganlyn:

"...diben y cynlluniau blynyddol a'r adroddiadau blynyddol [yw bod] yn ffordd ddefnyddiol o sicrhau **atebolrwydd** [ychwanegwyd pwyslais]...Yn y cyd-destun hwn, mae yna dair elfen i atebolrwydd, sef:-

- atebolrwydd i'r cyhoedd;⁴
- atebolrwydd i'r asiantaethau statudol y mae'r partneriaid Bwrdd Diogelu yn perthyn iddynt; ac
- atebolrwydd i'r cyrff arolygu (paragraff 203).

Mae cyhoeddi yn rhan allweddol o'r gwaith o sicrhau atebolrwydd..." (paragraff 204).

1 <http://llyw.cymru/docs/dhss/publications/160127socialservicesactcy.pdf> (cyrchwyd 3 Medi 2017)

2 <https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb> (cyrchwyd 24 Hydref 2017)

3 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl. Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg

4 Mae hynny'n cynnwys Gweinidogion. Mae llywodraethau etholedig yn gweithredu 'ewyllys y bobl.'

Dyletswyddau'r Bwrdd Cenedlaethol

Mae'r Ddeddf yn egluro tair dyletswydd y Bwrdd Cenedlaethol, sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd.

Mae'r cymorth y mae'r Bwrdd yn ei roi i'r Byrddau Rhanbarthol yn cyfrannu at ei ddealltwriaeth o'r ffyrdd y mae'r Byrddau hynny'n blaenoriaethu eu gweithgareddau.

Caiff argymhellion y Bwrdd Cenedlaethol i Weinidogion eu seilio ar faterion y mae'r Byrddau Rhanbarthol yn gofyn am gymorth yn eu cylch.

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi sylw i bob un o ddyletswyddau'r Bwrdd Cenedlaethol.

Mae aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol yn mynd i gyfarfodydd y Byrddau Rhanbarthol.

Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn rhannu syniadau a gwybodaeth.

Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn atgoffa aelodau'r byrddau rhanbarthol beth mae'n rhaid iddynt ei wneud yn ôl y Ddeddf.

1. Rhoi cymorth a chyngor i Fyrddau Diogelu gyda golwg ar sicrhau eu bod yn effeithiol

Dan y ddyletswydd hon, mae gwaith **parhaus** y Bwrdd Cenedlaethol yn cynnwys:

- mynychu cyfarfodydd y Byrddau Rhanbarthol; cyfrannu i drafodaethau a digwyddiadau; a diweddarau ein dealltwriaeth o (i) yr heriau sy'n wynebu ymarferwyr diogelu yng Nghymru, (ii) eu cyflawniadau o ran arfer gorau a (iii) ffyrdd o gysylltu gwaith dysgu
- rhannu deunyddiau sy'n berthnasol i waith a diddordebau Byrddau Rhanbarthol penodol e.e. yr argymhelliad i Weinidogion, a oedd yn deillio o gyfarfod â Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghylch y goblygiadau o ran adnoddau sy'n gysylltiedig ag ymdrin â llawer o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ynghylch Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion; archwilio goblygiadau o ran Datgelu a Gwahardd ar gyfer aelodau etholedig cyngorau, drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr Diogelu, Strategaeth ac Ansawdd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (arweiniodd hynny at gais am i'r gwasanaeth (i) rhannu gwybodaeth am ei weithgarwch yng Nghymru fel mater o drefn a (ii) llunio tystysgrifau datgelu dwyieithog); sôn wrth Gadeiryddion am lyfr rhad ac am ddim ar gyfer Cadeiryddion Byrddau Diogelu⁵; ac annog Llywodraeth Cymru i beidio â chomisynu adnodd hunanasesu ar gyfer Byrddau Rhanbarthol
- hyrwyddo'r graddau y cydymffurfir â'r Ddeddf a mynd i'r afael â'r heriau sy'n achosi pryder i rai Byrddau Rhanbarthol, e.e. tynnu sylw Byrddau lechyd at ofynion adran 134, sy'n ymwneud â disgwyliadau partneriaid Bwrdd, a gofynion adran 137, sy'n galluogi Bwrdd i wneud cais am wybodaeth benodol; ac oherwydd bod adolygiadau ym maes diogelu plant ac oedolion yn gwneud gormod o ddefnydd o'r gair "pryder" (yn lle sôn am "achos rhesymol i amau bod plentyn/oedolyn yn wynebu risg") mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi rhybuddio rhag defnyddio "pryder" wrth ymarfer ac mewn fersiynau drafft o'r canllawiau statudol: *Ymdrin ag Achosion Unigol*.

5 Fenge, L-A., Lee, S. a Brown, K. (2017) *Safeguarding Adults: Scamming and Mental Capacity* London: Sage Learning Matters

Er mwyn helpu'r Byrddau Rhanbarthol i weithio'n dda, aeth y Bwrdd Cenedlaethol ati i

- Ofyn i ymchwilyr ym Mhrifysgol Caerdydd gyfuno gwybodaeth am blant a phobl ifanc sy'n cael addysg yn eu cartrefi eu hunain, a chynnig awgrymiadau i Weinidogion Cymru.
- Holi'r Byrddau Rhanbarthol am eu hyfforddiant ynghylch diogelu. Gan mai dim ond dau o'r Byrddau Rhanbarthol a ymatebodd, nid yw'n bosibl dweud dim am gyfleoedd o ran hyfforddiant ynghylch diogelu yng Nghymru

Nododd cynllun gwaith y Bwrdd Cenedlaethol ar gyfer 2017-2018 bedair cyfres o weithgareddau ac iddynt oblygiadau o ran ymarfer:

Dilyn Adolygiad Ymarfer Plant i'w derfyn

Yn ystod **mis Chwefror 2017**, cafodd Cascade ym Mhrifysgol Caerdydd ei gomisiynu gan y Bwrdd Cenedlaethol i gynnal adolygiad a dadansoddiad pen desg o oblygiadau addysg ddewisol yn y cartref ar gyfer diogelu, iechyd a llesiant.

Pam? Cyhoeddodd CYSUR, sef Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru, Adolygiad Ymarfer Plant a oedd yn deillio o farwolaeth Dylan Seabridge – plentyn wyth oed a oedd yn cael ei addysgu gartref ac nad oedd wedi'i weld gan unrhyw weithiwr proffesiynol ers pan oedd yn fabi. At hynny, yn ystod 2016, cefnogodd y Goruchaf Lys waharddiad ar wyliau i blant ysgol yn ystod tymor ysgol. Caiff y paradocs hwn ei fynegi mewn Mesur Aelod Preifat: Addysg yn y Cartref (Dyletswydd Awdurdodau Lleol) (2017-2019).⁶

Y canlyniad? Disgwylir i adroddiad Cascade gael ei gyhoeddi yn ystod yr Wythnos Genedlaethol Diogelu (13-17 Tachwedd 2017). Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn briffio Gweinidogion.

Creu trosolwg o hyfforddiant ynghylch diogelu yng Nghymru

Yn ystod **mis Chwefror 2017**, gofynnodd y Bwrdd Cenedlaethol a Gofal Cymdeithasol Cymru i'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol am wybodaeth⁷ am weithgareddau hyfforddiant ynghylch diogelu ledled Cymru. Gofynnwyd i'r Byrddau Rhanbarthol nodi yn eu hadroddiadau blynyddol wybodaeth am eu nodau, eu hadnoddau dwyieithog a'r ffynonellau gwybodaeth y maent yn eu ffafrio, er enghraifft.

Pam? Oherwydd ei bod yn ofynnol i'r Bwrdd Cenedlaethol a'r Byrddau Rhanbarthol roi sylw i hyfforddiant yn eu hadroddiadau blynyddol; mae gan bob un o'r Byrddau Rhanbarthol is-grwpiau sy'n rhoi sylw i faterion yn ymwneud â hyfforddiant a'r gweithlu; un o orchwylion Gofal Cymdeithasol Cymru yw mesur hyd a lled hyfforddiant ynghylch diogelu a hybu hyfforddiant o'r fath, ac mae "hyfforddiant" yn un o'r argymhellion nodweddiadol sy'n deillio o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion.

Y canlyniad? Ymatebodd dau Fwrdd Rhanbarthol i'r cais. Mae'r camau nesaf yn cynnwys cysylltu â Chadeiryddion y Byrddau Rhanbarthol, oherwydd mae'r ffaith nad yw'r Byrddau wedi cydymffurfio â'r cais statudol hwn yn golygu nad oes trosolwg rhagarweiniol ar gael o hyfforddiant ynghylch diogelu yng Nghymru.⁸

⁶ <https://services.parliament.uk/bills/2017-19/homeeducationdutyoflocalauthorities.html> (cyrchwyd 5 Hydref 2017)

⁷ Roedd hwn yn gais dan adran 139 (1): *Rhaid i Fwrdd Diogelu gydweithredu â'r Bwrdd Cenedlaethol, a rhaid iddo gyflenwi i'r Bwrdd Cenedlaethol unrhyw wybodaeth y mae'n gofyn amdani. Gwnaed y cais gyda'r bwriad o gynorthwyo'r Byrddau i egluro'r hyfforddiant y mae wedi ei gymeradwyo neu wedi ei ddarparu* (Atodlen, Rheoliad 6 (1) (l))

⁸ Nododd un Bwrdd Rhanbarthol, ynghylch defnydd y Bwrdd Cenedlaethol o adran 139, bod y cais am ddata a gwybodaeth am gydnherthedd cyffredinol y gweithlu a'i arbenigedd o safbwynt diogelu yn dangos gwendidau clir yng ngallu'r gymuned ddiogelu i ddeall anghenion ein gweithlu, boed ar lefel asiantaethau neu ar lefel ranbarthol

Hefyd Mae'r Bwrdd Cenedlaethol....

- Siarad ag ymchwilyr am sut y gallwn ddysgu o ganfyddiadau gwahanol fathau o adolygiadau
- Creu gwefan ddwyieithog

Creu agenda dysgu cyhoeddus

Yn ystod **mis Mawrth 2017**, penderfynodd y Bwrdd Cenedlaethol gomisiynu adolygiad thematig er mwyn gwella'r gwersi a ddysgir o adolygiadau.

Pam? Caiff nifer anhysbys o wahanol fathau o adolygiadau ac ymchwiliadau eu cynnal yng Nghymru, er enghraifft Adolygiadau Ymarfer Plant, Adolygiadau Ymarfer Oedolion, Adolygiadau Dynladdiad Domestig, Troseddau Difrifol Pellach, Adolygiadau ar ôl Digwyddiadau, Digwyddiadau Anffafriol Difrifol, ynghyd ag ymchwiliadau i'r heddlu sydd o fewn cylch gwaith Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu.

Y canlyniad? Oherwydd ei gyllideb bu'n rhaid i'r Bwrdd Cenedlaethol gyfyngu ar ei uchelgais. Er hynny, cafodd cyllid ychwanegol ei glustnodi yn ystod **mis Medi 2017** a oedd yn ei gwneud yn bosibl i gomisiwn wedi'i brisio'n realistig ddechrau yn 2018.

Creu gwefan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Ddiwedd 2016 a dechrau 2017, dechreuodd y Bwrdd Cenedlaethol ar y broses o egluro beth y gallai gwefan ddiddorol, hygyrch a dwyieithog ei gyflawni. Bwriedir i'r wefan gysylltu â'r chwe Bwrdd Rhanbarthol, rhoi sylw i bynciau ac iddynt broffil uchel, adlewyrchu cynllun gwaith y Bwrdd Cenedlaethol ac ymgysylltu â'r celfyddydau a'r cyfryngau.

Pam? Mae creu gwefan y Bwrdd Cenedlaethol yn un o ofynion y cynllun statudol (Rhan 7, paragraff 265) ac mae'n cydnabod yr angen i fod yn atebol. Mae ein natur gydgysylltiedig yn bwysig. Mae camdriniaeth yn esgor ar alwadau difrifol ar y sector gofal cymdeithasol, y GIG a'r heddlu oherwydd bod llawer o ffactorau'n rhwystro pobl rhag adrodd ynghylch camdriniaeth. Gall gwefan fynd i'r afael â'r heriau sy'n ymwneud â dysgu am leihau neu ddileu'r rhwystrau hynny.

Y canlyniad? Yn ystod **mis Awst 2017**, daeth gwefan y Bwrdd Cenedlaethol <http://bwrdddiogelu.cymru> yn rhan o fyd y cyfryngau cymdeithasol. Mae'n cynnwys blog am y defnydd a wneir o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

Mae aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol yn cyfarfod bob mis.

Mae'r Bwrdd Cenedlaethol hefyd yn cwrdd â phobl sy'n gweithio mewn diogelu.

Mae diddordeb gan y Bwrdd Cenedlaethol mewn dysgu a gweithredoedd ymarferol mewn diogelu.

2. Cyflwyno adroddiadau am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru

Mae gwaith **parhaus** y Bwrdd Cenedlaethol yn cynnwys:

- cyfarfod bob mis er mwyn (i) gweithredu fel cyfnewidfa wybodaeth, fel grŵp astudio ac fel cyfeillion beirniadol i rannu syniadau, datblygu'r cynllun gwaith a phwyso a mesur; a (ii) llunio ymdeimlad cyffredin o gyfeiriad ac ymrwymiad i ddyletswyddau a gwaith y Bwrdd. Yn ogystal, mae aelodau unigol y Bwrdd Cenedlaethol yn cyfarfod mewn gwahanol gyfuniadau i lunio prosiectau penodol
- cyfarfod ag unigolion a grwpiau allweddol y gall eu rolau wella ymarfer diogelu, e.e. Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, arweinwyr diogelu yn y GIG, cyfarwyddwyr arweiniol awdurdodau lleol a'r rheoleiddwyr, gyda'r bwriad o ddatblygu ymarfer diogelu sy'n fwy effeithiol ac effeithlon
- nodi ffyrdd o annog gwaith dysgu cynaliadwy a gwaith dysgu rhwng amryw broffesiynau, e.e. cydnabod bod arbenigedd ymarferwyr cam-drin domestig, mewn amryw sectorau, yn cyd-fynd â diogelu oedolion a phlant.

Er mwyn adrodd ynghylch pa mor dda y mae'r Byrddau Rhanbarthol yn gwarchod pobl rhag camdriniaeth, aeth y Bwrdd Cenedlaethol ati i

- Gynnal cyfarfod am “Arweinyddiaeth ym maes Diogelu”
- Ystyried gwahanol ffyrdd o fesur effaith diogelu
- Dechrau crynhoi rhai ymchwiliadau ac achosion troseddol Cymru ynghylch diogelu plant ac oedolion, sydd wedi cael llawer o sylw

Nododd y cynllun gwaith chwe chyfres o weithgareddau ac iddynt oblygiadau o ran ymarfer diogelu.

Cynnal dwy Uwchgynhadledd Ddiogelu yn ymwneud ag (i) arweinyddiaeth ym maes diogelu a (ii) mesur effaith diogelu

Yn ystod **mis Mawrth 2017**, cynhaliodd y Bwrdd Cenedlaethol uwchgynhadledd arweinyddiaeth yng Nghaerdydd.

Pam? (i) Oherwydd bod arweinyddiaeth ym maes diogelu wedi'i dosbarthu ymysg unigolion sy'n cynnwys pobl â phrofiad o wasanaethau diogelu, a'u perthnasau. Mae hefyd wedi'i dosbarthu yn wleidyddol yn ogystal ag o fewn ac ar draws sefydliadau. Mae gan Fyrddau Diogelu wendidau sy'n cynnwys eu llwyth gwaith cynyddol, sy'n cynnwys trais domestig, er enghraifft. Mae pa mor agored ac addasol y mae Byrddau i brofiad a “lleisiau” pobl sy'n dod yn hysbys i ymarferwyr diogelu, ac amlygrwydd risg a rheoli risg ar bob lefel, yn wendidau a gydnabyddir.

Y canlyniad? (i) Cafodd papur ei ddisbarthu i'r holl gyfranogwyr (roedd cynrychiolaeth yn bresennol o bob Bwrdd Rhanbarthol) – mae crynodeb ohono i'w weld ar <http://bwrdddiogelu.cymru>. Bwriedid i'r papur hybu trafodaeth bellach ymysg arweinwyr, yn enwedig yn dilyn myfyrdodau'r Bwrdd Cenedlaethol yn ystod 2016-2017 ynghylch *digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru*. (ii) Arhosodd y Bwrdd Cenedlaethol am adroddiadau blynyddol y Byrddau Rhanbarthol er mwyn ystyried eu dadansoddiadau o achosion/gwybodaeth am effaith, ac mae wedi cysylltu ag ystadegwyr Llywodraeth Cymru cyn mynd ati i gynllunio a chynnal uwchgynhadledd ynghylch mesur effaith.

Darparu cyfleoedd dysgu ar garreg ein drws i'r Byrddau Rhanbarthol, a'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol

Erbyn **mis Gorffennaf 2017**, roedd y Bwrdd Cenedlaethol wedi penderfynu pa ymchwiliadau ac achosion cofiadwy ddylai fod yn rhan o adnodd a fyddai'n cynnwys ymchwiliadau ac achosion arwyddocaol, er mwyn ategu gwaith yr Ymchwiliad Annibynnol.

Pam? Gall yr ymarferwyr mwyfwy niferus sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion gael eu llethu gan y dasg o “ddysgu gwersi.” Gall pethau fynd yn angof yn fuan iawn ac, oherwydd bod y Bwrdd Cenedlaethol yn awyddus i sicrhau nad yw'r gwersi sydd i'w dysgu o ymchwiliadau ac achosion arwyddocaol yng Nghymru yn mynd yn angof, mae'r adnodd yn tynnu sylw at y troseddau sy'n debygol o aros yng nghof pobl – neu gof eu teuluoedd. Mae'r adnodd yn cynnwys crynodebau barnwyr mewn treialon troseddol; y sylw gan y cyfryngau; a'r cwestiwn: pe bai'r unigolion hyn yn dechrau ar eu gyrfa droseddol yn awr, beth fyddai'n wahanol?

Y canlyniad? Mae'r gwaith i ddatblygu'r adnodd hwn yn parhau.

Hefyd Mae'r Bwrdd Cenedlaethol....

- Ystyried ffyrdd o gasglu barn a syniadau pobl ag anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl, er enghraifft
- Gofyn i SafeLives helpu'r Byrddau Rhanbarthol werthuso'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda theulu sy'n "hysbys" i bob gwasanaeth

Sicrhau bod y poblogaethau sydd y tu allan i gylch gwaith y comisiynwyr plant a phobl hŷn yn amlwg – pobl sydd ag anableddau dysgu / pobl sydd ag awtistiaeth / pobl sydd wedi colli eu golwg a/neu'u clyw / pobl sydd ag anawsterau iechyd meddwl / pobl sy'n gaeth i sylweddau

Pam? Gellir defnyddio iechyd meddwl pobl, eu gallu meddyliol, y ffaith eu bod wedi colli eu golwg a/neu'u clyw a'r ffaith bod ganddynt awtistiaeth a/neu allu cyfyngedig i'w mynegi eu hunain, er enghraifft, fel rheswm dros roi llai o bwys ar y dasg o gasglu eu safbwyntiau a'u profiadau.

Y canlyniad? Cafodd ymateb y Bwrdd i fersiwn ddrafft y Strategaeth Dementia Genedlaethol yn ystod **mis Ebrill 2017** ei lywio gan gyswllt y Bwrdd Cenedlaethol â phobl sydd â dementia, a'u gofalywyr; ar ôl cyfarfod â Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan, cafwyd cymorth ganddo i ysgrifennu'r fersiwn "hawdd ei deall" o Adroddiad Blynyddol cyntaf y Bwrdd Cenedlaethol, a gyhoeddwyd yn ystod **mis Ionawr 2017**; bydd aelod o Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan yn siarad yn y gynhadledd Diogelu mewn Chwaraeon yn ystod **mis Tachwedd 2017**; mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn gofyn i sefydliadau am gael defnyddio eu safleoedd i gynnal cyfarfodydd y Bwrdd, megis safle Bawso⁹ yn Wrecsam a chartref diogel i blant Hillside. Caiff aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol eu hannog gan gysylltiadau â grwpiau – sydd wedi ennill eu plwyf ac sy'n cefnogi ei gilydd – o bobl sy'n ceisio newid eu bywydau nhw a bywydau pobl eraill. Mae'r grwpiau hynny'n cynnwys gwasanaethau eiriolaeth a grwpiau gofalywyr teuluol. Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn gwneud defnydd hyblyg o'i gyllideb i alluogi cyfranogiad gan bobl sy'n ei chael yn anodd mynychu cyfarfodydd ffurfiol am resymau ymarferol.

Nodi dull cost-ymwybodol o gryfhau ymatebion i faterion diogelu yng Nghymru

Pam? Er bod rhai teuluoedd yn amlwg iawn i lawer o wasanaethau – efallai fod y rhieni'n hysbys i'r heddlu a gwasanaethau trais domestig, efallai fod y plant yn hysbys i wasanaethau cymdeithasol, ac efallai fod aelodau unigol o'r teulu ymhlith defnyddwyr amlwg darpariaeth y GIG – mae'n bosibl na fydd cyfleoedd i amryw asiantaethau gydweithredu â'i gilydd yn cael eu datblygu'n ddigonol neu y bydd cyfleoedd o'r fath yn cael eu colli'n gyfan gwbl.

Y canlyniad? Gyda sêl bendith Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent, yn ystod **mis Mehefin 2017**, mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wedi ymrwmo i glustnodi teulu sy'n gwneud llawer o ddefnydd o amryw wasanaethau. Mae rheolwyr ac ymarferwyr wrthi'n "mapio" natur a chost ymatebion gan asiantaethau yn ystod cyfnod penodol. Mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi comisiynu SafeLives i werthuso'r gwaith hwn, gyda'r bwriad o ysgogi (i) ymgysylltu credadwy gan amryw asiantaethau a (ii) ymyriadau ac iddynt fwy o ffocws.

⁹ Mudiad gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau arbenigol i ddiodefnyddwyr, a phobl o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, y mae camdriniaeth ddomestig a phob math arall o drais yn effeithio arnynt neu sy'n wynebu risg o gamdriniaeth a phob math arall o drais. Gweler <http://www.bawso.org.uk> (cyrchwyd 12 Hydref 2017) ww

Hefyd Mae'r Bwrdd Cenedlaethol....

- Gofyn i sefydliadau ymuno â'r Bwrdd Cenedlaethol i gyflwyno gwobrau a diolch i unigolion a thimau am eu gwaith diogelu
- Ystyried gwahanol drefniadau ar gyfer diogelu oedolion yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Noddi gwobrau diogelu sy'n cydnabod ymarfer gwerthfawr yng Nghymru, sy'n gwobrwyo ymarfer o'r fath ac sy'n rhoi sylw cenedlaethol iddo

Pam? Fel rheol, mae'n rhaid i ymarferwyr diogelu ar draws sectorau ymdrin â gwybodaeth anghyflawn – efallai oherwydd bod unigolyn wedi dioddef gormod o drawma i allu cofio beth sydd wedi digwydd, oherwydd ei fod yn rhy deyrngar i berthynas sy'n ei niweidio, neu oherwydd ei fod yn teimlo gormod o gywilydd i sôn wrth rywun am y niwed neu'n teimlo nad yw'n medru gwneud hynny. Mae yna lwyddiannau calonogol, ond nid ydynt fel rheol yn amlwg a phrin y diolchir yn gyhoeddus i unigolion a thimau.

Y canlyniad? Ym **mis Awst 2017**, cadarnhaodd Gofal Cymdeithasol Cymru y byddai'n noddi gwobr ar y cyd â'r Bwrdd Cenedlaethol. Mae'r Bwrdd yn dal i chwilio am gyd-noddwyr posibl eraill.

Gweithio gyda chydweithwyr yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban

Pam? Mae gan bob un o bedair gwlad y DU ddeddfwriaeth, polisiau a strwythurau gwahanol ar gyfer ymateb i niwed, camdriniaeth ac esgeulustod.

Y canlyniad? Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn gyfarwydd â chyfres y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol o seminarau, sy'n archwilio'r gwahanol drefniadau sydd ar waith ledled y DU¹⁰; cyfarfu aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol ag arweinwyr diogelu plant ac oedolion, a bu iddynt fynychu cynhadledd ddiogelu yng Ngogledd Iwerddon yn ystod **mis Mawrth 2017**; mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn cael gwybodaeth gan Gadeiryddion y Rhwydwaith Cenedlaethol o fyrddau diogelu oedolion yn Lloegr, a rhannodd y Bwrdd ei Adroddiad Blynyddol cyntaf â'r Rhwydwaith hwnnw; a chan gyfeirio at leoli plant mewn llety diogel yn Lloegr a'r Alban, mae Swyddfa Llywydd yr Is-adran Deuluoedd ynghyd â barnwyr eraill, gan gynnwys yr Arglwyddes Black a'r Arglwydd Ustus Moylan, yn bwriadu hybu cydweithredu agosach rhwng yr amryw awdurdodaethau cyfreithiol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, yn enwedig yng ngoleuni amryw faterion trawsffiniol sydd wedi codi mewn achosion teuluol diweddar.

10 Llundodd 'The Journal of Adult Protection' rifyn arbennig, sef Safeguarding adults and legal literacy: approaches from UK devolved nations (2017) 19 (4)

Y Byrddau Rhanbarthol

Roedd yn rhaid i bob un o'r chwe Bwrdd Rhanbarthol anfon eu cynlluniau blynyddol i'r Bwrdd Cenedlaethol erbyn diwedd mis Mawrth 2016 ac anfon eu hadroddiadau blynyddol erbyn diwedd mis Gorffennaf 2016.

Y Byrddau Rhanbarthol

Mae'r chwe ardal bwrdd rhanbarthol wedi bod yn weithredol ers mis Ebrill 2016. Roedd yn ofynnol iddynt gyflwyno eu cynlluniau blynyddol a'u hadroddiadau blynyddol i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol o fewn 28 diwrnod i'w cyhoeddi, fel sy'n ofynnol yn ôl yr amserlen ar gyfer cyflwyno adroddiadau (adran 136 y Ddeddf, Rhan 7, paragraff 205). Er i'r Bwrdd Cenedlaethol atgoffa'r Byrddau Rhanbarthol am y terfyn amser ar gyfer cyflwyno eu hadroddiadau blynyddol yn ystod mis Rhagfyr 2016, dim ond yn rhannol y cydymffurfiwyd â'r gofyniad. Dylai'r Byrddau Rhanbarthol fod wedi nodi yn eu hadroddiad blynyddol i ba raddau yr oedd eu cynlluniau a lywiodd eu rhaglen ar gyfer 2016-2017 wedi esgor ar ganlyniadau.

Mae adran 136 y Ddeddf yn datgan bod yn "...rhaid i Fwrdd Diogelu gyhoeddi..." erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn "ei gynllun blynyddol"...yn nodi ei gynigion ar gyfer cyflawni ei amcanion yn y flwyddyn honno". Yn ogystal, erbyn 31 Gorffennaf bob blwyddyn, "...rhaid i Fwrdd Diogelu gyhoeddi adroddiad ynghylch (a) sut y mae wedi arfer ei swyddogaethau yn y flwyddyn ariannol flaenorol, a (b) i ba raddau y mae wedi gweithredu'r cynigion yn ei gynllun blynyddol...". Cafodd tri adroddiad blynyddol eu cyflwyno ar 31 Gorffennaf, sef y terfyn amser, neu cyn pen wythnos i'r dyddiad hwnnw, cyrhaeddodd dau adroddiad cyn pen mis i'r terfyn amser, a chyflwynodd un Bwrdd Rhanbarthol ei adroddiad blynyddol 10 wythnos ar ôl y terfyn amser.

Mae'r ffigur yn dangos bod y cynlluniau blynyddol yn dod cyn eu hadroddiadau. Mae'r adroddiadau yn dibynnu ar y cynlluniau.

Ffigur 1: Y cylch cynllunio ac adrodd



Mae'r ffigur yn dangos cyd-ddibyniaeth amryw elfennau'r cylch cynllunio ac adrodd. Mae amserlen y Ddeddf yn sefydlu rhythm a threfn flynyddol ar gyfer y Bwrdd Cenedlaethol a'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

*Nod y bwriad o gyhoeddi'r adroddiad blynyddol erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn yw rhoi amser i'r Byrddau Diogelu ystyried unrhyw themâu cenedlaethol neu argymhellion sydd wedi'u gwneud gan y Bwrdd Cenedlaethol wrth baratoi eu cynlluniau blynyddol y mae'n **rhaidd** eu cyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (Rhan 7, paragraff 269).*

Mae'r tabl yn dangos bod y Byrddau Rhanbarthol wedi llunio gwahanol fathau o gynlluniau ac adroddiadau, y mae'r rhan fwyaf ohonynt ar gael ar eu gwefannau.

Mae'r tabl canlynol yn dangos ble mae cynlluniau/blaenoriaethau blynyddol y Byrddau a'r amserlenni cysylltiedig i'w gweld ar eu gwefannau.

Tabl 1: Dogfennau cynllunio, amserlenni a dolenni cyswllt

Ardal Bwrdd Diogelu	Dogfennau cynllunio	Amserlen	Dolen gyswllt ar gyfer y wefan
Caerdydd a'r Fro			
Plant	Cynllun Busnes	2016-2017	http://www.cardiffandvalelscb.co.uk/cy
Oedolion	-	-	-
Cwm Taf			
Plant	Cynllun Blynyddol Adroddiad Blynyddol	2016-2017 2016-2017	http://www.cwmtafsafeguarding.org/children/about-us/annual-reports/
Oedolion	Cynllun Blynyddol Adroddiad Blynyddol	2016-2017 2016-2017	http://www.cwmtafsafeguarding.org/adults/about-us/annual-reports/
Gwent			
Plant	Cynllun Strategol Adroddiad Blynyddol	2016-2019 2016-2017	http://www.sewsc.org.uk/index.php?id=1&L=1
Oedolion	Cynllun Blynyddol Adroddiad Blynyddol Cynllun Strategol	2016-2017 2016-2017 2017-2020	http://www.gwasb.org.uk/
Canolbarth a Gorllewin Cymru			
Plant	-	-	-
Oedolion	Adroddiad Blynyddol	2016-2017	http://cysur.cymru/cartref/amdanom-ni/
Gogledd Cymru			
Plant	Adroddiad Blynyddol	2016-2017	http://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/dogfennaur-bwrdd/bdpgc-dogfennaur-bwrdd/
Oedolion	Cynllun Busnes Adroddiad Blynyddol	2017-2018	http://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/dogfennaur-bwrdd/oedilion-dogfennaur-bwrdd/
Bae'r Gorllewin			
Plant	Adroddiad Blynyddol Blaenoriaethau Strategol a Chynllun Busnes	2017-2018	http://www.wbsb.co.uk/5456
Oedolion	-	-	-

Mae a wnelo cynllunio â diffinio a chyflawni canlyniadau na fyddent yn digwydd fel arall. Byddai absenoldeb cynlluniau blynyddol a gyhoeddwyd ar gyfer 2017-2018, er enghraifft, yn awgrymu wrth berson cyffredin nad yw mwyafrif y Byrddau Rhanbarthol yn canolbwyntio eto ar ganlyniadau. Mae gofyn craffu ar sawl dogfen, cynllun busnes, diweddariad, cynllun strategol (nad yw pob un ohonynt wedi'u cyhoeddi) ac adroddiad blynyddol i ddod o hyd i gynlluniau/blaenoriaethau'r Byrddau Rhanbarthol.

Rhesymeg Bwrdd Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru dros *beidio* â chyhoeddi cynllun yn ystod 2016 oedd bod ei gynllun busnes tair blynedd ar gyfer 2013-2016 yn *cael ei ddefnyddio fel fframwaith*.

Felly, beth y llwyddodd y Byrddau Rhanbarthol i'w gyflawni?

Mae'r canllawiau statudol ynghylch diogelu'n nodi beth y mae'n rhaid i adroddiadau blynyddol y Byrddau Rhanbarthol ei gynnwys.

Darparodd pob un o'r Byrddau Rhanbarthol **restr o'r aelodau**.

Fel rheol, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cadeirio'r Byrddau Rhanbarthol. Os oes Is-gadeiryddion, maent yn dod o faes gwasanaethau prawf, yr heddlu a GIG Cymru.

Mae'r Byrddau Rhanbarthol yn cadw cofrestrau presenoldeb.

Mae pedwar Bwrdd Rhanbarthol yn cynnwys pobl o faes tai. Mae tri yn cynnwys aelodau o faes gwasanaethau cyfreithiol ac o asiantaethau sy'n gyfrifol am gefnogi pobl sydd wedi profi camdriniaeth ddomestig.

O safbwynt strwythur Byrddau Rhanbarthol, mae elfennau tebyg rhwng byrddau plant a byrddau oedolion sydd yn yr un ardal ac mae gwahaniaethau rhwng y Byrddau Rhanbarthol.

Felly, beth y llwyddodd y Byrddau Rhanbarthol i'w gyflawni?

Mae'r canllawiau statudol yn pennu cynnwys yr adroddiad blynyddol. Ceir 14 o benawdau¹¹. Mae'r pennawd cyntaf yn gofyn am **restr o aelodau'r Byrddau Diogelu**.

Wrth gyfeirio at Dabl (a) yn Atodiad 1, gwelir yr amrywiaeth sydd yn aelodaeth y Byrddau Rhanbarthol yn ogystal â'r partneriaid craidd, sef (i) awdurdodau lleol (ii) yr heddlu (iii) ymddiriedolaethau a byrddau ieuchyd lleol a (iv) darparwyr gwasanaethau prawf. Mae aelodau Unedau Busnes y Byrddau Rhanbarthol yn aelodau o bob Bwrdd.

Bwrdd Plant Gwent yw'r unig un sydd â chadeirydd annibynnol – caiff ei gadeirio gan Brif Weithredwr cymdeithas dai. Mae pedwar o'r chwe Bwrdd Rhanbarthol yn cynnwys pobl sydd â chyfrifoldeb am wasanaethau tai, ac mae tri o'r chwe Bwrdd yn cynnwys (i) aelodau o faes gwasanaethau cyfreithiol a (ii) aelodau sy'n gyfrifol am gefnogi pobl sydd wedi profi camdriniaeth ddomestig.

Fel rheol, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cadeirio Byrddau Rhanbarthol Cymru. Os ceir Is-gadeiryddion, maent yn dod o faes gwasanaethau prawf, yr heddlu a GIG Cymru yn ogystal ag awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol cyfansoddol. Mae Cwm Taf wedi dewis cael cydgadeiryddion.

Er bod pob un o'r Byrddau Rhanbarthol yn cadw cofrestrau presenoldeb, dim ond Cwm Taf a ymrwymodd i nodi presenoldeb yr aelodau. Bydd adroddiad blynyddol y Bwrdd yn peri anesmwythyd i un gwasanaeth yng Nghwm Taf. Ni chafodd gwybodaeth am barhad aelodaeth ei chyflwyno gan unrhyw un o'r Byrddau Rhanbarthol, er y gwyddys bod hynny wedi peryglu'r egwyddor sy'n ymwneud â phartneriaeth a chydweithredu ledled Cymru.

Nid yw'r Byrddau yn sôn am yr amrywiad mewn aelodaeth yn nhermau'r potensial i ddatrys problemau neu'r gwerth sy'n cael ei greu drwy weithio mewn partneriaeth. Yr hyn y mae'r aelodaeth yn ei awgrymu yw parodrwydd partneriaid statudol a phartneriaid eraill i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddiogelu plant ac oedolion.

Mae Tabl (b) yn Atodiad 1 yn dangos yr amrywiaeth strwythurol sy'n bodoli ar draws y Byrddau Rhanbarthol. Caiff y strwythurau a fabwysiadwyd gan Fyrddau Rhanbarthol Cymru eu cyflwyno ar ffurf ffigurau mewn dogfennau cynllunio neu adroddiadau blynyddol. Er bod elfennau tebyg rhwng byrddau plant a byrddau oedolion yn yr un ardal bwrdd diogelu, ceir gwahaniaethau rhwng y Byrddau Rhanbarthol. Er bod creu strwythurau Byrddau Rhanbarthol yn garreg filltir, dull o gyflawni diben yw'r strwythurau. Hynny yw, amcanion byrddau plant yw amddiffyn plant sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, eu cam-drin, eu hesgeuluso, neu ddioddef mathau eraill o niwed, ac atal plant rhag dod yn rhai sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed. Yn yr un modd, amcanion byrddau diogelu oedolion yw amddiffyn oedolion y mae arnynt anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw awdurdod lleol yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio) ac atal oedolion rhag dod yn rhai sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso (adran 135 y Ddeddf).

Cydnabyddir yn rhannol y graddau y mae'r trefniadau a bennwyd gan y Byrddau Rhanbarthol yn atgynhyrchu'r strwythurau a oedd yn bodoli cyn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, oherwydd anaml y caiff hen sefydliadau ac endidau eu diddymu'n llwyr.

Mae amrywiaeth o is-grwpiau i'w cael. Mae is-grwpiau ar wahân ar gyfer adolygiadau ymarfer a hyfforddiant i'w cael ym mhob Bwrdd Rhanbarthol.

Y rhesymeg dros amser cyfarfod Bwrdd Gweithredol Canolbarth a Gorllewin Cymru, a gynhelir rhwng y Bwrdd Plant a'r Bwrdd Oedolion, yw ei bod yn gwneud synnwyr i gyfarfodydd y byrddau gael eu cynnal ar yr un diwrnod oherwydd bod y Bwrdd Rhanbarthol yn ymdrin ag ardal ddaeryddol mor eang.

Ceir ystod o wahanol fathau o is-grwpiau. Mae'r swyddogaethau sy'n ymwneud ag adolygu achosion unigol a/neu ymarfer yn bodoli ym mhob un o'r Byrddau Rhanbarthol. Yn yr un modd, mae is-grwpiau hyfforddiant, dysgu a datblygu, a datblygu'r gweithlu yn rhan o waith pob un o'r Byrddau.

Ar lefel fwy cyffredinol, ni wyddys a yw trefniadau strwythurol y Byrddau Rhanbarthol yn hwyluso ac yn gwella ymarfer ar y rheng flaen ai peidio. Bu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn craffu ar ei Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth, sy'n un ffordd o ymdrin ag achosion diogelu a gaiff eu hatgyfeirio, a chanlyniad y gwaith craffu hwnnw oedd dod â chyllid y ganolfan i ben. Yn yr un modd, mae Cwm Taf wedi gwneud penderfyniadau ac addasiadau ynghylch strwythurau'r Bwrdd o ganlyniad i waith ymgynghori a chraffu yn ystod 2016-2017.

Er mwyn rhoi **canlyniadau penodol** y Byrddau Rhanbarthol mewn cyd-destun, mae'r tabl hwn yn nodi blaenoriaethau pob un o'r Byrddau Rhanbarthol Plant. Maent yn dangos bod y Byrddau Rhanbarthol yn uchelgeisiol.

Y camau y mae'r Byrddau Diogelu wedi eu cymryd i sicrhau canlyniadau penodol

Mae'r ddau dabl canlynol yn cyflwyno blaenoriaethau honedig y Byrddau Rhanbarthol. Mae'r rhain yn cynnig fframwaith esboniadol ar gyfer y *canlyniadau penodol* y dylai fod modd eu holrhain i'r blaenoriaethau hyn.

Tabl 2: Blaenoriaethau'r Byrddau Rhanbarthol Plant

Ardal Bwrdd Diogelu	Blaenoriaethau	Ardal Bwrdd Diogelu	Blaenoriaethau
Caerdydd a'r Fro	<p>Camfanteisio'n rhywiol ar blant</p> <p>Ymarfer diogelu mewn gwasanaethau atal</p> <p>Plant coll/Ymddygiad peryglus</p> <p>Anffurfio organau cenedlu benywod, priodasau dan orfod a thrais ar sail anrhydedd</p> <p>Sylw i swyddogaethau'r Bwrdd a chydymffurfio â'r Ddeddf</p> <p>Gofal cartref a chartrefi nyrsio</p> <p>Dementia</p>	Canolbarth a Gorllewin Cymru	<p>Cryfhau trefniadau'r Bwrdd Rhanbarthol ar gyfer llywodraethu, atebolrwydd a dysgu o adolygiadau</p> <p>Cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid</p> <p>Trefniadau amlasiantaeth ar gyfer rhannu gwybodaeth</p> <p>Codi ymwybyddiaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a datblygu cynllun gweithredu a strategaeth</p> <p>Dadansoddi hyfforddiant ar gyfer y gweithlu</p> <p>Polisi, protocol, canllawiau ac arfer gorau</p> <p>Gwefan a brandio'r Bwrdd</p> <p>Modelau ymarfer peilot</p> <p>Gwella'r trefniadau ar gyfer cymorth busnes</p>
Cwm Taf	<p>Atal hunanladdiad a hunan-niwed</p> <p>Camfanteisio'n rhywiol ar blant</p> <p>Esgeulustod</p> <p>Plant sy'n derbyn gofal</p> <p>Ymarfer diogelu rhyngasiantaethol effeithiol</p> <p>Rhannu gwaith dysgu</p> <p>Bod plant sy'n wynebu risg yn gallu byw bywyd diogel</p> <p>Ymgysylltu'n rhagweithiol a chymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd</p> <p>Gweithlu amlasiantaeth a gefnogir gan hyfforddiant rhyngasiantaethol</p> <p>Mynd ar drywydd cydweithredu</p> <p>Sicrwydd ynghylch prosesau ac ymarfer rhyngasiantaethol</p>	Gogledd Cymru	<p>Camfanteisio'n rhywiol ar blant, a phlant sydd ar goll o'r system ofal</p> <p>Plant sy'n ymddwyn yn niweidiol o safbwynt rhywiol</p> <p>Canlyniadau gwell i blant sy'n byw gyda chamdriniaeth ddomestig</p> <p>Gweithredu'n effeithiol a bodloni rhwymedigaethau statudol</p>
Gwent	<p>Lleihau'r effeithiau y mae sgiliau rhianta gwan yn eu cael ar lesiant plant</p> <p>Gwella gwaith gyda phobl ifanc adolescent sy'n ymddwyn yn beryglus</p> <p>Sicrhau bod ymarfer diogelu'n parhau yn effeithiol tra bydd y Ddeddf yn cael ei gweithredu</p> <p>Cynnal Bwrdd effeithiol</p>	Bae'r Gorllewin	<p>Diogelu plant yn effeithiol rhag esgeulustod</p> <p>Camfanteisio'n rhywiol ar blant</p> <p>Camdriniaeth ddomestig</p> <p>Atal a lleihau'r niwed sy'n ymwneud â sylweddau seicoweithredol newydd</p>

Mae'r tabl hwn yn nodi blaenoriaethau pob un o'r Byrddau Oedolion. Maent yn dangos diddordeb y Byrddau Rhanbarthol mewn hunanblismona.

Tabl 3: Blaenoriaethau'r Byrddau Rhanbarthol Oedolion

Ardal Bwrdd Diogelu	Blaenoriaethau
Caerdydd a'r Fro	Datblygu bwrdd oedolion cadarn a chydlynol
Cwm Taf	Strwythur y Bwrdd, llywodraethu a chydymffurfio â'r Ddeddf Cydweithredu i ddatblygu gwasanaethau sy'n adnabod problemau'n gynt ac yn eu hatal Ymgysylltu'n rhagweithiol a chymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd Sicrwydd ynghylch prosesau ac ymarfer rhyngasiantaethol Gweithlu amlasiantaeth a gefnogir gan hyfforddiant rhyngasiantaethol Mynd ar drywydd cydweithredu
Gwent	Swyddogaethau cyffredinol y Bwrdd Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol Ansawdd gofal
Canolbarth a Gorllewin Cymru	Sefydlu'r Bwrdd Llywodraethu ac alinio â'r Bwrdd Plant
Gogledd Cymru	Canlyniadau gwell i oedolion sy'n destun Cynlluniau Amddiffyn Oedolion Sicrwydd ynghylch ansawdd gwasanaethau diogelu Lleihau risgiau i oedolion, o ganlyniad i ymwybyddiaeth Y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol i sicrhau y rhoddir sylw i rwymedigaethau statudol
Bae'r Gorllewin	Llywodraethu Sefydlu cysylltiadau ag asiantaethau partner Ymgysylltu â dinasyddion

Ar yr olwg gyntaf, mae creu byrddau diogelu oedolion wedi cyfyngu ar y broses o bennu blaenoriaethau. Mae'n anodd rhoi sylwadau ar flaenoriaethau nad ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar berfformiad, oni bai eu bod yn flaenoriaethau sydd wedi'u hymgorffori mewn cynllun hirdymor sydd â chyfres o gerrig milltir.

Mae hunanblismona neu lywodraethu'n golygu bod â

- nodau ac arweinyddiaeth glir
- cyfrifoldebau sydd wedi'u rhannu yn glir
- dealltwriaeth glir ynghylch pam y mae rhai sefydliadau wedi'u cynnwys a beth yw eu rolau
- cynlluniau clir, a
- llinellau atebolrwydd clir.

Mae sicrhau trefniadau llywodraethu effeithiol yn flaenoriaeth gyffredin sy'n berthnasol i fyrddau plant ac oedolion. Mae ymchwil¹² wedi nodi bod gan waith llywodraethu effeithiol bum elfen:

- nodau, rhychwant gweithgarwch a dibenion clir, gan gynnwys egwyddorion cyffredin, ymrwymiad amlasiantaeth ac arweinyddiaeth strategol
- strwythurau, gan gynnwys cyfrifoldebau sydd wedi'u rhannu'n glir a systemau cyfathrebu, a chysylltiadau amlwg rhwng swyddogaethau neu weithgarwch
- aelodaeth, gan gynnwys rhesymeg glir dros gynnwys asiantaethau, dealltwriaeth o rolau, cyfrifoldebau ac ymrwymadau, tystiolaeth o ymgysylltu, a phrotocolau ar gyfer cadeirio, sicrhau cworwm, cyfrannu adnoddau a rheoli busnes
- swyddogaethau, gan gynnwys gwaith cynllunio strategol a goruchwyliaeth weithredol, yn sylweddoli'r gwahaniaeth rhwng llywodraethu a rheolaeth weithredol, ac agenda gref ar gyfer datblygu a gwella, sy'n croesawu gwaith archwilio, rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd
- atebolrwydd, gan gynnwys safonau ar gyfer perfformiad pwyllgorau a dulliau o asesu eu perfformiad, eglurder ynghylch awdurdod i wneud penderfyniadau ac ynghylch llwybrau adrodd, a chysylltiadau amlwg â phartneriaethau eraill.

Mae blaenoriaethau'r Byrddau Rhanbarthol yn rhoi sylw i'r elfennau hyn i wahanol raddau. Ar lefel fwy cyffredinol, mae angen o hyd i nodau'r Byrddau Rhanbarthol gael eu gwahaniaethu'n glir oddi wrth y modd y ceisir eu cyflawni.

12 Braye, S., Orr, D. a Preston-Shoot, M. (2012) The governance of adult safeguarding: the findings from research *The Journal of Adult Protection* 14 (2), 55-72

Roedd barnu sut y mae'r Byrddau Rhanbarthol wedi **gweithredu cynlluniau blynyddol** a **gwelliannau penodol** yn dasg anodd. Nid oedd gwahaniaeth amlwg rhwng y gwaith o gyflawni nodau a dulliau gweithio'r Byrddau er mwyn cyflawni nodau.

Mae atal pobl o bob oed rhag cael niwed yn bwysig i bob un o'r Byrddau Rhanbarthol.

Mae lefelau ymyrryd posibl yn cael eu disgrifio.

Mae'r Byrddau Rhanbarthol yn ymdrin â mathau o gamdriniaeth a allai fod yn llai cyfarwydd nag ymddygiad troseddol megis ymosod a dwyn. Mae'r mathau hynny o gamdriniaeth yn cynnwys "troseddau casineb," bwlio a seiberfwlio. Mae atal camdriniaeth mewn gwasanaethau preswyl yn gofyn am sgiliau tebyg i'r rhai y mae pobl sy'n gweithio yn eu cartrefi eu hunain yn eu defnyddio.

I ba raddau y mae'r Byrddau Diogelu wedi gweithredu eu cynlluniau blynyddol diweddaraf, gan gynnwys manylion i ba raddau y cafodd unrhyw welliannau penodol a gynigiwyd eu gweithredu

Mae'r canllawiau statudol yn cydnabod o'r dechrau'n deg bod cynllunio'n cymryd amser. Dewis beth y dylai'r Byrddau Rhanbarthol fod yn ei gyflawni yw'r cam sy'n rhagflaenu'r gwaith o ddylunio ymyriadau ac atebion. Mae Tabl (c) (Atodiad 2) yn amlinellu beth y mae'r Byrddau Diogelu wedi'i wneud i roi eu cynlluniau ar waith.

Er bod sawl Bwrdd Rhanbarthol yn cyfeirio at waith atal, sy'n un o egwyddorion y Ddeddf, nid yw'r gwaith hwnnw eto wedi'i gysylltu â chanlyniadau megis galluogi unigolion a theluoedd i gael mwy o reolaeth a chyfle i fynegi barn, er enghraifft. Nid oes cysylltiad rhwng y camau a gymerir yn erbyn unigolion sy'n niweidio, y camau a gymerir i gynorthwyo unigolion sydd dan ormod o straen i ofalu am bobl fel y byddent efallai'n dymuno, a'r camau a gymerir i sicrhau bod y ddarpariaeth o ran gwasanaethau wedi'i dylunio'n dda, bod ganddi ddigon o adnoddau a bod ganddi weithlu cymwys a oruchwylir. At hynny, nid yw'r gwahaniaeth rhwng lefelau ymyrryd posibl yn amlwg, hynny yw:

- caiff **gwaith atal sylfaenol** ei gyfeirio at bobl a chanddynt fawr ddim anghenion o ran cymorth, a gall gynnwys darparu gwybodaeth am sgamiau ariannol neu berthnasoedd iach, er enghraifft. Yn ogystal, gall gwaith atal sylfaenol ymwneud â chomisiynu a dylunio gwasanaethau diogel
- nod **gwaith atal eilaidd** yw cynorthwyo pobl i wella eu sefyllfa, efallai drwy ganolbwyntio ar bobl ag anabledau dysgu neu ddementia sy'n byw ar eu pen eu hunain. Yn ogystal, gall gwaith atal eilaidd ei gwneud yn bosibl i waith adnabod ac ymyrryd ddigwydd yn brydlon
- nod **gwaith atal trydyddol** yw rhoi terfyn ar ddirywiad y gellir ei atal, efallai drwy sicrhau bod teuluoedd a staff cymorth yn deall difrifoldeb ac arwyddion twyll a thrais domestig, er enghraifft. Yn ogystal, gall gwaith atal trydyddol fod yn fodd i leddfu'r niwed y mae unigolion wedi'i ddiodef.

Roedd polisiâu megis *Mewn Dwylo Diogel*¹³ yn allweddol i waith atal eilaidd a gyfrannodd yn ei dro at waith atal sylfaenol ar ffurf prosesau dylunio gwasanaethau a sicrhau ansawdd.

Mae'r Byrddau Rhanbarthol yn mynd i'r afael ag amryw fathau o gamdriniaeth nad ydynt yn cyd-fynd yn union â'r categorïau arferol, sef camdriniaeth gorfforol, camdriniaeth rywiol, camdriniaeth seicolegol, esgeulustod a chamdriniaeth ariannol (Rhan 7, paragraff 26). Mae rhai'n mynd i'r afael â **throseddau casineb, bwlio a seiberfwlio**, sy'n gofyn am ymgysylltu â'r cyhoedd, addysgu ieuencid a chreu hafanau diogel, er enghraifft; a **chamdriniaeth barasitig** lle mae unigolion yn symud i mewn i gartrefi oedolion sy'n wynebu risg. Mae'r math hwn o niwed yn gofyn am waith ymyrryd ar y cyd gan ddarparwyr tai, gwasanaethau brys, Swyddfeydd Post, banciau a chymunedau lleol. Mae mynd i'r afael â chamdriniaeth mewn **sefydliadau a chartrefi preswyl** yn gofyn am waith comisiynu cadarn, polisiâu ynghylch recriwtio, hyfforddi a goruchwyllo, gan gyfeirio at ymddygiad y bernir ei fod yn heriol, a pholisi ynghylch rheolaeth ac ataliaeth (*restraint*) sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae perthnasau, athrawon a gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol sy'n wylidwrs yn hollbwysig o safbwynt mynd i'r afael ag anghenion pobl sy'n byw mewn cartrefi teuluol a nodweddir gan drais. Yn olaf, ceir **sefyllfaoedd heriol o safbwynt moesegol** lle gallai fod yn ofynnol defnyddio'r Ddeddf ac Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol, er enghraifft.¹⁴

13 Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2000) *Mewn Dwylo Diogel: Rhoi Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion Ar Waith yng Nghymru* Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

14 Flynn, M. a Brown, H. (2010) Safeguarding adults with learning disabilities against abuse, yn G. Grant, P. Ramcharan, M. Flynn a M. Richardson (goln) *Learning Disability: A life cycle approach*, 2^a argraffiad, Maidenhead: McGraw Hill, Open University Press

Mae Byrddau Rhanbarthol yn ysgrifennu llawer o brotocolau, polisiâu a gweithdrefnau.

Mae llawer o brotocolau, adnoddau, strategaethau a gweithdrefnau'n cael eu datblygu, eu hadolygu a'u diwygio. Ymddengys fod rhai'n cael eu drafftio heb gyfeirio at ddeunyddiau cyfredol/dibynadwy, neu heb gyfeirio hyd yn oed at yr ymarferwyr y disgwylir iddynt ddefnyddio'r deunyddiau. Ni wyddys beth yw gwerth llunio dogfennau hirfaith, a hyd yn oed dogfennau ategol. Nododd un Bwrdd Rhanbarthol fod ei flaenoriaethau wedi...*canolbwyntio ar wella'r defnydd a wneir o'r Adnodd Asesu ar gyfer Esgeulustod ymhlith ymarferwyr. Mae hynny wedi dangos bod angen adolygu a diweddarau'r canllawiau sy'n ategu'r adnodd.*

Dywed Canolbarth a Gorllewin Cymru fod Is-grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau'r Bwrdd yn ceisio darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol drwy ddatblygu polisiâu a gweithdrefnau rhanbarthol. Mae nifer o bolisiâu a gweithdrefnau lleol ar waith ym mhob aelod-sefydliad. Un amcan allweddol yw gweithio tuag at droi'r rhain yn bolisiâu ac yn weithdrefnau rhanbarthol er mwyn helpu i hybu ymateb rhanbarthol mwy cyson.

Rhestrodd Byrddau eraill (i) eu polisiâu sydd wedi'u drafftio a (ii) eu polisiâu sydd wrthi'n cael eu paratoi:

- i. *Protocol ar gyfer Rheoli Hunan-niwed yn y Gymuned – mae'n ategu'r Strategaeth ar gyfer Lleihau Hunanladdiad a Hunan-niwed; Polisi Diogelu Plant ar gyfer Ysgolion; Canllawiau a Gwybodaeth i Ofalwyr Maeth a Gofalwyr sy'n Berthnasau pan fydd honiad wedi'i wneud yn eich erbyn; Protocol ar gyfer Ymateb i Achosion Heriol sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant; a Polisi Digwyddiadau Tyngedfennol ar gyfer Ysgolion (sydd wedi'i ddrafftio gan gydweithwyr ym maes addysg)*
- ii. *Polisi Diogelu Plant Anabl; Polisi Ymddygiad Peryglus; Protocol rhwng darparwyr lleoliadau preswyl preifat i blant a sefydliadau partner.*

Mae protocolau Cwm Taf yn cynnwys: *Datrys pryderon ynghylch ymarfer diogelu rhyngasiantaethol; Datgelu camdriniaeth yn ystod plentyndod gan unigolyn sydd bellach yn oedolyn; a Protocol ar gyfer ymateb ar unwaith i ddigwyddiadau tyngedfennol.*

Nid oes unrhyw dystiolaeth bod protocolau, polisiâu a gweithdrefnau newydd yn helpu pobl sy'n hysbys i ymarferwyr diogelu.

Dim ond pedair enghraifft o ymyriadau diogelu "llwyddiannus" sy'n cael eu disgrifio gan ddau Fwrdd Rhanbarthol.

Gellir ychwanegu'r canlynol at yr uchod:

- *protocol ar gyfer achosion o or-gasglu a chadw; polisi diogelu ar gyfer mosgiau a lleoliadau Islamaidd eraill; protocol ar gyfer ymdrin ag unigolion coll; protocol ar gyfer achosion o hunanesgeuluso; protocol ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref; protocol ar gyfer ymdrin â rhieni sydd â salwch meddwl hysbys; protocol ar gyfer ymdrin â phryderon gweithwyr proffesiynol; protocol ar gyfer prosesau'n ymwneud â darluniau meddygol; protocol ar gyfer adolygiadau ymarfer; protocol ar gyfer uwchgyfeirio pryderon*
- *adnodd archwilio achosion; adnodd i'w ddefnyddio gyda phlant y gallai rhywun gamfanteisio'n rhywiol arnynt; defnydd o becyn cymorth yr NSPCC ar gyfer archwilio ymddygiad rhywiol niweidiol*
- *cyfarfodydd amlasiantaeth ynghylch strategaethau; Strategaeth a chynllun ar gyfer Atal Achosion o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant; strategaeth gyfranogi; adolygiad o strategaeth hyfforddiant; strategaeth hyfforddiant ranbarthol; strategaeth amlasiantaeth ar gyfer ymdrin â phlant sydd ar goll o'r system ofal.*

Gan na chefnwyd ar unrhyw brotocolau, adnoddau, strategaethau na gweithdrefnau o ganlyniad i adolygiadau, gellid dadlau bod gwir angen trafodaeth.

- Sut y mae unigolion y gwyddys iddynt wynebu risg o niwed yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu protocolau, adnoddau, strategaethau a gweithdrefnau?
- A oes gan y Byrddau Rhanbarthol dystiolaeth bod protocolau, polisiâu, adnoddau a gweithdrefnau yn cynyddu'r graddau y gellir rhagweld ymarfer ac yn lleihau amrywioldeb rhwng ymarferwyr?
- Sut y caiff ymarferwyr sicrwydd bod y dogfennau hyn yn berthnasol ac yn angenrheidiol o safbwynt llywio ymarfer effeithiol ac effeithlon?
- A yw'r Byrddau Rhanbarthol o'r farn bod llawer o elfennau cyffredin yn perthyn i ymddygiad pobl a bod modd i'w protocolau fod yn berthnasol ar draws amryw grwpiau a sefyllfaoedd?
- A yw'r Byrddau Rhanbarthol yn siŵr bod eu protocolau yn y pen draw'n ddefnyddiol i'r unigolion sy'n cael gwasanaethau diogelu?
- Sut y mae'r gwaith o greu protocolau anstatudol yn sicrhau dulliau gweithredu atebol?

Mae'r termau "arfer gorau" ac "arfer da" i'w gweld mewn rhai adroddiadau blynyddol. Fel rheol, caiff y termau hyn eu datgan ar sail "achosion llwyddiannus". Nid yw'r Byrddau Rhanbarthol eto'n disgrifio sut y maent yn penderfynu bod arfer gorau honedig yn gyfrifol mewn gwirionedd am y llwyddiannau a welir. Dim ond pedair enghraifft o achosion "llwyddiannus" a ddisgrifir gan Fyrddau Rhanbarthol Gogledd Cymru a Chwm Taf (gweler y testun sy'n dilyn Tabl (f) (Atodiad 3)).

Nid yw'r adroddiadau blynyddol yn adlewyrchu cyfran yr amser y mae'r Byrddau Rhanbarthol a staff yr Unedau Busnes yn ei neilltuo i flaenoriaethau penodol. Mae'r ystyriaeth hon yn berthnasol gan fod sawl aelod o Fyrddau Rhanbarthol wedi nodi bod Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn bwnc sydd fel pe bai'n cael mwy o sylw na phob pwnc arall.

Mae'r Byrddau Rhanbarthol yn nodi bod cynlluniau gweithredu a seilwaith, er enghraifft, yn **gyflawniadau**. Nid yw'n glir pa ganlyniadau sydd wedi'u cyflawni ar wahanol lefelau.

Mae'r adroddiadau yn tueddu i ddisgrifio **cydweithredu** yn nhermau mynychu cyfarfodydd a bod yn rhan o rwydweithiau.

Cyflawniadau'r Byrddau Diogelu yn ystod y flwyddyn¹⁵

Wrth gyfeirio at Dabl (ch) (Atodiad 2) gwelir cyflawniadau honedig y Byrddau Rhanbarthol. Mae'r tabl yn dangos bod cynlluniau gweithredu, dulliau llywodraethu, seilwaith a threfniadau cydweithredu'n cael eu nodi fel cyflawniadau enghreifftiol. Pwysleisiodd cynhadledd yng ngogledd Cymru yr egwyddor sy'n ymwneud â sicrhau bod barn pawb yn gyfartal, drwy ddatgan bod yn rhaid i dystiolaeth uniongyrchol plentyn fod yn amlwg mewn ymarfer ac mewn adolygiadau ymarfer. Yr hyn sydd ar goll yw eglurder ynghylch y canlyniadau a gyflawnwyd sy'n dod â chanfyddiadau i derfyn ar wahanol lefelau, er enghraifft:

- **Y plentyn neu'r oedolyn sy'n wynebu risg** – eu diogelwch yn y fan a'r lle; trefniadau amddiffyn hirdymor a chymorth i wella
- **Y sawl sy'n gyfrifol am y niwed** – y system cyfiawnder troseddol; cyfraith cyflogaeth/camau disgyblu; gwahardd o'r gweithlu; gwaharddebau; cymorth ychwanegol (i) os yw hyfforddiant neu oruchwyliaeth wedi bod yn ddiffygiol (ii) os oes perthnasau'n gysylltiedig â'r niwed
- **Y gwasanaeth** – ymarfer gwell; mwy o gyllid/cyngor proffesiynol/craffu ar gamau rheoleiddiol; camau gorfodi rheoleiddiol; dod â'r achos i ben
- **Y comisiynwyr** – newidiadau i gontract/cyllid; ailddarparu gwasanaethau; cymorth rhyngasiantaethol
- **Yr agenda genedlaethol** – adolygiadau ymarfer plant ac oedolion; adolygiadau dynladdiad domestig ac ymchwiliadau cyhoeddus; a chydabod bylchau mewn pwerau a dyletswyddau.¹⁶

Sut mae'r Byrddau Diogelu wedi cydweithredu â phobl neu gyrff eraill sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â'u hamcanion

Mae'n anodd nodi o'r adroddiadau blynyddol (gweler Tabl (d), Atodiad 2) sut mae'r Byrddau Rhanbarthol wedi cydweithredu ag eraill. Fel rheol, cyfeirir at fynychu cyfarfodydd ac at rwydweithiau ac ystadegau, heb nodi'r unigolyn/asiantaeth sy'n gyfrifol am y mentrau. Nid yw'n glir chwaith pryd y mae ymdrechion i gydweithredu'n dechrau. Mae'n arferol i gyfranogwyr roi amcangyfrif rhy isel o'r amser y mae'n ei gymryd i gyflawni canlyniadau.

Bydd y profiad a gronnir a'r sgiliau sy'n berthnasol i gydweithredu ac arweinyddiaeth yn dylanwadu ar gapasiti'r Byrddau Rhanbarthol o ran llywio. Bydd ymddiriedaeth ymysg yr aelodau'n tyfu wrth i bartneriaid statudol a chyfranogwyr rannu'r gwaith o ddatrys problemau a buddsoddi mewn deall cryfderau a chyfyngiadau ei gilydd. Os yw'r Byrddau Rhanbarthol am gynorthwyo pobl o bob oed i fod yn ddiogel ac am ymateb yn effeithiol i'r sawl sydd wedi cael niwed, mae cydweithredu rhyngberonol, her haeddiannol a dulliau gweithredu llai biwrocraidd yn hanfodol.

¹⁵ Mae'r drefn ar gyfer *Cynnwys Adroddiad Blynyddol* wedi'i newid er mwyn cyflwyno'r adran hon cyn yr adrannau ynghylch cydweithredu ac ynghylch ceisiadau a wneir gan Fyrddau Diogelu

¹⁶ Brown, H. (2009) The process and function of serious case review *The Journal of Adult Protection* 11 (1) 38-50

Dim ond Bwrdd Rhanbarthol Gogledd Cymru a ofynnodd am **wybodaeth benodol** (dan adran 137) ynghylch ward Tawel Fan gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cafodd fanylion briffio interim.

Gofynnwyd i'r Byrddau Rhanbarthol ddarparu gwybodaeth am **effeithiolrwydd aelodau unigol y byrddau**.

Mae'n annhebygol bod hunanasesiadau aelodau byrddau yn datgelu digon o wybodaeth. Byddent yn fwy credadwy pe baent yn cael eu cydysgrifennu.

Unrhyw geisiadau y mae'r Byrddau Diogelu wedi'u gwneud i bobl gymwys o dan adran 137 (1) am wybodaeth benodol, ac a weithredwyd ar y ceisiadau hynny

Dim ond Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru a wnaeth gais dan adran 137 (1). Ymddangosodd ward Tawel Fan, Uned Ablett (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) ym mhenawdau papurau newydd yn lleol a ledled y DU yn ystod 2014.¹⁷ Y wasg a ddygodd y sefyllfa honno i sylw'r trefniadau diogelu oedolion a oedd ar waith cyn i'r Bwrdd Rhanbarthol gael ei greu. Ni chafodd gwybodaeth am ymchwiliadau mewnol ac allanol, a gomisiynwyd yn annibynnol ar drefniadau diogelu amlasiantaeth, ei rhannu â'r Bwrdd Rhanbarthol. Gan fod presenoldeb anghyson wedi effeithio ar gyfraniadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'r Bwrdd, gwnaeth y Cadeirydd gais dan adran 137. Cafwyd manylion briffio interim.

I ba raddau y mae pob aelod o'r Byrddau Diogelu wedi cyfrannu at effeithiolrwydd y Byrddau

Mae creu chwe ardal bwrdd diogelu allan o 22 o fyrddau diogelu plant a 22 o fyrddau diogelu oedolion yn newid gweinyddol mawr. Mae'r egwyddor sy'n sicrhau bod partneriaeth a chydweithredu yn hybu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn berthnasol i'r broses o ystyried effeithiolrwydd y Byrddau Rhanbarthol, oherwydd rhaid iddynt ddod i gytundeb a chynnal cytundeb ynghylch nodau sylfaenol a rhaid iddynt greu diwylliannau sy'n hwyluso perthnasoedd gweithio. Mae cydweithredu effeithiol yn dod i'r amlwg yn araf oherwydd mae angen amser ac ymdrech ar brosesau meithrin ymddiriedaeth a chytundeb. Mae Tabl (dd) (Atodiad 3) yn seiliedig yn bennaf ar hunanasesiadau cyfyng o asiantaethau partner unigol, eu haelodaeth o grwpiau penodol, a rhestrau o brosesau ac allbynnau. Ni wyddys a wnaeth asiantaethau wahodd cydweithwyr o wahanol sectorau ai peidio i gydysgrifennu'r asesiadau o'u cyfraniadau.

¹⁷ <http://www.dailymail.co.uk/news/article-2798576/is-shaming-hospital-care-scandal-dementia-patients-restrained-broken-limbs-ignored-swearing-staff-claimed-expos-desperate-relatives-breach-human-rights.html> (cyrchwyd 27 Medi 2017)

Unedau Busnes y Byrddau Rhanbarthol sy'n cael y rhan fwyaf o'r cyllid.

Asesiad o sut aeth y Byrddau Diogelu ati i ddefnyddio eu hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau neu eu canlyniadau

Unedau Busnes y Byrddau Rhanbarthol sy'n cael y rhan fwyaf o'r cyllid. Lle mae symiau wedi'u nodi, gwelir bod y cyllid ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion yn amrywio o £4,000 i £10,500. Er bod gwybodaeth gyffredinol am gyllid wedi'i dosbarthu ar draws dogfennau, ni cheir manylion am y rhesymeg. Ni wnaeth unrhyw Fwrdd Rhanbarthol fyfyrion ynghylch y graddau y mae'n sicrhau gwerth am arian.¹⁸

Tabl 4: Cyllid ar gyfer y Byrddau Rhanbarthol

Ardal Bwrdd Diogelu	Cyllid cyffredinol	Yr Uned Fusnes
Caerdydd a'r Fro	-	-
Cwm Taf	£176,010.00	
Gwent	£355,000.00	£289,000.00
Canolbarth a Gorllewin Cymru	£110,058.46	£ 73,343.41
Gogledd Cymru	£218,562.00	£173,148.00
Bae'r Gorllewin	£185,323.00	£138,023.00

¹⁸ Nid oes gan y Bwrdd Cenedlaethol swyddogaeth archwilio, hynny yw ni all ddatgan a yw arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth ai peidio

Er bod Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion yn cymryd llawer o amser trafod yn ystod cyfarfodydd y Byrddau, nid yw eu **themâu sylfaenol** yn cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiadau blynyddol.

Unrhyw themâu sylfaenol yn y ffordd y mae'r Byrddau Diogelu yn cyflawni eu swyddogaethau, fel y dangosir gan ddadansoddiad o achosion y maent wedi ymdrin â nhw, ac unrhyw newidiadau y maent wedi'u gwneud o ganlyniad

Er bod Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn achosi pryder i Fyrddau Rhanbarthol Plant ac Oedolion o safbwynt cyfran yr amser trafod y maent yn ei gymryd yn ystod cyfarfodydd y Byrddau, ni chaiff hynny ei adlewyrchu yn eu hadroddiadau blynyddol.

Tabl 5: Themâu sy'n deillio o achosion diogelu

Ardal Bwrdd Diogelu	Themâu sylfaenol a newidiadau i ddulliau ymarfer
Caerdydd a'r Fro	-
Cwm Taf	Adnabod yr angen i...wella'r dull o reoli a chydlynu ymateb amlasiantaeth i bobl ifanc sy'n wynebu risg o ddiodef niwed oherwydd achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant; mae proses amlasiantaeth wedi cael ei datblygu ar gyfer cyfuno gwybodaeth am y sawl a allai achosi'r niwed, lleoliadau a'n pobl ifanc fwyaf agored i niwed; mae nifer y plant sydd dan ofal yr awdurdod lleol wedi gostwng; 0-4 oed yw'r ystod oedran uchaf ar gyfer cofrestrïadau amddiffyn plant
Gwent	-
Canolbarth a Gorllewin Cymru	Hunanladdiadau ymhlith plant ac achosion o geisio cyflawni hunanladdiad; honiadau yn erbyn gweithwyr proffesiynol; [ymarfer] gofalu mewn cartrefi gofal a chartrefi nyrsio, a dyletswydd y sector hwn i gydweithredu mewn adolygiadau a digwyddiadau dysgu; marwolaeth yn yr ysbyty; diogelu plant y mae gan eu rhieni salwch meddwl hysbys
Gogledd Cymru	Deilliodd 63 o argymhellion o adolygiadau ac o Fforwm Gweithwyr Proffesiynol; cafodd materion yn ymwneud â phroses eu symud yn eu blaen wrth i'r Canllaw Arfer Da ar gyfer Digwyddiadau Dysgu gael ei ddatblygu; cafodd y flaenoriaeth sy'n ymwneud â llwybr amlasiantaeth cyn geni ei nodi gan dri adolygiad; mae canllawiau i gadeiryddion a'r sawl sy'n cadw cofnodion wedi'u datblygu ochr yn ochr ag adolygiad gan gymheiriaid
Bae'r Gorllewin	-

Mae **cyfranogiad** plant ac oedolion yng ngwaith y Byrddau Rhanbarthol yn “waith sydd ar y gweill”.

Pryd a sut aeth plant neu oedolion ati i fachu ar y cyfle i gyfrannu at waith y Byrddau Diogelu a sut y cyfrannodd hyn at helpu'r Byrddau i gyflawni eu canlyniadau

Nododd ymgynghoriad â Chadeiryddion y Byrddau Rhanbarthol yn ystod mis Awst 2016 fod ymgysylltu â'r sawl sy'n defnyddio gwasanaethau diogelu yn “waith sydd ar y gweill.” Mae Canolbarth a Gorllewin Cymru yn arwain y ffordd.

Tabl 6: Enghreifftiau o gyfleoedd i gyfranogi

Ardal Bwrdd Diogelu	Cyfranogi
Caerdydd a'r Fro	Caiff yr elusen Rhieni yn erbyn Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ei hyrwyddo gan eiriolwyr plant Heddlu De Cymru; datblygodd yr Is-grŵp Cyfathrebu a Chyfranogi strategaeth gyfranogi; cafodd DVD diogelu plant ei ddatblygu fel sylfaen ar gyfer codi ymwybyddiaeth
Cwm Taf	Cyfrannodd pobl ifanc sy'n derbyn gofal at y gwaith o gynhyrchu DVD. Mae'r negeseuon allweddol yn cynnwys: bod â rhywun i siarad ag ef/â hi; bod â lluniau; gwybod am flynyddoedd cynnar eu bywyd a pham y maent yn derbyn gofal; siarad ag eraill sy'n derbyn gofal; cael lluniau o'r man y maent yn symud iddo; a chwrdd â gofalwyr maeth cyn symud i fyw gyda nhw; mae pobl ifanc wedi adolygu gwefan y Bwrdd; maent wedi helpu i ddylunio eitemau hyrwyddo ar gyfer yr Wythnos Diogelu
Gwent	-
Canolbarth a Gorllewin Cymru	Comisiynodd y bwrdd plant Wasanaeth Eiriolaeth Annibynnol i redeg ei Fwrdd Diogelu lau sy'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Mae'r Bwrdd lau (i) yn darparu cyngor a gwybodaeth i'r Bwrdd Gweithredol ynghylch pynciau sy'n bwysig i'r Bwrdd (ii) yn cynorthwyo i ddatblygu'r cynllun blynyddol strategol (iii) yn darparu adborth ynghylch presenoldeb y Bwrdd ar gyfryngau cymdeithasol. Ceir grwpiau diogelu iau lleol sy'n cyd-fynd â'r Grwpiau Gweithredol Lleol. Cynhaliodd y “Diogelwyr Iau” gynhadledd ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant; cynhyrchodd “Sêr Saff” Ceredigion fideo gwrth-fwlio; mae Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin wedi ymgorffori trefniadau diogelu pobl iau; ac mae grŵp “Eat Carrots” Powys wedi cynnal digwyddiadau ymgynghori'n ymwneud â pherthnasoedd iach ac wedi sôn bod angen gwybodaeth a chymorth gwell mewn ysgolion ynghylch amrywiaeth a rhywioldeb; mae'r Bwrdd wedi comisiynu Pobl yn Gyntaf Sir Benfro, ac wedi dechrau gweithio gyda'r grŵp hwnnw, er mwyn cynorthwyo i ddatblygu fersiwn hawdd ei darllen o gynllun blynyddol y Bwrdd; ymgynghorwyd ag ymarferwyr, grwpiau teuluol ac oedolion, yr oedd llawer ohonynt yn cael gwasanaethau atal, ynghylch dogfennau cymorth rhanbarthol am drothwyau a chymhwysedd; ac roedd yr Wythnos Genedlaethol Diogelu yn cynnwys digwyddiadau a gynhaliwyd ar y cyd â Heddlu Dyfed-Powys
Gogledd Cymru	Cafodd ffilm ddwyieithog a gynhyrchwyd gan ddisgyblion ysgol uwchradd a'r heddlu am Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ei dangos yn yr Eisteddfod yn 2016 a'i rhannu ar y wefan; mae'r grwpiau cyflawni'n archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio holiadur i gofnodi profiad pobl o ddefnyddio gwasanaethau diogelu
Bae'r Gorllewin	-

Ymddengys nad yw'r arfer o roi cyfle i bobl o bob oed fynegi barn ym maes diogelu wedi ennill ei blwyf eto. Mae'r ychydig gyfeiriadau at eiriolaeth a geir yn yr adroddiadau blynyddol yn anghyson â'r ymrwymiad i sicrhau “llais a rheolaeth gref” (paragraff 21).¹⁹

Nid adroddodd unrhyw Fwrdd Rhanbarthol am y defnydd sy'n cael ei wneud o **orchmynion amddiffyn a chynorthwyo oedolion**.

Mae gan bob un o'r Byrddau Rhanbarthol is-grwpiau sy'n ymdrin â **hyfforddiant**, dysgu a datblygu'r gweithlu. Maent yn ceisio mynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth a sgiliau, er enghraifft.

Nifer y Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion y gwnaed cais amdanynt yn yr ardaloedd Bwrdd Diogelu, sawl un a wnaed a pha mor effeithiol oeddent

Caiff diben y Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion ei nodi yn adran 127 y Ddeddf. Yn fras, mae'r Gorchmynion yn galluogi swyddog awdurdodedig ac unrhyw berson arall sydd gyda'r swyddog i gael pŵer mynediad i "fangre" i gael sgwrs breifat gyda'r person yr amheuir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg; canfod a yw'r person hwnnw'n gwneud penderfyniadau o'i wirfodd; ac asesu a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg a gwneud penderfyniad ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd. Mae'r diffiniad o "fangre" yn eang o fwriad, ac mae'n pwysleisio cyfrifoldeb yr awdurdod lleol i ddiogelu mewn lleoliadau sefydliadol, gan gynnwys ysbytai.

Nid oes unrhyw Fwrdd Rhanbarthol Diogelu Oedolion wedi adrodd ynghylch y defnydd a wnaed o Orchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn ystod 2016-2017. Mae'r pwnc yn un dadleuol, ac er ei bod yn syndod na wnaed unrhyw geisiadau yn ystod 2016-2017 mae profiad yr Alban yn awgrymu mai prin y caiff pwerau statudol eu defnyddio.²⁰

Unrhyw wybodaeth neu ddysgu y mae'r Byrddau Diogelu wedi'i ddsbarthu, neu hyfforddiant y maent wedi'i argymhell neu ei ddarparu

Mae hyfforddiant ynghylch diogelu yn rhan o ffrydiau gwaith pob un o'r Byrddau Rhanbarthol. Mae gan bob Bwrdd is-grŵp ar gyfer hyfforddiant, datblygu'r gweithlu, dysgu a datblygu a thybir bod y rhain wedi esgor ar weithgareddau megis arwain hyfforddiant, cynnal archwiliadau sefydliadol, dadansoddi anghenion o ran dysgu, dosbarthu gwaith dysgu, comisiynu hyfforddiant, darparu hyfforddiant a gwerthuso hyfforddiant.

Mae Tabl (e) (Atodiad 3) yn nodi sut y mae'r Byrddau Rhanbarthol wedi ymgorffori hyfforddiant ynghylch diogelu yn eu dogfennau cynllunio. Mae Tabl (f) yn datgelu nad oes prinder uchelgais o safbwynt meithrin gweithlu cymwys. Mae'r hyfforddiant yn yr ardaloedd bwrdd diogelu yn ceisio mynd i'r afael â diffygion mewn gwybodaeth, sgiliau, ymwybyddiaeth, cyd-ddealltwriaeth a phrofiad yn ogystal â hybu cysondeb mewn hyfforddiant.

Nid yw'n glir sut y mae blociau adeiladu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi dylanwadu ar hyfforddiant. Nid yw'n glir a yw pobl sydd â phrofiad uniongyrchol o ddiogelu yn ymwneud â hyfforddiant, a sut y mae'r hyfforddiant a gaiff ei ddarparu'n cysylltu â rhaglenni proffesiynol ac addysgol.

Mae cyllideb pump o'r Byrddau Rhanbarthol ar gyfer hyfforddiant ynghylch diogelu rhwng £15,000 a £22,000.

Yr elfennau *nad* ydynt yn rhan o'r rhaglenni cynllunio hyfforddiant ynghylch diogelu yw'r heriau sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- parhau'n driw i'r egwyddorion sy'n sail i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
- gwneud synnwyr o'r dysgu sy'n deillio o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion mewn ffyrdd sy'n ymarferol – gan sicrhau bod unigolion a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys
- cael hyfforddiant gan bobl a gofawyr sydd â phrofiad uniongyrchol o ddiogelu
- adlewyrchu cyfyngiadau sefydliadol, pwysau a gwerth am arian yng nghyswllt hyfforddiant ynghylch diogelu, e.e. "rydym yn defnyddio cyfleusterau e-ddysgu er ein bod yn gwybod nad yw pobl yn eu hoffi"
- hyfforddi pobl sy'n dod i gysylltiad â phlant ac oedolion a allai fod "yn wynebu risg" e.e. cynghorwyr, swyddogion tai, ceirododyddion, gweithwyr cymorth, gwirfoddolwyr, gyrwyr a staff cludiant, gweithwyr cymunedau ffydd; hyfforddi gweithwyr proffesiynol cymwys a'r sawl sy'n rheoli ac yn goruchwyllo staff sy'n darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i blant ac oedolion a allai fod "yn wynebu risg"; hyfforddi swyddogion gweithredol, uwch-reolwyr a phenaethiaid gwasanaeth, er enghraifft
- cynnal gwaith buddsoddi mewn hyfforddiant
- cysylltu â rhaglenni proffesiynol ac addysgol ehangach a ddarperir mewn colegau a phrifysgolion
- egluro'r lefelau cydweithredu sy'n ofynnol mewn sefydliadau ac ar eu traws er mwyn mynd i'r afael â'r amrywiaeth o senarios diogelu
- sicrhau bod ymarferwyr yn dylanwadu ar y gwaith o ddylunio rhaglenni hyfforddiant
- trosiant staff yn gwanhau profiad uniongyrchol a budd hyfforddiant
- staff yn symud o'r naill asiantaeth i'r llall neu o'r naill swydd i'r llall.

Wrth gyfeirio at y cyllid ar gyfer hyfforddiant yn yr ardaloedd bwrdd diogelu, gwelir y buddsoddiad cymharol fach a wneir gan bob bwrdd. Nododd adroddiad blynyddol Gogledd Cymru *nad* yw'r £18,000 a ddyrannwyd i hyfforddiant yn ystyried *darpariaeth fewnol*. Ymddengys fod hynny'n wir hefyd am y Byrddau Rhanbarthol eraill.

Tabl 7: Y cyllid a ddyrannwyd i hyfforddiant ynghylch diogelu yn ystod 2016-2017

Ardal Bwrdd Diogelu	Cyllid i hyfforddiant ynghylch diogelu	Cyfanswm gwariant y Bwrdd
Caerdydd a'r Fro	-	-
Cwm Taf	£15,550.00*	£176,010.00
Gwent	£22,000.00	£355,000.00
Canolbarth a Gorllewin Cymru	£16,524.10	£110,058.46
Gogledd Cymru	£18,000.00	£218,562.00
Bae'r Gorllewin	£20,000.00	£185,323.00

*Gwariant cyffredinol – y swm a oedd yn weddill ar ôl tynnu costau staffio ac adeiladau

Mae rhai o'r gweithgareddau a'r rhaglenni sy'n gysylltiedig â hyfforddiant yn cynnwys grwpiau buddiant proffesiynol a fforymau ymarferwyr, er enghraifft.

Mae pynciau'r Byrddau Rhanbarthol ar gyfer hyfforddiant yn amrywiol dros ben.

Mae Tabl 8 yn nodi rhai o'r gweithgareddau penodol yn ymwneud â hyfforddiant, a nodwyd gan y Byrddau Rhanbarthol.

Tabl 8: Gweithgareddau cysylltiedig yn ymwneud â hyfforddiant

Ardal Bwrdd Diogelu	Gweithgareddau cysylltiedig yn ymwneud â hyfforddiant
Caerdydd a'r Fro	Y grŵp buddiant proffesiynol ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn hybu gwaith dysgu proffesiynol a datblygu sgiliau ar draws asiantaethau; cyflwyniadau i'r Bwrdd ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, protocol ar gyfer Prosesau'n ymwneud â Darluniau Meddygol, gwaith yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, Caethwasiaeth Fodern
Cwm Taf	Cafodd cynllun gwaith a rhaglen archwilio eu datblygu er mwyn sicrhau cyfleoedd dysgu a gwelliannau'n ymwneud ag arfer da a meysydd i'w datblygu; cafodd adnodd newydd archwilio achosion ac adnodd dysgu newydd eu datblygu; mae'r dulliau o ddsbarthu gwaith dysgu'n cynnwys gwefan Cwm Taf ynghylch diogelu... "ein hasiantaethau ni ein hunain"...yr e-fwletin chwemisol, cyfarfodydd staff a fforymau ymarferwyr; mae proses ranbarthol yn ymwneud â Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion wedi'i chyflwyno
Gwent	Mae wedi datblygu rhaglen hyfforddiant er mwyn rhoi i weithwyr proffesiynol y sgiliau priodol i gadw pobl ifanc yn ddiogel wrth ddefnyddio technoleg; mae wedi cydweithio'n agos â'r cynllun peilot rhanbarthol ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn gwella mynediad i hyfforddiant a chynghor; mae wedi cytuno ar nifer o grwpiau gorchwyl a gorffen er mwyn ystyried dulliau o sicrhau ansawdd y ddarpariaeth o ran hyfforddiant, gan sicrhau bod y ddarpariaeth o ran hyfforddiant ym maes oedolion yn gydradd â'r ddarpariaeth ym maes plant; mae wedi cefnu ar y model "hyfforddi'r hyfforddwr" ac wedi dechrau defnyddio'r model grwpiau cyflawni, sy'n fwy cefnogol a chynhwysol i weithwyr proffesiynol
Canolbarth a Gorllewin Cymru	Nodi'r canlyniadau dysgu sy'n deillio o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion; dadansoddi anghenion o ran hyfforddiant; nodi pecynnau e-ddysgu o safon; datblygu strategaeth hyfforddiant ranbarthol bum mlynedd; dylunio a datblygu adnodd ymholi ynghylch cofnodion ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, siart lif ynghylch Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, a thaflen i ategu hyfforddiant ynghylch diogelu ym maes oedolion; datblygu proses ar gyfer cynnal Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth; mae Hywel Dda...wedi datblygu llwybr iechyd a gofal deintyddol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal; mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid wedi cryfhau'r modd yr adroddir ynghylch digwyddiadau dysgu hanfodol er mwyn cofnodi unrhyw themâu dysgu, ac adrodd yn eu cylch; ystyried y ffordd orau o ddsbarthu'r negeseuon allweddol o hyfforddiant (a gomisiynwyd) ynghylch gweithio gyda theuluoedd anodd a pheryglus a theuluoedd sy'n ceisio osgoi ymgysylltu
Gogledd Cymru	Cafodd podlediadau ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant eu creu gan Heddlu Gogledd Cymru...ynghyd â dogfennau briffio penodol i rôl; mae polisiâu wedi'u hadolygu, mae bwletinau a chyflwyniadau wedi'u darparu, mae holiaduron wedi'u hanfon ac mae gwybodaeth wedi'i chasglu a fydd yn dangos beth yw'r anghenion o ran hyfforddiant/codi ymwybyddiaeth; mae'r cofnod dysgu'n cael ei ddiweddarau'n barhaus er mwyn adlewyrchu'r hyn a ddysgir o Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth ac adolygiadau eraill...mae'n eitem sefydlog ar y rhaglen waith
Bae'r Gorllewin	Cytunwyd ar ddadansoddiad rhanbarthol o anghenion o ran hyfforddiant ynghylch diogelu. Mae rhagair yr adroddiad blynyddol yn datgan na all y Bwrdd, ac na ddylai'r Bwrdd, 'ddarparu' hyfforddiant; ond mae'n sicrhau bod asiantaethau'n gwneud hynny lle bo angen

Felly, mae'r Byrddau Rhanbarthol yn darparu cynnyrch megis strategaethau a phrotocolau, a phrosesau megis adnabod themâu dysgu.

Mae Tabl (e) (Atodiad 3) yn dangos bod y pynciau yr aethpwyd i'r afael â nhw mewn hyfforddiant ynghylch diogelu'n amrywiol. Ni wyddys i ba raddau y mae'r rhain yn cysylltu â digwyddiadau diogelu o bwys yn eu hardal.

Ymatebodd dau o'r Byrddau Rhanbarthol i gais y Bwrdd Cenedlaethol am wybodaeth am hyfforddiant ynghylch diogelu (dan adran 139).

Dim ond Gogledd Cymru a Bae'r Gorllewin a ymatebodd i'r cais dan adran 139 ynglŷn â hyfforddiant ynghylch diogelu, a ddrafftwyd gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.²¹ Mae crynodeb o'u hymatebion i'w weld yn Atodiad 3.

Mae'r amrywiaeth o weithgarwch a hyfforddiant ynghylch diogelu a ddisgrifir yn adroddiadau blynyddol y Byrddau Rhanbarthol yn awgrymu bod y Byrddau:

- yn addasu i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- yn rhoi blaenoriaeth i'r hyn sy'n orfodol
- yn ymwneud â nodi cryfderau a gwendidau eu gweithlu
- yn awyddus i ymarferwyr diogelu wneud penderfyniadau rhesymegol mewn sefyllfaoedd anghyfarwydd
- yn awyddus i weithwyr proffesiynol generig fod yn effro i'r posibilrwydd y gallai camdriniaeth fod yn digwydd, ac atgyfeirio achosion
- yn awyddus i ddatblygu trefniadau cydweithredu cynhyrchiol er mwyn gwella ymarfer unigolion a thimau.

Ni cheir unrhyw adroddiad sy'n dangos yn glir bod rhaglenni addysg corfforaethol Byrddau Rhanbarthol wedi cyflawni canlyniadau penodol. Mae adborth cadarnhaol ynghylch cyrsiau yn braf ac yn ddefnyddiol o safbwynt adnabod hyfforddwyr diddorol, ond ychydig a wyddys am y sawl sy'n bresennol, eu hiaith gyntaf, eu profiad, yr hyn y maent wedi'i ddysgu yn barod, nifer yr oriau y maent yn eu gweithio bob wythnos, i ba raddau y maent yn gofyn cwestiynau, er enghraifft, a sut y bydd yr hyn y maent yn ei ddysgu'n cael ei gysylltu â chyfleoedd i roi'r wybodaeth a'r sgiliau a ddysgwyd ar waith. O ystyried ei bod yn bosibl na chaiff cyfleoedd o'r fath eu gwasgaru'n wastad ar draws y gweithlu, gall gweithwyr rhan-amser, gweithwyr sifftiau a gweithwyr dan gontract golli cyfleoedd i ddysgu yn y gweithle. Mae arferion yn y gweithle, megis gwaith mentora gan weithwyr profiadol a chyfleoedd i gysgodi cydweithwyr arbenigol mewn tasgau nad ydynt yn rhan o'r drefn arferol, yn dylanwadu ar effaith gwaith dysgu.

Dim ond Canolbarth a Gorllewin Cymru a nododd y cynlluniau gweithredu sy'n deillio o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion. O ystyried bod y rhain yn gallu bod yn helaeth, gall y broses o "gymeradwyo" camau gweithredu a gwblhawyd ymestyn ar draws sawl cyfarfod o'r Bwrdd Rhanbarthol. Eto i gyd, ymddengys mai cysylltiad gwan sydd rhwng y broses hon a'r hyn y mae ymarferwyr ac asiantaethau'n ei ddysgu.

21 Cynhaliodd Bwrdd Rhanbarthol arolwg "Survey Monkey." Nid oedd y cwestiynau a ofynnwyd yn cyfateb i gwestiynau'r Bwrdd Cenedlaethol a Gofal Cymdeithasol Cymru

Disgrifiodd dau o'r Byrddau Rhanbarthol sut yr oeddent wedi **gweithredu unrhyw gyfarwyddyd neu gyngor**.

Sut mae'r Byrddau Diogelu wedi gweithredu unrhyw gyfarwyddyd neu gyngor gan Weinidogion Cymru neu'r Bwrdd Cenedlaethol

Ardal Bwrdd Diogelu	Cyfarwyddyd a chyngor
Caerdydd a'r Fro	-
Cwm Taf	-
Gwent	-
Canolbarth a Gorllewin Cymru	Mae'r Byrddau wedi cyfrannu i ddigwyddiadau ymgynghori Llywodraeth Cymru ar ganllawiau anstatudol ynghylch plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref; a chanllawiau statudol
Gogledd Cymru	Cynllun Gweithredu Cymru Gyfan i Fynd i'r Afael â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant Hyfforddiant ynghylch y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Canllawiau ynghylch Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion Canllawiau ynghylch ymdrin ag achosion unigol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
Bae'r Gorllewin	-

Yn olaf, mae Atodiad 4 yn cynnwys "cymylau geiriau" sydd wedi'u creu²² o adroddiadau blynyddol y Byrddau Rhanbarthol. Mae pob cwmwl yn dangos y geiriau sy'n ymddangos amlaf yn yr adroddiadau blynyddol.

22 <http://www.wordle.net/> (cyrchwyd 13 Hydref 2017)

Gwnaeth y Bwrdd Cenedlaethol argymhellion i Weinidogion Cymru

Roedd yr argymhellion yn ymwneud â chyhoeddi canllawiau statudol ynghylch diogelu, perchnogaeth gwaith papur am Adolygiadau Ymarfer Plant/Oedolion, a'r diffyg yn y ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n hysbys i wasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau troseddau ieuenctid.

Nid yw'r adroddiadau blynyddol yn disgrifio **materion sy'n berthnasol i waith y Byrddau**. Er enghraifft, pynciau sydd wedi cael llawer o sylw yn y cyfryngau, megis yr adolygiadau allanol a gomisiynwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac achos yng Nghaerdydd a oedd yn ymwneud â "chaethwasiaeth fodern".

3. Mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella trefniadau diogelu

Pam? Mae'n un o ddyletswyddau'r Bwrdd Cenedlaethol.

Y canlyniad? Yn ystod **mis Chwefror 2017**, nododd y Bwrdd Cenedlaethol (i) bod angen cyhoeddi canllawiau statudol ynghylch diogelu ar frys oherwydd yr heriau cyfreithiol sy'n codi pan fydd gweithwyr proffesiynol yn defnyddio canllawiau nad ydynt yn gyfredol;²³ (ii) bod y rheoliadau ynghylch perchnogaeth unrhyw ddogfennau am adolygiadau diogelu'n ddiffygiol, oherwydd ceir dryswch ynghylch dulliau llywodraethu'r broses adolygu; a (iii) bod diffyg yn y ddarpariaeth ar gyfer plant sy'n hysbys i wasanaethau iechyd meddwl plant a gwasanaethau troseddau ieuenctid. Yn ystod **mis Awst 2017**, ailadroddodd y Bwrdd Cenedlaethol argymhellion (ii) a (iii).

Materion sy'n berthnasol i waith y Byrddau Diogelu

Nid yw adroddiadau blynyddol y Byrddau Rhanbarthol yn cyfeirio at faterion sydd wedi achosi pryder i rai ohonynt yn ystod eu cyfarfodydd ac sydd wedi cael llawer o sylw yn y cyfryngau. Wrth adrodd ynghylch y materion hynny, bydd y cyfryngau fel rheol yn cyflwyno adroddiadau unochrog am achosion o fethu â chadw pobl o bob oed yn ddiogel, er enghraifft:

- Yn ystod mis Hydref 2015, cafodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei osod dan "fesurau arbennig" am ddwy flynedd.²⁴ Roedd ward Tawel Fan yn destun dau adolygiad allanol a gomisiynwyd yn annibynnol ar drefniadau diogelu oedolion – gan Donna Ockenden Ltd (daeth yr adolygiad hwnnw i ben ym mis Medi 2014) a'r Gwasanaeth Cyngori ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HASCAS) (dechreuodd yr adolygiad penagored hwnnw yn ystod mis Gorffennaf 2015). Nid oes unrhyw atgyfeiriadau diogelu wedi codi o'r naill adolygiad na'r llall. Daeth ymchwiliad yr heddlu i'r casgliad na allai unrhyw unigolyn gael ei erlyn, ac nid yw "adolygiad" HASCAS wedi adrodd o hyd ynghylch ei ganfyddiadau. Cafodd Donna Ockenden Ltd gomisiwn ar wahân i adolygu dulliau llywodraethu, systemau a phrosesau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ystod 2017.
- Mae'r rhyngwyneb rhwng adolygiadau a gomisiynir yn annibynnol ac yn fewnol gan Fyrddau Iechyd ac Adolygiadau Ymarfer Plant/Oedolion yn aneglur. Mae angen eglurder o hyd ynghylch y rhesymeg dros gael Byrddau Iechyd yn comisiynu adolygiadau sy'n berthnasol i waith diogelu pobl o bob oed, ond na chânt eu datgelu i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol.
- Yn ystod mis Mai 2016, daeth realiti caethwasiaeth fodern yn y DU yn amlwg yn Llys y Goron Caerdydd pan gafodd amgylchiadau dioddefwyr agored i niwed eu disgrifio.²⁵ Roedd aelodau o deulu'r Connors, sef tad, mab, nai a mab yng nghyfraith, yn rhedeg busnes adeiladu. Roedd eu gweithwyr, y camfanteisid arnynt, yn dioddef ymosodiadau corfforol ac yn gorfod gweithio oriau hir a oedd yn galluogi eu cyflogwyr i fwynhau bywyd bras. Ar y llaw arall, roedd y gweithwyr eu hunain yn byw mewn ofn ac mewn amodau brwnt a gwael.²⁶

23 Cafodd Bwrdd Rhanbarthol ei gynghori gan y Bwrdd Cenedlaethol i ddileu datganiad a oedd yn ymwneud â'i ddefnydd parhaus o'r term "canllawiau interim", sy'n dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

24 <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-34602975> (cyrchwyd 2 Hydref 2017)

25 <https://www.theguardian.com/uk-news/2016/may/24/four-relatives-jailed-for-making-vulnerable-men-work-like-slaves-in-wales> (cyrchwyd 18 Hydref 2017)

26 <https://www.theguardian.com/society/2017/oct/18/slavery-alive-wales-exploitation-supply-chain> (cyrchwyd 18 Hydref 2017)

Mae pynciau perthnasol eraill yn cynnwys y defnydd sy'n cael ei wneud o neilltuaeth mewn rhai ysgolion ar gyfer plant ag anableddau dysgu; canfyddiadau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru am Wasanaethau Plant Cyngor Sir Ynys Môn a Gwasanaethau Plant Powys; ac erlyniadau proffil uchel.

- Gofynnodd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol am gyngor gan y Bwrdd Cenedlaethol ynghylch perchnogaeth a rheolaeth ar ddogfennau Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion yng ngoleuni ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth.
- Cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru adroddiad a oedd yn dwyn y teitl *Gwasanaethau Anabledd Dysgu: Adroddiad Thematig 2015-2016* yn ystod mis Rhagfyr 2016. Roedd yr adroddiad yn nodi'r defnydd heb ei fonitro a wneir o neilltuaeth mewn rhai gwasanaethau, yn niffyg trefniadau diogelu. Mae'n cyd-fynd â sylwadau ymarferwyr ynghylch y defnydd heb ei fonitro a wneir o neilltuaeth mewn rhai ysgolion sy'n gyfrifol am addysgu plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu.
- Cafodd Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Ynys Môn eu harolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn ystod mis Tachwedd 2016, a chafodd adroddiad yr Arolygiaeth ei gyhoeddi yn ystod mis Mawrth 2017.²⁷ Roedd yr adroddiad yn nodi *na roddwyd sylw digonol i wella arfer yn y gwasanaethau plant yn y blynyddoedd diwethaf... Gwelsom fod arolygiaeth y rheolwyr o'r trefniadau diogelu, mynediad ac asesu yn annigonol a bod rhaid cyflymu'r newid wrth wella'r ddarpariaeth cymorth, gofal a chefnogaeth a/neu ddiogelu i blant a theuluoedd ar Ynys Môn.*
- Yn ystod mis Awst 2017, dechreuodd Kris Wade ar ddedfryd o 21 mlynedd yn y carchar am ladd ei gymydog.²⁸ Roedd wedi bod yn un o weithwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.²⁹ Roedd yn gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu, a'i dad oedd Cyfarwyddwr Clinigol Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu y Bwrdd Iechyd. Roedd honiadau o ymosodiadau rhywiol wedi'u gwneud gan bobl ag anableddau dysgu yn ystod 2012 a 2013.
- Roedd penderfyniadau ynghylch dyn a oedd yn credu bod ei "hypersensitifrwydd electromagnetig" yn golygu ei fod yn gymwys i gael Taliadau Uniongyrchol yn destun yr her gyntaf yn y Llys Gweinyddol dan Ddeddf 2014.³⁰
- Yn ystod mis Medi 2017, cafodd meddyg iau o'r enw Thomas Jenkins ei dynnu oddi ar y rhestr o ymarferwyr sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol, oherwydd ei fod wedi ceisio meithrin perthynas amhriodol ar-lein â bachgen dan oed. Roedd wedi bod yn gweithio yn Ysbyty Maelor Wrecsam.³¹ Roedd wedi cael dedfryd o Orchymyn Cymunedol yn ystod mis Ebrill 2016, a chafodd orchymyn i lofnodi'r gofrestr troseddwyr rhyw ar ôl cyfaddef iddo annog plentyn i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol.
- Yn ystod mis Hydref 2017, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru adroddiad ynghylch gwasanaethau plant Powys.³² Mae'r adroddiad yn datgan bod rheolaeth wael ac arweinyddiaeth wan yn golygu bod plant yn wynebu risg o ddiodef niwed.

27 <http://aggcc.org.uk/docs/cssiw/report/170307anglesey.pdf> (cyrchwyd 31 Mawrth 2017)
<http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-north-west-wales-39182630>
<http://www.dailypost.co.uk/news/anglesey-councils-childrens-services-slammed-12701175> (cyrchwyd 2 Hydref 2017)

28 <http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/health-board-failings-revealed-over-13504551>
a <http://www.express.co.uk/news/uk/843892/Health-board-sex-assault-claims-hospital-worker-killer-Kris-Wade> (cyrchwyd 2 Hydref 2017)

29 <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/863/news/45953>

30 <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-south-east-wales-40497411> (cyrchwyd 2 Hydref 2017)

31 <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-north-east-wales-41516913> (cyrchwyd 5 Hydref 2017)

32 <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-41651441> (cyrchwyd 17 Hydref 2017)

Mae yna senarios hefyd sy'n gyfarwydd i Fyrddau Rhanbarthol ond nad ydynt wedi cael eu cynnwys yn eu hadroddiadau blynyddol. Er enghraifft, y rhyngwyneb rhwng achosion troseddol ac achosion amddiffyn plant, y ffaith nad yw'r amserlenni perthnasol yn cael eu parchu wrth gynnal adolygiadau a defnyddio gwasanaethau eiriolaeth.

Agwedd lai amlwg – sydd yr un mor dorcalonnus i'r unigolion a'r teuluoedd dan sylw – yw achosion o gau cartrefi gofal, a phwysigrwydd cartrefi o'r fath i deuluoedd a gweithwyr lleol.³³ Yn ogystal, mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn ymwybodol o hanesion, gweithgareddau a phrosesau unigol sy'n troi'n broblemau cynyddol gymhleth:

- Anniddigrwydd (i) bod Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn fater troseddol yn bennaf a (ii) nad yw amryw brosesau sy'n dod i'r amlwg ym maes Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn dilyn gweithdrefnau amddiffyn plant.
- "Yr unig beth y mae rhai partneriaid yn ei wneud yw tynnu sylw at enw eu hasiantaeth yng nghofnodion y Bwrdd Rhanbarthol. Maent yn sôn am y pryder ar y pryd ac nid oes ganddynt ddiddordeb mewn gwybod beth y mae gwaith amlasiantaeth yn ei olygu nac yn ei fynnu." Gellid dadlau bod ffyrdd o archwilio gwaith amlasiantaeth, nad ydynt yn dibynnu ar asiantaethau unigol yn honni eu bod yn gwneud cyfraniadau effeithiol.
- Cwynion ynghylch penderfyniadau a chymau gweithredu ymarferwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol, y mae iddynt oblygiadau o ran diogelu.³⁴
- Ymarfer sy'n sicrhau bod pobl ifanc, oedolion a theuluoedd yn cael eu hysbysu'n gyson o'r ffaith bod gweithdrefnau diogelu'n cael eu rhoi ar waith, a beth y mae hynny'n ei olygu iddyn nhw.
- Ymarfer sy'n ymwneud â chyfranogiad teuluoedd mewn Adolygiadau Ymarfer Plant, Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth.
- Y ffaith na lynir wrth yr amserlenni perthnasol wrth gynnal Adolygiadau Ymarfer Plant/Oedolion ac wrth adrodd yn eu cylch.
- Y canfyddiad bod cydgynllwynio'n digwydd rhwng ymarferwyr diogelu a pherchnogion/rheolwyr cartrefi mewn cyfarfodydd lle caiff cartrefi gofal eu gwahodd i ymchwilio i honiadau ynghylch arferion niweidiol.
- Yn dilyn yr adolygiad o esgeulustod mewn cartrefi gofal yn ne-ddwyrain Cymru (Operation Jasmine), tystiolaeth bod uwch-glinigwyr, cofrestryddion, meddygon teulu a nyrsys hyfywedd meinwe'n ymgymryd â rolau arweiniol o safbwynt atal wlsrau pwysedd y gellir eu hosgoi, a thystiolaeth gysylltiedig o ofal gwael gyda gwasanaethau penodol.
- Gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu defnyddio at ddibenion cefnogi plant/oedolion sy'n wynebu risg o ddioddef niwed ac sy'n hysbys i ymarferwyr diogelu.
- Mae rhai gweithwyr cymdeithasol sy'n gyfrifol am gymryd plant i mewn i'r system ofal yng Nghymru yn cael eu demoneiddio ar gyfryngau cymdeithasol gan berthnasau dig.
- Mae Unedau Busnes y Byrddau Rhanbarthol yn ysgwyddo llawer o gyfrifoldeb, ac eto i gyd nid yw cefndir proffesiynol pob un o'r gweithwyr ym maes gofal cymdeithasol neu ofal iechyd.

33 <http://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/flintshire-care-home-closes-following-12886140> (cyrchwyd 2 Hydref 2017)

34 Gweler, er enghraifft, <http://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/number-health-complaints-doubles-decade-13710979> (cyrchwyd 11 Hydref 2017)

Yn ogystal, mae prosesau aneffeithlon a biwrocraidd Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn effeithio ar arferion diogelu.

Mae materion eraill nad oes gan y Byrddau Rhanbarthol reolaeth arnynt yn cynnwys yr effaith ar adnoddau lleol pan fydd awdurdodau cyhoeddus yn Lloegr yn lleoli pobl mewn gwasanaethau yng Nghymru; goblygiadau cyni parhaus a threfniadau mudo yn y dyfodol ar gyfer y sector gofal; a gwasanaethau cynllunio nad yw teuluoedd pobl ag anableddau dysgu yn chwilio amdanynt nac yn eu gwerthfawrogi, er enghraifft.

Ceir materion hefyd nad oes gan y Byrddau Rhanbarthol unrhyw reolaeth arnynt, ac eto i gyd mae'r posibilrwydd y gallai'r materion hynny ddylanwadu ar ymarfer diogelu yn fawr. Gallent fod yn berthnasol i wahanol raddau i rai Byrddau Rhanbarthol, er enghraifft:

- Cydnabyddir bod y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn aneffeithlon ac yn anghydnaws ag athroniaeth rymuso Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Maent yn fiwrocraidd ac yn rhy dechnegol, ac nid ydynt yn gallu ymdrin â'r nifer gynyddol o bobl y bernir eu bod yn colli eu rhyddid.³⁵ Yn ôl un Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, "Maent yn defnyddio llawer o adnoddau a allai gael eu cyfeirio at bethau eraill."
- Mae'r modd y mae awdurdodau cyhoeddus yn Lloegr yn lleoli pobl o bob oed yn effeithio ar y modd y caiff adnoddau lleol eu darparu, gan gynnwys yng nghyswllt yr heddlu. Fel rheol, ni chaiff anghenion dwys y bobl dan sylw o ran cymorth eu diwallu gan y gwasanaethau y caiff y bobl eu lleoli ynddynt.
- Mewn ardaloedd lle mae Credyd Cynhwysol wedi'i dreialu, mae teuluoedd wedi cael eu gorfodi i aros am chwe wythnos cyn eu bod yn cael unrhyw arian. Er bod hynny'n achosi caledi, tloedi bwyd a dyled, bwriedir parhau i'w gyflwyno yng Nghymru a Lloegr mewn cyd-destun o gyni parhaus.³⁶
- Ymatebolrwydd gwasanaethau iechyd meddwl i blant, pobl ifanc³⁷ ac oedolion o bob oed.³⁸
- Mae'r wasgfa ar gyllid awdurdodau lleol ar gyfer gofal preswyl ynghyd â chostau cynyddol gweithlu'r sector³⁹ yn golygu bod cartrefi'n cau.
- Gallai dibyniaeth y sector gofal ar weithwyr o'r Undeb Ewropeaidd arwain at argyfwng gan na wyddys beth fydd y trefniadau ar gyfer mudo yn y dyfodol.
- Gall terfynau digidol ar draws gwasanaethau atal prosesau rhannu gwybodaeth.
- Bwriedir adeiladu ysbyty diogelwch isel ar gyfer 40 o bobl yn Wrecsam. Bydd yr ysbyty'n cynnwys uned asesu "er mwyn darparu ar gyfer y sawl sy'n profi argyfwng, y gellir dod â nhw i'r uned er mwyn eu hasesu a'u galluogi i wella". Nid yw teuluoedd pobl ag anableddau dysgu yn ceisio nac yn gwerthfawrogi unedau o'r fath. Ers iddi ddod i'r amlwg bod camdriniaeth yn digwydd yn Ysbyty Winterbourne View, caiff unedau o'r fath eu cysylltu â'r bwriad i symud pobl oddi wrth eu teuluoedd am gyfnod hir.⁴⁰

35 Spencer-Lane, T. (2017) Mental capacity and deprivation of liberty: the Law Commission's review of the deprivation of liberty safeguards, *The Journal of Adult Protection*, 19 (4) 220-227

36 <https://www.theguardian.com/society/2017/oct/17/we-went-days-without-eating-properly-universal-credit-misery-inverness> (cyrchwyd 18 Hydref 2017)

37 <https://www.theguardian.com/society/2015/may/02/crisis-in-childrens-mental-health-nhs-insider-speaks> (cyrchwyd 18 Hydref 2017)

38 <https://www.mentalhealth.org.uk/sites/default/files/FF16%20Wales.pdf> (cyrchwyd 18 Hydref 2017)

39 <http://www.walespublicservices2025.org.uk/2017/03/23/can-wales-fill-the-social-care-funding-gap/> (cyrchwyd 18 Hydref 2017)

40 <http://www.aschealthcare.co.uk/news-story/wrexham-low-secure-hospital/> (cyrchwyd 1 Hydref 2017)

Mae rhai o ddatblygiadau cadarnhaol iawn y Byrddau Rhanbarthol yn cynnwys Byrddau Diogelu Iau y Canolbarth a'r Gorllewin, a'i Ddiogelwyr Iau, a'r cydweithredu a arweiniodd at y Prosiect Cyfathrebu i Feithrin Perthnasoedd Amhriodol Ar-lein.

Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys gwaith **gweithiwr cymdeithasol yng ngogledd Cymru**; adnodd a gafodd ei lunio ar y cyd â phobl ifanc ynghylch trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol; a gwaith y Gymdeithas Rhywedd ac Addysg.

Ar nodyn gwahanol, ceir arferion a datblygiadau sydd wedi cael ychydig o sylw neu ddim sylw o gwbl yn adroddiadau blynyddol y Byrddau Rhanbarthol. Maent yn rhy dda i beidio â sôn amdanynt:

I ddechrau mae **Byrddau Diogelu Iau y Canolbarth a'r Gorllewin, a'i Ddiogelwyr Iau**, yn dulliau pendant o ddangos i blant a phobl ifanc bod eu syniadau a'u profiadau'n bwysig ac y gallant ddylanwadu ar feddylfryd Bwrdd Rhanbarthol. Yn ogystal, maent yn gyfryngau i bobl ifanc (i) datblygu eu dyheadau ynghylch diogelu ar gyflymder sy'n addas iddyn nhw; (ii) dysgu am ffyrdd o gasglu syniadau, ceisio cytundeb ac ymdrin ag anghytundeb mewn cyfarfodydd; (iii) profi pwysigrwydd cynnal amgylchedd cefnogol; (iv) deall y cyd-destunau niferus, ac amwys yn achos rhai, y mae pobl ifanc yn cael eu brifo a'u niweidio ynddynt; a (v) bod yn barod i sylwi pan fydd rhywbeth o'i le a bod yn barod i gymryd cyfrifoldeb am sôn wrth rywun am hynny.

Mae Nuria Lorenzo-Dus, sy'n Athro Ieithyddiaeth Gymhwysol ym Mhrifysgol Abertawe, wedi bod yn arwain **Y Prosiect Cyfathrebu i Feithrin Perthnasoedd Amhriodol Ar-lein** ers 2012. Trwy edrych yn fanwl ar yr iaith a ddefnyddir gan y sawl sydd am feithrin perthnasoedd amhriodol ar-lein, mae'r prosiect wedi adnabod "sylwadau arweiniol" sy'n esgor ar geisiadau am gyfarfodydd wyneb yn wyneb at ddibenion rhywiol. Mae'r broses allweddol o "feithrin ymddiriedaeth yn dwyllodrus" yn dibynnu'n drwm ar rym perswâd. Gyda chyllid gan Cherish-DE, un o gronfeydd IMPACT Prifysgol Abertawe, yr NSPCC a Phrifysgol Abertawe, bu'r prosiect cydweithredol hwn yn ymgysylltu â phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ledled Cymru. Mae wedi arwain at greu Pecyn Gweithgareddau i Atal Dulliau o Feithrin Perthnasoedd Amhriodol Ar-lein, sy'n cael ei dreialu yng Nghanolffannau Gwasanaethau'r NSPCC yng Nghymru ac mewn mannau eraill.

Arweiniodd gwaith agos y bu **gweithiwr cymdeithasol yng ngogledd Cymru** yn ei wneud gyda brodyr a chwiorydd ifanc iawn at dystiolaeth bendant eu bod yn ffynnu. Ar ôl profi esgeulustod difrifol yng nghartref eu teulu, na lwyddodd ymweliadau dyddiol gan eu gweithiwr cymdeithasol i'w atal, cafodd y plant eu symud i gartref maeth. Bu iddynt barhau mewn cysylltiad rheolaidd â'u gweithiwr cymdeithasol a aeth i ymweld â'r plant chwe mis ar ôl iddynt gael eu symud, adeg parti pen-blwydd a drefnwyd gan eu rhieni maeth. Roedd y parti'n cynnwys ffrindiau ysgol newydd. Bu un o'r plant yn crïo gan esbonio wrth y gweithiwr cymdeithasol ei bod "mor hapus". Dywedodd plentyn arall nad oeddent wedi cael partïon erioed o'r blaen, a'i fod am gael sicrwydd na fyddai'n rhaid iddynt ddychwelyd i'w cartref blaenorol. Roedd y plant yn elwa o'r profiad newydd o gael rhieni gofalus a deiet cyson ac o gael mynychu'r ysgol a chwarae gyda ffrindiau.

Agenda: Canllaw i bobl ifanc ar wneud i berthnasoedd cadarnhaol gyfri⁴¹ – dyma becyn cymorth dwyieithog, rhad ac am ddim sy'n cynnig syniadau ac adnoddau i bobl ifanc ynghylch sut y gallant sôn yn ddiogel ac yn greadigol am drais ar sail rhywedd a thrais rhywiol. Drwy ganolbwyntio ar gydraddoldeb, amrywiaeth, hawliau plant a chyfiawnder cymdeithasol, mae'r canllaw yn hybu hawliau pobl ifanc i siarad ac ymgysylltu fel dinasyddion gweithgar ynghylch materion sy'n bwysig iddynt. Cafodd yr adnodd ei gynhyrchu ar y cyd â phobl ifanc, ac mae'n cynnwys astudiaethau achos esboniadol ynghylch pynciau sy'n mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail rhywedd, amrywiaeth o ran rhywedd, cydsyniad, hawliau pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol, bwlio, aflonyddu ar y stryd, anffurfio organau cenhedlu benywod, camfanteisio'n rhywiol, a thrais mewn perthnasoedd. Mae'n darparu ystod o weithgareddau cychwynol blaengar a chreadigol i gynorthwyo pobl ifanc i fynegi beth sy'n bwysig iddynt a beth yr hoffent ei newid fel unigolion ac ar y cyd ag eraill. Mae'n cynnwys dros 100 o ddolenni cyswllt â sefydliadau/mudiadau ac adnoddau lle gellir cael rhagor o wybodaeth am faterion allweddol.

41 Renold, E. (2106) *Agenda: Canllaw i bobl ifanc ar wneud i berthnasoedd cadarnhaol gyfri*, Prifysgol Caerdydd, Comisiynydd Plant Cymru, NSPCC Cymru, Cymorth i Ferched Cymru a Llywodraeth Cymru, www.agenda.cymru (cyrchwyd 1 Hydref 2017)

Yn ogystal, menter athro meithrin yn ne Cymru; adnodd sy'n helpu gweithwyr proffesiynol i fesur ansawdd y gofal a gaiff plentyn; canolfan iechyd meddwl a grëwyd ar y cyd â phobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, ar gyfer cleifion mewnol.

Daeth y Gymdeithas Rhywedd ac Addysg⁴² â merched o Ysgol Gyfun Aberpennar ynghyd, a fu'n herio'r modd y caiff menywod eu cambortreadu drwy ddangos wyneb sydd wedi'u coluro'n berffaith, oherwydd nad yw hynny'n adlewyrchu realiti. Penderfynodd rhai o'r disgyblion greu "banc delweddau" amgen ac aethant i'r ysgol â cholur ar hanner eu hwyneb. Erbyn diwedd y dydd, roedd mwy o ferched wedi cymryd rhan yn y fenter drwy dynnu hanner eu colur i ffwrdd. Yn yr un modd, aeth disgyblion o Ysgol Gyfun Plasmawr ati i gynhyrchu drama o'r enw *Hidden*, sy'n datgelu'r niwed anweledig y mae bwlio homoffobig yn ei achosi ac sy'n tynnu sylw at yr ansefydlogrwydd sy'n gysylltiedig â hunaniaeth rywiol gudd. Mae grŵp *Outlook* o Goleg Cymunedol Tonypanyd wedi dangos y peryglon sy'n gysylltiedig â "secstio", a thrwy gerddoriaeth a phaentio mae myfyrwyr o Ysgol Gyfun Tonyrefail wedi cyfleu sgiliau parch sy'n sgiliau goroesi ac mae Ysgol Gyfun Plasmawr wedi datblygu addewidion i ysgolion. Nid yw Byrddau Rhanbarthol eto'n cydnabod natur amhrisiadwy arweinyddiaeth a mentrau gwych o'r fath.

Mae'r cwricwlwm newydd sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer lleoliadau ac ysgolion yng Nghymru⁴³ yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu perthnasoedd iach a'u bod yn deall pŵer rhyngbersonol a'r gwahaniaeth rhwng pendantrwydd ac ymddygiad ymosodol, er enghraifft. Mae lle i rai o ddeunyddiau ardderchog Agenda gael eu dosbarthu'n eang.

Mae athro meithrin yn **ne Cymru** wedi cychwyn ar y dasg o "ddechrau'n gynnar" drwy gyflwyno'r cysyniad o gydsyniad i blant ifanc iawn. Caiff y plant eu hannog i ofyn a gânt ddal neu gyffwrdd eu cyfoedion yn ystod gemau. Mae'r plant yn dysgu am bwysigrwydd dweud "Cei" neu "Na chei" a gweithredu'n unol â hynny.

Mae modd i natur gyffredin esgeulustod a'i effeithiau dinistriol gael eu mesur mewn termau dynol ac ariannol yn ystod oes rhywun. Er mwyn sylwi ar amgylchedd gelyniaethus rhai teuluoedd ac ymyrryd ynddo, mae angen rhoi sylw i'r holl wahanol fathau o drallod sy'n deillio o esgeuluso plant. Mae'r NSPCC wedi datblygu adnodd asesu ar sail tystiolaeth, sy'n helpu gweithwyr proffesiynol i fesur ansawdd y gofal a gaiff plentyn. Mae Proffil Gofal wedi'i Raddio 2⁴⁴ yn canolbwyntio ar brofiad plentyn ac yn galluogi rhieni i ddeall cefndir diddordeb gweithwyr proffesiynol a'r gwaith craffu a wnânt.

Ym mis Ebrill 2017 agorwyd canolfan iechyd meddwl gyntaf y DU a grëwyd ar y cyd ar gyfer cleifion mewnol, sef **Canolfan Adferiad Gellinudd**. Cafodd y ganolfan ei dylunio gan bobl sydd â phrofiad uniongyrchol o salwch meddwl, a'u teuluoedd. Mae'n wasanaeth dielw a gaiff ei arwain gan y defnyddwyr a'i redeg gan yr elusen Hafal, ac mae ganddo ddiben ac ethos trosfwaol o ran adferiad. Dyma'r tro gyntaf i gyllid *Buddsoddi i Arbed* Llywodraeth Cymru gael ei ddyfarnu i elusen.⁴⁵

42 http://www.genderandeducation.com/conferences-and-events/past_events/young-people-light-up-the-agenda-for-a-better-sex-and-relationships-education/ (cyrchwyd 1 Hydref 2017)

43 <http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/?lang=cy> (cyrchwyd 20 Hydref 2017)

44 <https://www.nspcc.org.uk/services-and-resources/services-for-children-and-families/graded-care-profile/> (cyrchwyd 22 Hydref 2017)

45 <https://www.theguardian.com/healthcare-network/2017/may/10/nhs-mental-health-gellinudd-recovery-centre> (cyrchwyd 1 Awst 2017)

Gwahoddodd y Bwrdd Cenedlaethol Gadeiryddion y Byrddau Rhanbarthol i'w helpu i ysgrifennu'r **casgliadau**.

Nid yw adroddiadau blynyddol y Byrddau Rhanbarthol yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Cafodd y dasg o ysgrifennu'r adroddiadau eu dirprwyo i staff busnes a staff gweinyddol y Byrddau Rhanbarthol.

Er bod tasgau'r Byrddau Rhanbarthol yn rhai pellgyrhaeddol, mae'n ymddangos nad yw rhai partneriaid yn gwneud cymaint ag eraill.

Ar 23 Hydref 2017 cyflwynodd y Bwrdd Cenedlaethol drosolwg o'r Adroddiad Blynyddol ynghylch "digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru" i Gadeiryddion y Byrddau Rhanbarthol. Ceisiodd y Bwrdd Cenedlaethol fanteisio ar ddealltwriaeth a phrofiad y Cadeiryddion ac adlewyrchu'r egwyddor o gydweithredu, sydd yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Mae adroddiadau blynyddol y Byrddau Rhanbarthol yn gwneud cam â'r chwe ardal bwrdd diogelu gan nad ydynt yn cydymffurfio â'r Ddeddf o safbwynt (i) y cylch cynllunio ac adrodd a (ii) y cynnwys. Mae eu defnydd o acronymau, na chaiff pob un ohonynt eu hesbonio, a'u defnydd o iaith gwasanaethau'n golygu y gellid barnu bod yr adroddiadau'n anhygyrch i berson cyffredin.

Gan mai un elfen yn unig o agendâu prysur Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r adroddiadau blynyddol, roedd y Cadeiryddion yn cydnabod bod y dasg o'u hysgrifennu wedi cael ei dirprwyo i staff busnes a staff gweinyddol y Byrddau Rhanbarthol. Cynigiwyd yn y cyfarfod â Chadeiryddion y gellid dadlau mewn rhai ardaloedd bod Fframwaith Adroddiadau Blynyddol y Cynghorau, y mae gofyn i bob awdurdod lleol ei gyhoeddi, yn cynnwys mwy o wybodaeth am ddiogelu na'r adroddiadau blynyddol dan sylw. Cydnabu un Cadeirydd nad oedd adroddiad blynyddol ei Fwrdd ef wedi cael ei drafod gan y Bwrdd Rhanbarthol.

Cafodd y trefniadau llywodraethu eu disgrifio fel rhai "cymhleth" oherwydd bod amryw ddiwylliannau, etholaethau a buddiannau aelodau Byrddau Rhanbarthol yn tresmasu ar y maes sy'n gyffredin i bawb, sef diogelu. O safbwynt aelod o Fwrdd Rhanbarthol, gall y Bwrdd wanhau cenhadaeth asiantaeth a'i hatebolrwydd am geisio gwireddu'r genhadaeth honno. Mae'r sylwadau canlynol yn cynnig cipolwg ar brofiad Byrddau Rhanbarthol arweiniol: "Mae'r disgwyliadau ynghylch beth y gallant ei wneud yn rhy uchel...nid oes terfynau cyffredin...maent yn bethau anodd i'w dwyn ynghyd...mae rhai partneriaid yn oddefol...ceir lefelau amrywiol o ymrwymiad...mae arian – a diffyg arian – yn fwy o sbardun i newid na'r disgwyliad i gydweithredu...allwch chi ddim ceryddu pobl... mae'n anodd sicrhau ansawdd diogelu ar draws ardal mor eang."

Penderfynodd y Bwrdd Cenedlaethol grwpio'r wybodaeth a oedd mewn adroddiadau blynyddol unigol a'i rhoi dan y penawdau cynnwys sydd yn y canllawiau statudol. Fodd bynnag, gwelir bylchau yn y wybodaeth oherwydd bod y graddau y mae'r Byrddau Rhanbarthol wedi glynu wrth y penawdau hynny'n anghyson ar draws y cynlluniau a'r adroddiadau blynyddol. Yn y sefyllfa hon, nad yw'n ddelfrydol, mae'n bosibl nad yw ymdrechion y Bwrdd Cenedlaethol i dynnu gwybodaeth ddefnyddiol allan, a'i chategoreiddio, yn berffaith.

Roedd y Cadeiryddion o'r farn bod "yr agenda ranbarthol yn enfawr ond mai'r un criw creiddiol bach sy'n symud yr agenda yn ei blaen...yr un neu ddau sy'n barod i dorchi llewys...rydym yn sôn am ad-drefnu ar raddfa fawr...mae rhai partneriaid yn mynnu na allant gadeirio is-grŵp". Gellid dadlau bod amrywiaeth strwythurol Byrddau Rhanbarthol ledled Cymru, a'r amrywiaeth o wahanol fathau o is-grwpiau sy'n bodoli, yn deillio o "wendid strwythurol...maent y tu allan i drefniadau rhanbarthol eraill...ceir ffocws annigonol – rydym yn ceisio gwneud popeth".

Roedd y Cadeiryddion yn cydnabod y dylai canlyniadau diogelu fod yn gysylltiedig â bwriadau a chynlluniau ac y byddai "set graidd o ddata" yn ddefnyddiol. Roeddent yn derbyn bod angen rhoi sylw i'r arfer o ddrafftio protocolau a gweithdrefnau'n ddiddiwedd.

Mae asesu cyfraniad partneriaid yn anodd.

Mae'r heriau yn cynnwys cynnal perthynas waith â phartneriaid y tu allan i'r Bwrdd Rhanbarthol.

Mae achos dros wahodd ymarferwyr diogelu a chyfreithwyr sy'n eu cynghori i roi sylwadau ar yr adroddiadau blynyddol.

Mae angen nodi un gwahaniaeth pwysig, sef y gwahaniaeth rhwng "Beth oedd yn gyfrifol am y canlyniad?" a "Phwy oedd yn gyfrifol am y canlyniad?". Dylai hynny fod yn hysbys i bawb sy'n cyfrannu i Adolygiadau Ymarfer Plant/Oedolion.

Weithiau mae dull y Ddeddf o weithredu'n "canolbwyntio ar ganlyniadau", hynny yw disgwylir i'r Bwrdd Cenedlaethol fyfyrion ynghylch y cysylltiad rhwng y cynlluniau a'r canlyniadau a gyflawnwyd gan y Byrddau Rhanbarthol. Nid yw rhestru camau gweithredu nad ydynt â'u gwreiddiau mewn cynlluniau, heb wahaniaethu rhwng y dulliau a'r dibenion diogelu, yn datgelu fawr ddim am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau diogelu. Nododd y Cadeiryddion fod "camau gweithredu wedi mynd ar goll ynghanol y manylion...nad oes cydlyniaeth eto...bod cael ffocws yn bwysig...mae'n rhaid i ni gytuno ar set graidd o ddata...[a thrafod] ymarferoldeb rhannu data mewn modd ystyrlon".

Mae'r ddibyniaeth ar ysgrifennu protocolau, strategaethau, adnoddau a gweithdrefnau'n rhyfeddol. Gellir taflu goleuni ar y mater drwy ystyried technoleg. Mae technoleg yn gyfarwydd â'r ffenomenon o "ddiogelwch gormodol" – y perygl bod systemau'n cynnwys cynifer o weithdrefnau diogelwch nes eu bod yn creu ymdeimlad o ddiffyg diogelwch. Er bod diogelu yn faes cymhleth, nid yw'n gofyn am ddibyniaeth ar gynhyrchu amryw ddogfennau'n ddiddiwedd sydd â sylfaen dystiolaeth gyfyngedig. Mae'r sylw "Mae'n bosibl eu bod yn deillio o argymhellion adolygiadau ymarfer" yn cyfeirio at un ffordd o roi terfyn ar y gwaith o gynhyrchu dogfennau'n ddiddiwedd. Gallai "rhoi prawf" ar hygredd adroddiadau blynyddol gydag ymarferwyr diogelu ym mhob sector fod yn ddull unioni defnyddiol arall.

Fel rheol, mae'r ffyrdd y mae adroddiadau blynyddol y Byrddau Rhanbarthol yn dangos "cyfraniad" aelodau unigol yn ymwneud ag aelodaeth o grwpiau penodol. Nid yw hunanasesiadau aelodau unigol yn datgelu'r heriau sy'n gysylltiedig â diystyru awydd sefydliadau i amddiffyn eu tiriogaeth, y ffaith bod arweinwyr sectorau'n methu â chynnig help, trosiant y staff dan sylw a'r camgymeriadau sy'n deillio o geisio darparu dull gweithredu integredig, er enghraifft. "Rhaid i ni gynnal perthnasoedd...mae'n ymwneud eto â'r hyn y mae bod yn atebol yn ei olygu...mae un partner yn mynnu na fydd yn cadeirio is-grŵp...a yw pobl ar y lefel gywir yn mynychu?"

Nid yw safbwyntiau ymarferwyr diogelu a chyfreithwyr sy'n cynghori ymarferwyr yn amlwg mewn adroddiadau ynghylch "themâu sylfaenol a newidiadau i ddulliau ymarfer." Ac nid yw'r gwahaniaeth hollbwysig rhwng *beth oedd yn gyfrifol* am y canlyniad a *phwy oedd yn gyfrifol* am y canlyniad yn amlwg chwaith. Rhaid bod hynny'n elfen ganolog ac amlwg os bwriedir i bobl y gwyddys iddynt fod yn wynebu risg, a'u teuluoedd, gymryd rhan mewn adolygiadau ymarfer.

Mae sut y cymerodd pobl o bob oed ran yng ngwaith y Byrddau Rhanbarthol yn parhau'n "waith sydd ar y gweill". Mae'r enghreifftiau neilltuol a nodir yn yr adroddiadau blynyddol yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yn unig.

Er bod gan bob un o'r Byrddau Rhanbarthol is-grwpiau ar gyfer hyfforddiant, ni all y Bwrdd Cenedlaethol gyflwyno trosolwg rhagarweiniol o hyfforddiant ynghylch diogelu.

Roedd rhywfaint o bryder ynghylch cynnwys digwyddiadau lleol arwyddocaol yn adroddiadau blynyddol y Byrddau Rhanbarthol.

Mae'n hanfodol nodi beth y mae arweinwyr ar draws sectorau'n ei wneud i leddfu niwed a risg sy'n cael sylw yn y cyfryngau.

Yn olaf roedd y Cadeiryddion yn cydnabod, wrth ystyried yr ymarfer sy'n gysylltiedig â'r adroddiadau blynyddol, y "Gallem wneud yn well!".

Gwnaeth y Bwrdd Cenedlaethol un cais dan adran 139 (gyda Gofal Cymdeithasol Cymru). Mae adran 139 y Ddeddf yn datgan fel a ganlyn: *Rhaid i Fwrdd Diogelu gydweithredu â'r Bwrdd Cenedlaethol, a rhaid iddo gyflenwi i'r Bwrdd Cenedlaethol unrhyw wybodaeth y mae'n gofyn amdani.* At hynny, mae'r canllawiau statudol yn nodi y dylai adroddiadau blynyddol gynnwys *unrhyw wybodaeth neu ddysgu y mae'r Bwrdd Diogelu wedi'i ddosbarthu, neu hyfforddiant y mae wedi'i argymhell neu ei ddarparu.* O ystyried bod gan bob Bwrdd is-grŵp sy'n rhoi sylw i faterion yn ymwneud â hyfforddiant a'r gweithlu, mae'n siomedig nad oes unrhyw drosolwg rhagarweiniol o hyfforddiant ynghylch diogelu yng Nghymru wedi deillio o hynny. Darparodd dau Fwrdd Rhanbarthol ymatebion anghyflawn, a rhestrodd y gweddill weithgareddau a theitlau cyrsiau hyfforddi, er enghraifft. Mae'r termau "dysgu gwersi" a "sefydliad sy'n dysgu" yn gyfarwydd i fwyafrif y Byrddau Rhanbarthol, ac eto i gyd nid yw'n glir sut y mae pob Bwrdd yn dehongli'r termau hyn. Mae'n bosibl:

- (a) bod mentrau Dysgu Gweithredol a Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth yn hwyluso cysylltiadau rhwng myfyrion ynghylch digwyddiadau ac ymarfer o ddydd i ddydd
- (b) bod digwyddiadau hyfforddi'n cael pobl i archwilio eu dealltwriaeth, eu sgiliau a'u gwerthoedd
- (c) bod goruchwyliaeth, a goruchwyliaeth tîm, yn annog pobl i archwilio sut y maent yn cyfleu materion yn ymwneud â diogelu, ac
- (ch) bod cynadleddau a seminarau'n hyrwyddo'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac yn dylanwadu ar ymdeimlad gweithwyr proffesiynol o weithredu – ond ni cheir tystiolaeth i brofi hynny.

Roedd y drafodaeth am hyfforddiant ynghylch diogelu yn ddadlennol, "Mae'n bwnc enfawr...D'yn ni erioed wedi cael trosolwg llawn ohono...mae achosion o gomisiynu ar wahân yn rhwystr." Nid yw esboniadau o'r fath, nad oeddent yn rhan o unrhyw adroddiad, yn golygu bod modd anwybyddu'r ffaith na chydymffurfiwyd â'r Ddeddf ac na chydymffurfiwyd â'r cais dan adran 139 yn benodol.

Roedd y drafodaeth ynghylch digwyddiadau arwyddocaol a oedd wedi'u hepgor o'r adroddiadau blynyddol yn heriol. Er bod y berthynas rhwng y cyfryngau a'r farn gyhoeddus yn un gymhleth, mae papurau lleol yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth am niwed a chamdriniaeth. Gellid dadlau bod gan y teledu a phapurau lleol rôl allweddol i'w chwarae o safbwynt "codi ymwybyddiaeth," hyd yn oed os yw adroddiadau am ddigwyddiadau'n unochrog ac yn anghywir. Mae adroddiadau blynyddol sy'n anwybyddu digwyddiadau'n ymwneud â diogelu, yr adroddwyd yn eu cylch yn lleol ac yn rhanbarthol, yn annisgwyl. Nid yw bod yn dawel ynghylch materion o'r fath yn cynnig sicrwydd nac yn gwella dealltwriaeth. Mae adroddiadau blynyddol yn chwarae rôl hanfodol o safbwynt dylanwadu ar naws dulliau adrodd, drwy egluro beth sydd wedi digwydd a beth y mae arweinwyr ar draws sectorau'n ei wneud i leddfu niwed a risg. "Os nad ydym yn gallu gweld rhywbeth, os nad yw pobl yn tynnu sylw at fater ni allwn eu gorfodi i wneud hynny...sut mae adrodd ynghylch hynny heb beryglu'r bartneriaeth?...Nid yw'r pethau hyn yn niwtral, ac eto i gyd rydych yn disgwyl i ni eu disgrifio'n niwtral?" Ydy – mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn disgwyl i hynny ddigwydd.

Yn olaf, cafodd y Cadeiryddion eu gwahodd i gynnig rhai pwyntiau cryno i'r Bwrdd Cenedlaethol ynghylch yr adroddiadau a'r cynlluniau blynyddol. "Ceir gwir awydd a brwdfrydedd i wella'r holl sefyllfa...ceir ymrwymiad hefyd – mae'n broses sy'n esblygu...rhaid i ni rannu arfer da ac arferion gweithio...rhaid i ni wella'r sgwrs...rhaid i ni ddarparu mwy o enghreifftiau a mwy o fanylion...mae cydweithredu effeithiol yn cymryd amser...mae'r cyfan yn cymryd amser ac mae angen i ni ganiatáu amser iddo...Gallem wneud yn well!"

Margaret Flynn, Keith Towler, Simon Burch, Ruth Henke, Jan Pickles a Rachel Shaw



National Independent
Safeguarding Board Wales

Bwrdd Diogelu Annibynnol
Cenedlaethol Cymru



Adroddiad Blynyddol

2016–17

Atodiadau

Atodiad 1: Aelodau a strwythurau'r Byrddau Diogelu

Tabl (a) Aelodaeth Byrddau Rhanbarthol

Enw'r Ardal Bwrdd Diogelu	Prif Aelodau'r Bwrdd	Aelodau ychwanegol o'r Bwrdd
<p>Caerdydd a'r Fro</p> <p>Cyngor Dinas a Sir Caerdydd</p> <p>Cyngor Bro Morgannwg</p>	<p>Cadeirydd y Bwrdd Plant: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol; Is-gadeirydd: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol</p> <p>Cadeirydd y Bwrdd Oedolion: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol;</p> <p>Is-gadeirydd: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol¹</p> <p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cymdeithasol; Pennaeth Gwasanaeth; Rheolwyr Gweithredol; Heddlu De Cymru; Y Gwasanaeth Troseddau Ieuentid; Y Gwasanaeth Prawf; Y Cwmni Adsefydlu Cymunedol</p> <p>Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro; Iechyd Cyhoeddus Cymru; Cyfarwyddwyr a Chyfarwyddwyr Cynorthwyol Nyrsio; Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru</p> <p>Yr Uned Fusnes</p>	<p>Gwasanaethau cyfreithiol; Dysgu a sgiliau; Addysg; Penaethiaid ysgol; Gwasanaethau Tai Cymunedol a Gwasanaethau i Gwsmeriaid; NSPCC; Barnardo's; Arweinydd Diogelu, Adran Fisâu a Mewnfudo y DU; Cynghorydd Hyfforddiant, Llamau; Cymorth i Ferched Caerdydd; Rheolwr y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid; Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru; Canolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro; Age Connects; Cymdeithas Cartrefi Gofal; Darparwyr Gofal Byw â Chymorth a Gofal ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu; Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol</p>
<p>Cwm Taf</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf</p>	<p>Cydgadeiryddion y Bwrdd Plant: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol a Gwasanaethau Plant</p> <p>Cydgadeiryddion y Bwrdd Oedolion: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol a Gwasanaethau Plant</p> <p>Rheolwyr Diogelu Oedolion; Cyfarwyddwr Gwasanaethau; Penaethiaid Gwasanaeth; Cyfarwyddwr Gwasanaethau Heddlu De Cymru</p> <p>Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol; Y Cwmni Adsefydlu Cymunedol; Y Gwasanaeth Troseddau Ieuentid Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf; Cyfarwyddwr Nyrsio; Pennaeth Diogelu; Iechyd Cyhoeddus Cymru; Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru</p> <p>Yr Uned Fusnes</p>	<p>Gwasanaeth Cyffuriau – Trin ac Addysgu; Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful; Gwasanaethau Tai Cymunedol; Addysg a Dysgu Gydol Oes; Penaethiaid Gwasanaethau Cyfreithiol; Prif Swyddog Adfywio Cymunedol; Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol</p>

Enw'r Ardal Bwrdd Diogelu	Prif Aelodau'r Bwrdd	Aelodau ychwanegol o'r Bwrdd
<p>Gwent</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili</p> <p>Cyngor Sir Fynwy</p> <p>Cyngor Dinas Casnewydd</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen</p>	<p>Cadeirydd y Bwrdd Plant: Prif Weithredwr Cymdeithas Tai Cymunedol Bron Afon; Is-gadeirydd: Cyfarwyddwr Cynorthwyol Barnardo's Cymru</p> <p>Cadeirydd y Bwrdd Oedolion: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol; Is-gadeirydd: Cyfarwyddwr Nyrsio</p> <p>Heddlu Gwent; Y Gwasanaeth Troseddau Ieuentid</p> <p>Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan; Iechyd Cyhoeddus Cymru; Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru; Gwasanaeth Tân De Cymru</p> <p>Yr Uned Fusnes</p>	<p>Tîm ar Ddyletswydd mewn Argyfwng De-ddwyrain Cymru; Adran Addysg Torfaen; Carchar EM Brynbuga; Cynghorydd Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol; Gwasanaethau cyfreithiol; Tai Sir Fynwy; Charter Housing a Derwen Cymru; Cynghrair Gwirfoddol Torfaen; Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau; Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; Cadeiryddion y Rhwydwaith Diogelu Lleol; Pennaeth Gwasanaethau Oedolion; Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol</p>
<p>Canolbarth a Gorllewin Cymru</p> <p>Cyngor Sir Gâr</p> <p>Cyngor Sir Ceredigion</p> <p>Cyngor Sir Penfro</p> <p>Cyngor Sir Powys</p>	<p>Cadeirydd y Bwrdd Plant: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol; Is-gadeirydd: Cyfarwyddwr Nyrsio</p> <p>Cadeirydd y Bwrdd Oedolion: Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Hamdden; Is-gadeirydd: Ditectif Uwcharolygydd Heddlu Dyfed-Powys</p> <p>Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol;</p> <p>Y Cwmni Adsefydlu Cymunedol</p> <p>Cynrychiolydd Rhanbarthol Rheolwyr Cyfiawnder Ieuentid</p> <p>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda; Bwrdd Iechyd Addysgu Powys; Iechyd Cyhoeddus Cymru; Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru</p> <p>Yr Uned Fusnes</p>	<p>Cynrychiolydd Rhanbarthol y Trydydd Sector; Cynrychiolydd Rhanbarthol Penaethiaid Comisiynu; Cynrychiolydd Rhanbarthol Cyfarwyddwyr Comisiynu; Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol</p>

1 Yn achos y Bwrdd hwn a Byrddau Rhanbarthol eraill, caiff y rolau eu rhannu fel rheol rhwng gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol cyfansoddol

Enw'r Ardal Bwrdd Diogelu	Prif Aelodau'r Bwrdd	Aelodau ychwanegol o'r Bwrdd
<p>Gogledd Cymru</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Sir y Fflint</p> <p>Cyngor Gwynedd Cyngor Sir Ynys Môn</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam</p>	<p>Cadeirydd y Bwrdd Plant: Cyfarwyddwr Strategol Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol; Is-gadeirydd: Pennaeth Uned Gyflawni Leol Gogledd Cymru y Cwmni Adsefydlu Cymunedol</p> <p>Cadeirydd y Bwrdd Oedolion: Prif Swyddog, Gwasanaethau Cymdeithasol; Is-gadeirydd: Ditectif Uwcharolygydd Uned Amddiffyn Pobl Agored i Niwed Heddlu Gogledd Cymru</p> <p>Heddlu Gogledd Cymru; Y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid; Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru; Iechyd Cyhoeddus Cymru</p> <p>Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol; Y Cwmni Adsefydlu Cymunedol</p> <p>Yr Uned Fusnes</p>	<p>Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru; NSPCC; Barnardo's; Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol</p>
<p>Bae'r Gorllewin</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr</p> <p>Cyngor Dinas a Sir Abertawe</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot</p>	<p>Cadeirydd y Bwrdd Plant: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai</p> <p>Cadeirydd y Bwrdd Oedolion: Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles</p> <p>Penaethiaid Gwasanaeth ym maes Plant; Penaethiaid Gwasanaeth ym maes Oedolion;</p> <p>Heddlu De Cymru; Y Gwasanaeth Prawf</p> <p>Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan; Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio; Pennaeth a Dirprwy Bennaeth Diogelu Oedolion; Prif Nyrs Diogelu Plant; Iechyd Cyhoeddus Cymru; Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol, Gofal Sylfaenol; Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio; Yr Uned Fusnes</p>	<p>Carchar y Parc; Carchar Abertawe; Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe; NSPCC; Barnardo's; Cydlynnydd Cam-drin Domestig; Rheolwr Gwasanaethau Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol; Prif Swyddog Addysg; Pennaeth Uned Cymorth i Ysgolion; Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol</p>

Tabl (b) Strwythurau'r Byrddau Rhanbarthol

Ardal Bwrdd Diogelu	Grwpiau'n ymwneud â gwaith adrodd	Mathau o is-grwpiau
<p>Caerdydd a'r Fro</p> <p>Plant</p>	<p>Y Prif Fwrdd a'r Bwrdd Gweithredol</p> <p>Yr Uned Fusnes</p>	<p>Adolygiadau Ymarfer Plant</p> <p>Archwilio</p> <p>Hyfforddiant</p> <p>Cyfathrebu ac Ymgysylltu</p> <p>Grŵp 'Meysydd Thematig Allweddol'</p> <p>Grwpiau Gorchwyl a Gorffen</p>
Oedolion	-	-
<p>Cwm Taf</p> <p>Plant</p>	<p>Pwyllgor Gweithredol Plant</p> <p>Bwrdd Gweithredol y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth</p> <p>Pwyllgor Gweithredol y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth</p>	<p>Grŵp Adolygiadau Plant</p> <p>Sicrhau Ansawdd – Plant</p> <p>Ymgysylltu, Cyfranogi a Chyfathrebu</p> <p>Hyfforddiant a Dysgu</p> <p>Protocolau a Gweithdrefnau</p> <p>Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth</p>
Oedolion	<p>Pwyllgor Gweithredol Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid</p> <p>Pwyllgor Gweithredol Oedolion</p> <p>Bwrdd Gweithredol y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth</p> <p>Pwyllgor Gweithredol y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth</p>	<p>Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid</p> <p>Sicrhau Ansawdd</p> <p>Adolygiadau Oedolion</p> <p>Ymgysylltu, Cyfranogi a Chyfathrebu</p> <p>Hyfforddiant a Dysgu</p> <p>Protocolau a Gweithdrefnau</p> <p>Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth</p> <p>Cynllunio Busnes</p>
<p>Gwent</p> <p>Plant</p>	<p>Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol</p> <p>Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru</p> <p>Rhwydwaith Diogelu: Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen</p>	<p>Ymgysylltu a Chyfathrebu</p> <p>Protocolau a Gweithdrefnau</p> <p>Dysgu a Datblygu</p> <p>Grŵp Sicrhau Ansawdd a Pherfformiad</p> <p>Grŵp Adolygu Achosion</p> <p>Panelau Adolygu Achosion</p> <p>Cynllunio Busnes</p>
Oedolion	<p>Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol</p> <p>Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent</p>	<p>Ymgysylltu a Chyfathrebu</p> <p>Protocolau a Gweithdrefnau</p> <p>Dysgu a Datblygu</p> <p>Grŵp Sicrhau Ansawdd a Pherfformiad</p> <p>Grŵp Adolygu Achosion</p> <p>Panelau Adolygu Achosion</p>

Ardal Bwrdd Diogelu	Grwpiau'n ymwneud â gwaith adrodd	Mathau o is-grwpiau
Canolbarth a Gorllewin Cymru Plant	Bwrdd Gweithredol Grwpiau Gweithredol Lleol Byrddau Lleol Iau Diogelu Plant Bwrdd Rhanbarthol Iau Diogelu Plant	Hyfforddiant Polisiâu a Gweithdrefnau Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion
Oedolion	Bwrdd Gweithredol Grwpiau Gweithredol Lleol	Hyfforddiant Polisiâu a Gweithdrefnau Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion
Gogledd Cymru Plant	Grŵp Gweithredol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Grŵp Cymorth i Ddiodefwyr Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Grŵp Cyflawni Sir y Fflint a Wrecsam Grŵp Cyflawni Conwy a Sir Ddinbych Grŵp Cyflawni Gwynedd a Môn	Grŵp Adolygiadau Ymarfer Plant Cyd-grŵp Hyfforddiant a Datblygu'r Gweithlu ym maes Oedolion a Phlant Grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau
Oedolion	Grŵp Cyflawni Sir y Fflint a Wrecsam Grŵp Cyflawni Conwy a Sir Ddinbych Grŵp Cyflawni Gwynedd a Môn	Grŵp Adolygiadau Ymarfer Oedolion Cyd-grŵp Hyfforddiant a Datblygu'r Gweithlu ym maes Oedolion a Phlant Grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau ym maes Oedolion
Bae'r Gorllewin Plant	Bwrdd Diogelu Plant Byrddau Gwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe	Grŵp Rheoli Adolygiadau Ymarfer Plant Grŵp Rheoli Polisiâu, Gweithdrefnau ac Ymarfer Grŵp Rheoli Ansawdd a Pherfformiad Cyd-grŵp Hyfforddiant Strategol
Oedolion	Bwrdd Diogelu Oedolion	Grŵp Rheoli Monitro Ansawdd ac Uwchgyfeirio Pryderon Grŵp Rheoli Polisiâu, Gweithdrefnau ac Ymarfer Cyd-grŵp Hyfforddiant Strategol

Atodiad 2:

Cynllunio, Cydweithredu a Chyflawniadau

Tabl (c) Gweithredu cynlluniau

Ardal Bwrdd Diogelu	Gweithgareddau gweithredu
Caerdydd a'r Fro	Wedi sefydlu grŵp strategol amlasiantaeth ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, cynllun gweithredu a Fforwm Proffesiynol amlasiantaeth; arweiniodd y Fforwm Proffesiynol amlasiantaeth at "gynllun gweithredu cadarn a ddatblygwyd gan y grŵp strategol ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant"
Cwm Taf	Wedi gosod dolenni cyswllt â gwasanaethau atal ar y wefan Wedi datblygu cynllun gwella ar gyfer cartrefi gofal (yn dilyn Adolygiad Operation Jasmine ac Adolygiad y Comisiynydd Pobl Hŷn o Gartrefi Gofal); creu cyfleoedd i rannu arfer da ymhlith darparwyr cartrefi gofal; atgyfnerthu'r ffaith bod "esgeulustod emosynol" yn ffurf ar gamdriniaeth; defnyddio eiriolaeth i sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed Wedi ehangu rhychwant y Protocol ar gyfer Ymateb Ar Unwaith i Ddigwyddiadau Tyngedfennol, fel ei fod yn cynnwys oedolion sy'n wynebu risg Wedi sefydlu strwythur llywodraethu Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac wedi cyflwyno camau lliniaru er mwyn rheoli'r cynnydd mewn asesiadau ac ailasasiadau
Gwent	Wedi datblygu canllawiau ynghylch esgeulustod; wedi cynnal cynhadledd ynghylch esgeulustod; wedi hyfforddi miloedd o wirfoddolwyr a gweithwyr; wedi ymgynghori â phlant, pobl ifanc a rhieni; wedi datblygu ystod o daflenni; wedi datblygu gwefannau sy'n darparu cyngor; wedi cyflwyno gwelliannau i ymarfer; wedi datblygu grŵp i ystyried materion yn ymwneud â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac wedi llunio cyfres o ddeunyddiau gwybodaeth ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ar draws amrywiaeth o wahanol gyfryngau; wedi datblygu rhaglen hyfforddiant ynghylch cadw pobl ifanc yn ddiogel wrth ddefnyddio technoleg; wedi datblygu ystod o brotocolau a gweithdrefnau; wedi cydweithio'n agos â'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Oedolion a chynllun peilot ynghylch Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol; wedi cynnal adolygiad o sut yr ydym yn gweithio ac wedi penderfynu ynghylch y ffordd orau y gallwn fabwysiadu dull mwy holistaidd o ddiogelu; wedi ymgynghori â dinasgyddion mewn amrywiaeth o ddiogwyddiadau ynghylch diogelu; wedi cytuno ar frand ac ar logo ar gyfer y Bwrdd; wedi llunio llythyr newyddion chwarterol; wedi datblygu set ddata er mwyn meincodi gweithgarwch; wedi monitro perfformiad y ddarpariaeth o ran cartrefi gofal; wedi datblygu grŵp i gynnal archwiliad o gwmpadau mewn lleoliadau gofal; wedi cynorthwyo i bennu rhychwant gweithgarwch y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth; wedi datblygu ystod o fodiwlau hyfforddiant; wedi cydweithio'n agos â'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant; wedi adolygu a diwygio cylch gorchwyl ac aelodaeth pob un o'n his-grwpiau ac wedi cyfuno gwaith rhai ohonynt
Canolbarth a Gorllewin Cymru	Wedi cynnal cynhadledd ranbarthol ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, a oedd yn cynnwys perfformiad gan Gwmni Theatr Arad Goch o'r enw "secstio", a ddefnyddiwyd yn sail ar gyfer gweithdai ym mhob un o ysgolion uwchradd Ceredigion; bu grŵp "gorchwyl a gorffen" ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn arwain ac yn cyflawni'r gwaith o ddatblygu strategaeth a chynllun gweithredu; mae fframwaith ar gyfer datblygu cyfarfodydd amlasiantaeth ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant wedi'i gyflwyno gyda chylch gorchwyl; mae wedi gweithio gyda Barnardo's a CASCADE (Prifysgol Caerdydd) i weithredu'r prosiect Gwella ac mae gweithiwr prosiect wedi'i benodi; datblygu dogfen ranbarthol am drothwyau a chymhwysedd i gael cymorth, sy'n rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ynghylch sut i ymateb i blant a'u teuluoedd...y mae arnynt angen gwasanaethau, gyda chyfres o weithdai; mae ffurflen atgyfeirio amlasiantaeth wedi'i datblygu sy'n ategu'r ddogfen ranbarthol am drothwyau; cafodd trefniadau ranbarthol ar gyfer Galwadau Cynadledda ynghylch Cam-drin Domestig a Chanolfannau Amlasiantaeth Rhannu Gwybodaeth eu treialu a daethpwyd â nhw i ben; mae'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd ac Adrodd wedi'i gryfhau gan Gynllun Gweithredu Operation Jasmine; mae'r byrddau diogelu plant ac oedolion yn cyd-fynd yn agos iawn â'i gilydd; cafodd gwefan y Bwrdd ei lansio a chafodd brand ei sefydlu; cafodd dadansoddiad cynhwysfawr o anghenion o ran hyfforddiant ei gynnal; mae capasiti'r Uned Fusnes wedi'i gryfhau; cafodd protocol ar gyfer adolygiadau ymarfer ei gomisiynu; ac mae trefniadau llywodraethu wedi'u cryfhau

Ardal Bwrdd Diogelu	Gweithgareddau gweithredu
Gogledd Cymru	<p>Ceir strategaeth amlasiantaeth ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac ynghylch Plant sydd ar Goll o'r System Ofal ac mae grŵp gweithredol wedi'i sefydlu; ceir cynllun gweithredu a adolygir yn barhaus; mae'r prosiect Gwella ar waith gydag ymarferydd o Barnardo's; mae drama ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn cael ei datblygu ar gyfer plant ysgolion uwchradd; cyfrannodd y Bwrdd at adolygiad ymgynghori o'r canllawiau statudol ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant; mae canolfan Prosiect 84 yn wasanaeth newydd...sy'n gweithio i ddatblygu llwybr ar gyfer plant y camfanteisir yn rhywiol arnynt; mae gan bawb ond Gwynedd banelau Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant / Camfanteisio'n Rhywiol; mae tîm heddlu penodedig yn mynd i'r afael ag achosion o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ar-lein ac fel arall, sydd wedi bod yn ymwneud â hyfforddi staff a datblygu podlediadau a rannwyd ag asiantaethau partner; ceir taflen ynghylch sut i atgyfeirio unrhyw bryderon; mae polisïau wedi'u datblygu; mae'r NSPCC yn cynnig yr ymyriad Amddiffyn ac Atal er mwyn cyflwyno a datblygu swydd gwaith cymdeithasol ym maes Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant; gwnaed gwaith ar y cyd â'r NSPCC ar becyn cymorth archwilio Ymddygiad Rhywiol Niweidiol ac mae gan yr awdurdodau lleol fentrau cyfochrog y mae rhai ohonynt yn ymwneud â Chyfiawnder Ieuentid; mae'r holl asiantaethau partner wedi ymrwmo i gynorthwyo a chyfranogi mewn Cynadledau Amlasiantaeth Asesu Risg; mae'r Bwrdd lechyd yn treialu'r defnydd o Godau Darllen ym maes gofal sylfaenol, er mwyn tynnu sylw at ddiodefwyr trais domestig; cytunwyd ar drefniadau'r Bwrdd ar gyfer cymorth busnes; cafodd gwybodaeth am arfer gorau a dysgu o adolygiadau ei dosbarthu mewn sioe deithiol; caiff cynlluniau gweithredu eu hadolygu fel mater o drefn; ceir rhaglen dreigl o archwiliadau ar draws pob Grŵp Cyflawni; mae'r protocol ar gyfer uwchgyfeirio pryderon yn destun adolygiad amlasiantaeth; mae protocol ar gyfer ymdrin â phryderon gweithwyr proffesiynol yn cael ei adolygu; mae templed arfer gorau'n cael ei rannu; mae set ddata gyffredin yn cael ei datblygu; cynhaliwyd 45 o ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth yn ystod yr Wythnos Diogelu; cafodd protocol peilot ar gyfer ymdrin ag unigolion coll ei lansio ynghyd â phrotocol ar gyfer achosion o hunanesgeuluso; mae uned fusnes ar waith, sy'n cynorthwyo'r ddau Fwrdd; cynhaliwyd sesiwn datblygu busnes; ceir tystiolaeth o waith ar y cyd ar draws y ddau Fwrdd; cynhaliwyd rhaglen helaeth o hyfforddiant ynghylch diogelu; mae gwaith yn parhau ar gynyddu capasiti'r Bwrdd i gynnal Adolygiadau Ymarfer Oedolion</p>
Bae'r Gorllewin	<p>Datblygu ac adolygu cyfres o adnoddau asesu ar gyfer esgeulustod</p> <p>Cael data perfformiad ynghylch esgeulustod a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant</p> <p>Gweithredu Protocol Cymru Gyfan ar gyfer Mynd i'r Afael â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a dwyn partneriaid i gyfrif</p> <p>Cynnal y prosiect Gwella (am dair blynedd) a fydd yn bwynt cyswllt unigol ar gyfer Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant</p> <p>Llunio gwybodaeth am berfformiad gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a chreu "fframweithiau adrodd" gyda nhw</p> <p>Cynnwys aelodau'r teulu mewn Adolygiadau Dynladdiad Domestig</p> <p>Cysylltu â Bwrdd Cynllunio Ardal Bae'r Gorllewin a chyfrannu i gynllun gwaith yr is-grŵp plant a phobl ifanc (DS nid yw'r grŵp hwnnw'n ymddangos yn y rhestr o is-grwpiau)</p> <p>[O ran llywodraethu] Datblygu fframwaith perfformiad, dulliau effeithiol o gasglu data, a chysondeb ymarfer</p> <p>[O ran sefydlu cysylltiadau ag asiantaethau partner] Cael gwybod am adroddiadau cenedlaethol perthnasol, yn cysylltu â Byrddau eraill, y Bwrdd Cenedlaethol a'r Fforwm Trais Domestig a sicrhau bod gwersi sydd i'w dysgu o adolygiadau ymarfer yn cael eu dosbarthu</p> <p>[O ran ymgysylltu â dinasyddion a darparwyr] Sicrhau eu bod nhw a'r gweithlu ehangach yn cael gwybodaeth lawn am waith y Bwrdd a'u bod yn chwarae rhan lawn ynddo</p>

Tabl (ch) Cyflawniadau'r Byrddau Rhanbarthol

Ardal Bwrdd Diogelu	Cyflawniadau
Caerdydd a'r Fro	Cyfrannodd y Grŵp Strategol ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant at yr adolygiad o Brotocol Cymru Gyfan ar gyfer Mynd i'r Afael â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant; mae'r cynlluniau'n cyd-fynd â chynlluniau corfforaethol a chynlluniau cyflawni adrannol yr awdurdodau lleol; mae gan Fro Morgannwg Dasglu ac mae Caerdydd yn cynnal cyfarfodydd amlasiantaeth ynghylch strategaethau a chyfarfodydd amlasiantaeth ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant; mae grŵp buddiant proffesiynol ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn sicrhau dull gweithredu cydlynus; mae gan y Bwrdd y seilwaith, yr arweinyddiaeth, y dulliau llywodraethu a'r trefniadau cynllunio i'w alluogi i weithredu'n fwy effeithiol; mae wedi ymateb i flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg, megis Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod; mae tri gweithdy wedi datblygu cydnerthedd y Bwrdd
Cwm Taf	Ceir cylch gorchwyl clir a cheir proffiliau rôl ar gyfer aelodau'r Bwrdd; caiff swyddogaethau'r Bwrdd eu cyflawni drwy bwyllgorau ac is-grwpiau; mae'r Uned Fusnes yn darparu gwasanaeth rheoli a chydlynu a chymorth; mae'r strwythur o ran is-grwpiau'n cael ei adolygu a'i wella'n barhaus; mae Pwyllgor Gweithredol Plant ac Oedolion yn gyfrifol am y cynllun gwaith blynyddol; cafwyd adolygiad o wasanaethau atal yn y trydydd sector; codwyd ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol o bwysigrwydd gofal da a sicrhau bod hyfforddiant priodol ynghylch diogelu'n cael ei ddarparu; cydweithredwyd â'r Bartneriaeth Law yn Llaw at lechyd Meddwl a lluniwyd protocol cynhwysol; ceir strwythur llywodraethu Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a phroses gysylltiedig ar gyfer monitro risg. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn darparu data ynghylch atgyfeiriadau; data ynghylch y Gofrestr Amddiffyn Plant; data ynghylch atgyfeiriadau i'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth a nifer y trafodaethau dyddiol ynghylch cam-drin domestig; canrannau ynghylch achosion a gaiff eu hatgyfeirio fwy nag unwaith; a data ynghylch presenoldeb aelodau'r Bwrdd
Gwent	-
Canolfan a'r Gorllewin Cymru	Mae gan y Bwrdd strwythur cydlynus; ceir ffofws strategol clir; ceir fframwaith rhanbarthol ar gyfer perfformiad a sicrhau ansawdd; mae gan y Bwrdd hunaniaeth gref; ceir cefnogaeth strategol gan aelodau'r Bwrdd a'i bartneriaid; mae'r Bwrdd Plant a'r Bwrdd Oedolion yn cyd-fynd yn gadarn â'i gilydd; a cheir perthynas gref rhwng y Bwrdd Gweithredol a'r Bwrdd Iau
Gogledd Cymru	Ceir aelodaeth sefydlog ac mae'r Byrddau wedi parhau i ddarparu her briodol; mae aelodau'r is-grwpiau yn mynychu'n rheolaidd; cafwyd un Adolygiad Ymarfer Oedolion a argymhellodd bod protocol ar gyfer achosion o hunanesgeuluso'n cael ei ddatblygu; cafwyd chwe achos eu hatgyfeirio at y Grŵp Adolygiadau Ymarfer Plant...mae cynlluniau gweithredu yn hwyluso'r gwaith o fonitro a mesur canlyniadau; tynnodd y gynhadledd ynghylch Llais y Plentyn sylw at bwysigrwydd sicrhau bod tystiolaeth uniongyrchol plentyn yn amlwg mewn ymarfer ac mewn adolygiadau ymarfer; cafwyd llwyddiant yr Wythnos Diogelu ei sicrhau drwy gydweithrediad amryw asiantaethau; mae'r ddau Fwrdd wedi parhau i ddatblygu tudalennau ar y wefan
Bae'r Gorllewin	Mae'r Adroddiad Blynyddol yn darparu gwybodaeth am nifer yr Adolygiadau Ymarfer Plant a ystyriwyd ac ystadegau ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, hynny yw, plant sy'n wynebu risg, yn ôl ardal, oedran, rhyw, statws o ran derbyn gofal, statws o ran y Gofrestr Amddiffyn Plant, ac ynghylch plant sydd â hanes o fynd ar goll

Tabl (d) – Cydweithredu pwrpasol

Ardal Bwrdd Diogelu	Achosion o gydweithredu
Caerdydd a'r Fro	Mae'r Rheolwr Busnes wedi sefydlu cysylltiadau agos â Byrddau Rhanbarthol eraill, Llywodraeth Cymru a bwrdd diogelu yn Lloegr ynghylch Adolygiad Ymarfer Plant; ceir cyswllt rheolaidd â Llywodraeth Cymru ynghylch Adolygiadau Ymarfer Plant
Cwm Taf	Mae'r Rheolwr Busnes Rhanbarthol yn cyfarfod bob deufis â Llywodraeth Cymru; gwneir gwaith ar y cyd i gyflwyno'r Wythnos Genedlaethol Diogelu; ceir cytundeb i rannu Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion a gyhoeddir â Byrddau Rhanbarthol eraill; mae diddordeb mewn Adolygiadau Ymarfer Oedolion wedi arwain at achosion o gydweithredu â phedwar bwrdd diogelu yn Lloegr; mae'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth wedi cynorthwyo Caerdydd i greu Canolfan o'r fath, a chafwyd ymweliad gan un o Fwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd Awdurdodau Lleol (Safonau Masnach) a'r Comisiynydd Plant
Gwent	Mae'r Adroddiad Blyneddol yn darparu data ynghylch cysiau hyfforddiant a ddarparwyd ac ynghylch cyflogwyr y sawl a oedd yn bresennol; data ynghylch hyfforddiant ynglŷn â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac ynglŷn â chyflogwyr y sawl a oedd yn bresennol
Canolbarth a Gorllewin Cymru	Mae'r Bwrdd Rhanbarthol wedi bod yn gweithio gyda'r Bwrdd Gweithredol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a bwriedir i'r Bwrdd Gweithredol gael ei ymgorffori yn y Bwrdd Rhanbarthol; mae cynrychiolydd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn mynychu'r rhan honno o gyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol sy'n ymdrin â materion trawsbynciol; yn sgîl gwaith gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Plant, bu modd cael trafodaeth fyfyril am hyfforddiant ynghylch diogelu; ar y cyd bu'r Bwrdd a CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd yn hwyluso ymgynghoriad amlasiantaeth ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant; bu'r Bwrdd yn cynorthwyo'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau mewn cynhadledd ynghylch rheolaeth gymhellol fel ffurf ar drais domestig; mae Sir Gâr wedi cynnal Fforwm Proffesiynol Amlasiantaeth ar ran Bwrdd Bae'r Gorllewin; mae Rheolwr y Bwrdd Rhanbarthol yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae Rheolwr Busnes y Bwrdd yn cyfarfod â Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
Gogledd Cymru	Mae aelodau'r is-grwpiau yn cynnwys cynrychiolwyr o bartneriaid statudol yn ogystal â grwpiau eiriolaeth, grwpiau tai, mudiadau gwirfoddol a chynghorau; mae adolygiadau ymarfer wedi'u cynnal gydag adolygwyr annibynnol ac mae cynrychiolwyr o amryw asiantaethau wedi mynychu digwyddiadau dysgu; llwyddwyd i ymgysylltu ag asiantaethau a Byrddau eraill yn ystod yr Wythnos Diogelu er mwyn hybu gwaith codi ymwybyddiaeth; mae timau Safonau Masnach yn rhoi diweddariadau i'r Bwrdd; cafodd protocol ar gyfer ymdrin ag unigolion coll ei dreialu gyda'r heddlu a rheolwyr cartrefi gofal; cafodd "cerdyn consortina" ynghylch Adolygiadau Ymarfer Oedolion ei ddatblygu gyda'r heddlu; mae uwchgyfeirio pryderon yn ffocws gwaith a wneir ar y cyd â'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol; mae cydlynwyr/y rheolwr busnes yn mynychu'r cyfarfodydd ar gyfer Rheolwr Busnes Cymru Gyfan; mae'r byrddau wedi cynnal cynadleddau llwyddiannus a "sioe deithiol" o ganlyniad i waith amlasiantaeth
Bae'r Gorllewin	-

Atodiad 3:

Effeithiolrwydd Byrddau Rhanbarthol a hyfforddiant ynghylch diogelu

Tabl (dd) Effeithiolrwydd Byrddau Rhanbarthol

Ardal Bwrdd Diogelu	Effeithiolrwydd
Caerdydd a'r Fro	-
Cwm Taf	Mae categorïau camdriniaeth a dulliau cofnodi wedi newid; mae Grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau yn sicrhau bod prosesau ar waith ar gyfer datblygu ac adolygu protocolau a gweithdrefnau, e.e. Rheoli Ymchwiliadau Mawr i Ddiogelu; datblygodd y Grŵp Sicrhau Ansawdd ym maes Oedolion adnodd archwilio achosion ac adnodd dysgu er mwyn hybu arfer da a meysydd i'w datblygu. Cafodd deg o adolygiadau ymarfer achosion eu cwblhau; bu'r grŵp adolygiadau oedolion yn ystyried saith achos newydd; a chafwyd cymorth gan y Bwrdd i gwblhau Adolygiad Dynladdiad Domestig. Mae'r adroddiad yn darparu data ynghylch atgyfeiriadau ers 2014 ac mae'n dangos cynnydd yn nifer yr adroddiadau ar gyfer 2016-2017
Gwent	-
Canolbarth a Gorllewin Cymru	<p>Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn cyfrannu i'r Bwrdd Gweithredol, y Grŵp Gweithredol Lleol a chyfarfodydd yr is-grwpiau. Mae Hywel Dda yn darparu data ynghylch perfformiad ym maes diogelu ac yn codi ymwybyddiaeth o ddiogelu yn ei weithlu; mae wedi dylunio a datblygu adnodd i'w ddefnyddio gyda phlant y gallai rhywun gamfanteisio'n rhywiol arnynt, siart lif ynghylch Anffurfio Organau Ceneddlu Benywod, a llwybr iechyd a gofal deintyddol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Cyfarwyddwr Nyrso Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yw Is-gadeirydd y bwrdd plant ac mae staff y Bwrdd Iechyd yn ymwneud â grwpiau penodol; mae'n cysylltu â Grŵp Diogelu Iau. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu cyngor arbenigol annibynnol i'r Bwrdd Gweithredol a'r Is-grwpiau Adolygiadau Ymarfer; yn genedlaethol mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru arbenigedd penodol fel adolygydd ymarfer ac mae wedi arwain y gwaith o ddosbarthu ymchwil ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod. Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi cyfrannu gwybodaeth i Adolygiad Ymarfer Oedolion.</p> <p>Mae Heddlu Dyfed-Powys yn darparu is-gadeirydd ar gyfer y bwrdd oedolion ac mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid a gwasanaethau prawf yn cymryd rhan yn y Grŵp Gweithredol ac mewn is-grwpiau a grwpiau gweithredol lleol. Mae gan yr heddlu ymchwilwyr arbenigol i achosion o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, sydd wedi hybu cyfarfodydd amlasiantaeth; mae gan yr heddlu raglen cyswllt ag ysgolion; ac roedd ei waith gyda'r bwrdd iau yn ymwneud â phlant coll. Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol wedi bod yn gweithio gyda'r heddlu i greu Canolfan Diogelu'r Cyhoedd.</p> <p>Mae Cyfarwyddwr Cymunedau Cyngor Sir Gâr wedi bod yn cadeirio'r bwrdd plant ers sawl blwyddyn ac mae wedi darparu arweinyddiaeth strategol gyson ar gyfer y bwrdd. Mae'r sir wedi gweithredu Arwyddion Diogelwch, sef model ar gyfer cynnal cynadleddau achos amddiffyn plant, a chaiff y gostyngiad yn nifer y plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ei briodoli i'r ffaith bod y model hwn wedi'i weithredu. Mae'r sir wedi ymgymryd â gwaith penodol ynghylch plant coll, gyda'r heddlu, ac ynghylch plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref; mae wedi creu grŵp i rannu arfer da ac adnoddau ynghylch Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid; ac ar ôl cynllun peilot llwyddiannus lle'r oedd Swyddog Diogelu penodedig yn rhan o'r tîm "drws ffrynt", mae'r rôl hon wedi troi'n drefniant parhaol. Mae Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Hamdden Sir Benfro yn cadeirio'r bwrdd oedolion ac mae'r Cyfarwyddwr Addysg yn darparu arweiniad strategol ar gyfer addysg; mae'r Cyngor Sir wedi cyfrannu at ddatblygu'r ddogfen ranbarthol am drothwyau a'r protocol ynghylch addysg ddewisol yn y cartref; mae ganddo fodel ymarfer Arwyddion Diogelwch; ac mae ei dîm unedig yn cyfuno gwaith diogelu plant ac oedolion, sy'n ei alluogi i ymdrin â "phawb o bob oed". Bu Cyfarwyddwr Pobl Cyngor Sir Powys yn cadeirio'r bwrdd oedolion tan fis Hydref 2017; cyfrannodd y Cyngor Sir i'r ddogfen ranbarthol am drothwyau, ac mae ganddo gysylltiadau agos â'r grŵp iau "Eat Carrots". Mae Rheolwr Anghenion Dysgu yn gweithio gydag (i) ysgolion lleol i godi ymwybyddiaeth o ymarfer a gweithdrefnau diogelu a (ii) grwpiau rhieni ar gyfer plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref. Caiff Cyngor Sir Ceredigion ei gynrychioli ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd; bu ei Uwch-reolwr Diogelu yn cadeirio'r grŵp rhanbarthol ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, a ddatblygodd y strategaeth a'r cynllun ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Rhoddodd gymorth i ardaloedd eraill weithredu cyfarfodydd amlasiantaeth ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant; mae wedi cyflwyno Cofnod Canlyniadau Electronig; dechreuodd gynnal Adolygiad Ymarfer Oedolion sydd wedi cynnig cyfleoedd i wella'r broses, gan gynnwys canllawiau ychwanegol ar gyfer adolygiadau yn y dyfodol; cynhaliodd adolygiad o Bolisi Diogelu Corfforaethol Ceredigion; a datblygodd brotocol rhanbarthol ar gyfer ymdrin â rhieni sydd â salwch meddwl hysbys</p>

Ardal Bwrdd Diogelu	Effeithiolrwydd
Gogledd Cymru	<p>Cyfrannodd pob aelod statudol o'r Bwrdd i gyfarfodydd y Bwrdd a chyfarfodydd yr is-grwpiau. Mae presenoldeb Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn anghyson ac mae hynny wedi effeithio ar waith a wneir mewn partneriaeth. Ofer fu ymdrechion i geisio sicrwydd gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol bod materion diogelu'n ymwneud â ward Tawel Fan yn cael sylw; mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrso yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd ar hyn o bryd; roedd uwch-glinigwyr yn aelodau o'r panel adolygu ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig; mae aelodau'r Bwrdd Iechyd Prifysgol wedi cyfrannu i Ffurflen ar gyfer Adroddiad ynghylch Diogelu Oedolion, i'r gwaith o ddiweddarau'r broses ar gyfer uwchgyfeirio pryderon, ac i adolygiad o'r protocol ar gyfer ymdrin â phryderon gweithwyr proffesiynol; mae argaeledd Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed "y tu allan i oriau arferol" a chyfleusterau adran 136² wedi'i herio. Mae nifer gynyddol o bobl ifanc y bernir eu bod yn profi argyfwng iechyd meddwl yn cyrraedd Adrannau Achosion Brys. Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru wedi bod yn aelod o'r Panel Apêl ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Oedolion. Mae aelodau'r Tim Diogelu Cenedlaethol sy'n dod o Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhoi diweddariadau rheolaidd am ddarnau cenedlaethol o waith y mae'r Tim yn darparu arweinyddiaeth gydweithredol ar eu cyfer.</p> <p>Un o gynrychiolwyr Heddlu Gogledd Cymru yw is-gadeirydd y bwrdd plant; mae'r heddlu wedi bod yn cadeirio Fforwm Proffesiynol Amlasiantaeth; mae hefyd wedi diwygio'r broses ar gyfer sicrhau arfer gorau mewn achosion lle ceir achos troseddol cyfochrog. Mae siart broses wedi'i llunio; roedd gan yr heddlu gynrychiolaeth ar banelau Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion ac mewn digwyddiadau dysgu. Mae Gwasanaeth Prawf Cymru wedi cyfrannu i'r broses Adolygiadau Ymarfer Plant ond "byddai'n elwa o waith diweddarau mewnol". Mae'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol yn darparu is-gadeirydd ar gyfer y bwrdd plant. Mae'r aelod wedi cadeirio panel apêl ar gyfer adolygiad annibynnol a'r is-grŵp sy'n ymdrin â'r gyllideb. Caiff y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid ei gynrychioli ar y bwrdd plant ac mae ei reolwyr yn ymwneud â'r grwpiau cyflawni.</p> <p>Mae Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg Conwy yn cadeirio'r bwrdd plant ac yn mynychu cyfarfodydd y bwrdd oedolion. Mae ymarferwyr Conwy wedi sefydlu fforwm misol ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, sy'n trafod materion yn ymwneud ag ymarfer, ac mae panel Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant wedi'i greu. Caiff unrhyw achosion plant y mae'r broses yn berthnasol iddynt eu cyflwyno a'u hadolygu. Darparodd Conwy adolygydd ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant. Mae Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych yn aelod o'r bwrdd plant a'r bwrdd oedolion; mae cynrychiolwyr wedi cyfrannu i gynllun gweithredu Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig ac i ddau Adolygiad Ymarfer Oedolion. Mae Prif Swyddog Sir y Fflint yn cadeirio'r bwrdd oedolion. Mae'r uwch-reolwr ar gyfer Diogelu a Chomisiynu yn gweithio ar Adolygiad Ymarfer Oedolion. Mae Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn mynychu cyfarfodydd y bwrdd oedolion ac mae'r Pennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd yn mynychu cyfarfodydd y bwrdd plant. Mae'r naill wedi cadeirio Adolygiad Ymarfer Oedolion ac mae'r llall wedi cadeirio tri Adolygiad Ymarfer Plant. Mae dau uwch-reolwr wedi cyfrannu i'r broses adolygu. Mae Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Cyngor Ynys Môn wedi cadeirio Adolygiad Ymarfer Oedolion yr oedd Cydlynnydd Diogelu'r adran yn adolygydd ar ei gyfer. Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Plant yn cadeirio cyfarfodydd is-grŵp Gwynedd ac Ynys Môn ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac ynghylch Plant Coll. Mae wedi ymrwymo i ddefnyddio pecyn cymorth archwilio ymddygiad rhywiol niweidiol yr NSPCC. Mae Pennaeth Adran Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cadeirio Adolygiad Ymarfer Plant ac mae dau aelod o staff wedi cynnal adolygiadau, gan gynnwys Fforwm Proffesiynol Amlasiantaeth.</p> <p>Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyfrannu i'r grwpiau cyflawni lleol, a chaiff ei gynrychioli ar y Grŵp Adolygiadau Ymarfer Oedolion.</p> <p>Caiff Fforwm Gofal Cymru ei gynrychioli ar y bwrdd oedolion a'r grwpiau cyflawni ym maes oedolion. Caiff Barnardo's ei gynrychioli ar y grwpiau cyflawni ym maes plant ac mae hefyd yn cadeirio'r Grŵp Adolygiadau Ymarfer Plant. Caiff yr NSPCC ei gynrychioli ar y grŵp adolygiadau hwn a'r bwrdd plant. Mae'n darparu gwasanaeth adferiad i blant a phobl ifanc sydd wedi dioddef camdriniaeth rhywiol a'r sawl sy'n wynebu'r risg y gallai rhywun gamfanteisio'n rhywiol arnynt; caiff ei ymgyrch Share Aware ei gyflwyno i ysgolion; a chaiff gwybodaeth am ymchwil ym maes amddiffyn plant ei rhannu ar draws y rhanbarth</p>
Bae'r Gogledd	-

Tabl (e) Cynllunio ar gyfer hyfforddiant ynghylch diogelu

Ardal Bwrdd Diogelu	Cynlluniau hyfforddiant
Caerdydd a'r Fro	Sicrhau bod risg ac effaith Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn rhan o hyfforddiant ynghylch diogelu ar gyfer pob aelod o staff...mae hynny'n cynnwys gwaith codi ymwybyddiaeth, a hyfforddiant ynghylch rhybuddion a'r cyfrifoldeb i adrodd ac ymateb...adolygu dull diwygiedig o ymdrin â hyfforddiant (goruchwyliaeth strategol gan y Bwrdd yn bennaf, er y parheir i gydweithio ac y bydd modd i rywfaint o waith amlasiantaeth fod yn rhan o ddigwyddiadau a drefnir gan un asiantaeth); cynllunio a pharatoi polisi diogelu ar gyfer mosgiau a lleoliadau Islamaidd eraill, a sicrhodd hefyd fod cynllun hyfforddiant yn cael ei ddatblygu; cynhaliwyd ymarfer mapio hyfforddiant ddechrau 2017
Cwm Taf	Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod hyfforddiant rhyngasiantaethol ynghylch diogelu ynghyd â phrosesau dosbarthu gwaith dysgu ac ymchwil yn cael eu defnyddio i hybu gweithlu amlasiantaeth mwy hyderus a hyddysg...adolygiad a dadansoddiad o anghenion ymarferwyr o ran hyfforddiant. Dylai strategaeth ar gyfer hyfforddiant ynghylch diogelu ystyried themâu a gwaith dysgu sy'n codi yn lleol ac yn genedlaethol o archwiliadau, adolygiadau ymarfer oedolion, ymchwiliadau a chanfyddiadau ymchwil...datblygu calendr hyfforddiant...sicrhau bod gwaith dysgu'n cael ei ddisbarthu ar sail amlasiantaeth...caiff gwaith dysgu o adolygiadau oedolion, o archwiliadau o achosion, ac o arolygiadau ei rannu ag ymarferwyr ar sail amlasiantaeth...datblygu fformat ar gyfer Fforwm Ymarferwyr Amlasiantaeth er mwyn dosbarthu gwaith dysgu...sicrhau y parheir i fonitro cynlluniau gweithredu
Gwent	Cynorthwyo'r gweithlu i weithredu'r Ddeddf, drwy ddarparu hyfforddiant a gwybodaeth...polisi a gweithdrefnau newydd wedi'u hysgrifennu a'u dosbarthu gyda hyfforddiant ynghylch eu rhoi ar waith...datblygu pecyn hyfforddiant ynghylch dulliau atal ar gyfer grwpiau agored i niwed...cyswrt hyfforddiant ynghylch Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol...nodi'r ystod o hyfforddiant sydd ar gael i staff mewn lleoliadau preswyl, a rhannu'r wybodaeth fel canllaw arfer gorau...cynorthwyo lleoliadau preswyl i atal camdriniaeth ac esgeulustod drwy ddysgu gwersi...cynnal adolygiadau thematig o achosion yn y lleoliadau gofal a rhannu'r gwersi â staff gofal rheng flaen...bydd hyfforddiant a chanllawiau yn adlewyrchu'r hyn a ddysgir o waith archwilio (cynlluniau amddiffyn plant)...bydd adolygiad o'r strategaeth hyfforddiant (ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant) yn ystyried brodyr a chwiorydd anweledig, problemau hanesyddol, defnyddio gwasanaethau atal...codi ymwybyddiaeth o'r 'tri phrif bryder' o ran diogelwch ar y rhyngwrwd / y graddau y mae pobl ifanc yn camddefnyddio sylweddau, a'r camddefnydd (a wneir o'r rhyngwrwd) fel dull o feithrin perthnasoedd amhriodol...pryderon ynghylch iechyd meddwl
Canolbarth a Gorllewin Cymru	Mapio anghenion rhanbarthol o ran hyfforddiant amlasiantaeth; nodi bylchau; comisiynu a darparu hyfforddiant cost-effeithiol, arbenigol; sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau. Yn dilyn Adolygiad Ymarfer Plant, cafodd hyfforddiant amlasiantaeth ei gomisiynu; mae'r asiantaethau a oedd yn bresennol "yn ystyried ac yn cynllunio'r ffordd orau o ddisbarthu'r negeseuon allweddol...ar draws eu sefydliadau"
Gogledd Cymru	Dysgu o Adolygiadau Ymarfer Oedolion, Digwyddiadau Anffafriol Difrifol, Troseddau Difrifol Pellach ac ati a sicrhau bod y gwaith dysgu'n cael ei rannu ar draws Gogledd Cymru...diweddarau'r cofnod dysgu yn rheolaidd...dosbarthu adroddiadau ynghylch gwersi...sicrhau bod diogelu'n flaenoriaeth i'r gweithlu cyfan...Cynllunio hyfforddiant ynghylch diogelu...Sicrhau bod gan y gweithlu y sgiliau angenrheidiol i fodloni galwadau yn awr ac yn y dyfodol...caiff hyfforddiant wedi'i dargedu ei ddarparu sy'n ymwneud â blaenoriaethau'r Bwrdd...creu cysylltiadau rhwng y Grŵp Datblygu'r Gweithlu a Hyfforddiant a Rheolwr Busnes Datblygu'r Gweithlu; mae'r canlyniadau ar gyfer oedolion agored i niwed yn well oherwydd bod y gweithlu'n ddiogel, yn fedrus, yn rhagweithiol ac yn canolbwyntio ar deuluoedd
Bae'r Gorllewin	Hyrwyddo'r Grŵp Rheoli Strategol i fod yn alluogydd hyfforddiant ynghylch diogelu ar draws y rhanbarth...ffocws ar oedolion a phlant...ymholi a sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu...cynnal dadansoddiad o anghenion o ran hyfforddiant er mwyn nodi'r bylchau...clustno-di adnoddau...datblygu fframwaith sicrhau ansawdd i fesur ansawdd hyfforddiant amlasiantaeth ynghylch diogelu

2 Mae adran 136 Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn caniatáu i gwnstabl symud unigolyn ag anhwylder meddyliol o fan cyhoeddus i fan diogel am hyd at 72 awr. Gallai'r man diogel fod yn orsaf heddlu neu'n ysbty.

Tabl (f): Rhestr o'r pynciau hyfforddiant a'r sawl a gafodd hyfforddiant, fel y cawsant eu nodi yn adroddiadau blynyddol y Byrddau Rhanbarthol

Ardal Bwrdd Diogelu	Pynciau hyfforddiant
Caerdydd a'r Fro	Caiff cyfleoedd o ran hyfforddiant ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant eu darparu i bob asiantaeth
Cwm Taf	Hyfforddiant ynghylch Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion i staff a enwebwyd; sesiwn codi ymwybyddiaeth/hyfforddiant wedi'i darparu ar sail amlasiantaeth; hyfforddiant ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, a gwaith codi ymwybyddiaeth gyda darparwyr trafniadaeth, safleoedd trwyddedig, y sector gwirfoddol ac ysgolion; 113 o gyrsiau'n ymwneud â diogelu plant wedi'u darparu i 1833 o gynrychiolwyr ar draws 14 o asiantaethau; 21 o gyrsiau hyfforddiant ym maes diogelu oedolion wedi'u darparu i 320 o bobl o saith asiantaeth; hyfforddiant ynghylch Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol wedi'i ddarparu i 179 o bobl; digwyddiad adborth ymarferwyr
Gwent	Wedi hyfforddi miloedd o wirfoddolwyr a gweithwyr i allu adnabod pryderon am blant ac adrodd yn eu cylch, ac wedi gweithio gyda theuluoedd mewn achosion lle ceir problemau'n ymwneud â chamdriniaeth a/neu esgeulustod; amddiffyn plant; dedfryd gudd; rheoli pobl ifanc sy'n ymddwyn mewn modd niweidiol o safbwynt rhywiol; esgeulustod; ymwybyddiaeth o gyffuriau "cyfreithlon"; hyfforddiant lefel 2 ynghylch "Adnabod ac Atgyfeirio"; cyflwyniad i ddiogelu; diogelu plant – Adnabod ac Atgyfeirio a Chynlluniau Amddiffyn Plant; diogelwch gyda thechnoleg; Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio'n Rhywiol; ymwybyddiaeth rywiol; hunan-niwed a hunanladdiad; rheolaeth gymhellol; ymwybyddiaeth o gam-drin domestig; Cam-drin Domestig, Stelcio a Thrais ar sail Anrhydedd, a Chynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth; Priodasau dan orfod a thrais ar sail anrhydedd; trais rhywiol; deall y sawl sy'n gyfrifol am gamweddau; gweithio gyda dioddefwyr; gweithio gyda dynion sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig
Canolbarth a Gorllewin Cymru	Mae Hywel Dda wedi cyfrannu at ddarparu hyfforddiant i ofalwyr maeth sydd newydd gael eu recriwtio...mae Heddlu Dyfed-Powys wedi darparu hyfforddiant ynghylch bod yn agored i niwed ar gyfer pob swyddog rheng flaen, ac mae Llamau wedi'i gomisiynu i gynnal sesiynau byr gyda phlant a phobl ifanc yr adroddwyd eu bod ar goll...mae Rheolwr Anghenion Dysgu wedi bod yn gweithio gydag ysgolion lleol i godi ymwybyddiaeth o ymarfer a gweithdrefnau diogelu...mae mewn cysylltiad hefyd â rhieni sy'n addysgu eu plant gartref gyda'r bwriad o'u cael i wella ymarfer diogelu... hyfforddiant amlasiantaeth ynghylch gweithio gyda theuluoedd anodd a pheryglus a theuluoedd sy'n ceisio osgoi ymgysylltu...gweithio gyda phlant sy'n ymddwyn yn niweidiol o safbwynt rhywiol...Atal...troseddau casineb a chymorth Tîm o Amgylch y Teulu
Gogledd Cymru	Hyfforddiant ymwybyddiaeth ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ar gyfer gyrrwyr tacsis a hebryngwyr; hyfforddiant ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ar gyfer staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu, swyddogion cyswllt, nyrsys ysgol, cwnselwyr ysgol, llywodraethwyr, unigolion diogelu penodedig; rhaglen helaeth o hyfforddiant ynghylch diogelu ar gyfer staff awdurdodau lleol wedi'i chynnal ledled gogledd Cymru; hyfforddiant ynghylch swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Bwrdd; rhwng mis Ionawr 2016 a mis Chwefror 2017 cafodd Virtual College gyfres o gyrsiau e-ddysgu gan y Bwrdd, ar gyfer pob asiantaeth bartner; a hyfforddiant ynghylch swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Bwrdd
Bae'r Gorllewin	Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant; Operation Jasmine; gweithdy i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen Prevent; ymwybyddiaeth o gam-drin domestig; Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014; Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015

Yr ymateb i'r cais dan adran 139

Ymatebodd Gogledd Cymru a Bae'r Gorllewin. Lluniodd Bwrdd Rhanbarthol Bae'r Gorllewin holiadur Survey Monkey, felly nid yw'r atebion yn cyfateb yn gyson i rai Bwrdd Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Nodi bylchau mewn sgiliau: Gogledd Cymru – mae'r awdurdodau lleol yn defnyddio cyfuniad o oruchwyliaeth ac adborth arfarnu. I wahanol raddau maent yn ymateb i anghenion penodol gweithwyr newydd a cheisiadau gan (i) staff diogelu (ii) asiantaethau allanol (iii) gweithwyr (iv) rheolwyr (v) darparwyr (vi) arolygiadau a (vii) adborth gan gyfreithwyr, er enghraifft. Mae Cyfeirlyfr Hyfforddiant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol, gwaith monitro'n ymwneud â Sicrhau Ansawdd a ffurflenni arfarnu cyrsiau'n chwarae rhan yn y broses o lenwi bylchau a nodir mewn sgiliau. At hynny, mae Rheolwr Datblygu Ymarfer Wrecsam yn hwyluso Setiau Dysgu Gweithredol³ ac mae Conwy yn cynnal Fforwm Diogelu Oedolion.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn defnyddio Fframwaith Hyfforddi Sgiliau Craidd, a chaiff adroddiadau cydymffurfio eu cyflwyno bob mis. Mae'r gwasanaethau ambiwlans yn nodi bylchau drwy adolygu deunyddiau diogelu. Mae'n nodi gwaith dysgu sefydliadol drwy adrodd ynghylch digwyddiadau niweidiol a digwyddiadau fu bron â digwydd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal adolygiadau blynyddol o ddatblygiad. Mae ei Ffatics Hyfforddiant yn nodi lefel yr hyfforddiant sy'n ofynnol ar gyfer rolau penodol.

Bae'r Gorllewin: -

Cynnal dadansoddiadau o anghenion o ran hyfforddiant: Gogledd Cymru – mae'r awdurdodau lleol yn ymateb i Arolwg Gweithlu blynyddol Llywodraeth Cymru, ac oherwydd eu bod yn aelodau o'r Bartneriaeth Leol ar gyfer Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol caiff pynciau eu nodi drwy drafodaeth ynghylch rhaglenni sefydlu, contractau a gwaith comisiynu, cyfarfodydd uwchgyfeirio pryderon, a chanfyddiadau aseswyr y Fframwaith Credydau a Chymwysterau, er enghraifft. Yn fewnol, caiff holiaduron eu defnyddio a chaiff y canfyddiadau eu hystyried gyda swyddogion datblygu a hyfforddi staff.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn defnyddio system Rheoli Dysgu Sefydliadol sy'n cysylltu â phlatform e-ddysgu'r GIG. Mae tîm diogelu'r gwasanaethau ambiwlans ynghyd â'r Coleg Hyfforddi Cenedlaethol yn arwain dadansoddiad y gwasanaethau ambiwlans, a chaiff anghenion o ran hyfforddiant eu pennu drwy Strategaeth Hyfforddiant a Matrics Hyfforddiant Iechyd Cyhoeddus.

Bae'r Gorllewin: -

Hyfforddiant a throsiant staff/rheolwyr: Gogledd Cymru – mae'r awdurdodau lleol yn ailadrodd hyfforddiant hanfodol bob blwyddyn. Mae Sir y Fflint wedi nodi asiantaethau hyfforddi annibynnol drwy ymarfer caffael ac wedi creu cynllun talebau. Mae hynny'n sicrhau hunanreolaeth i ddarparwyr gofal cymdeithasol annibynnol drwy ei gwneud yn bosibl iddynt gyfnewid talebau am gyrsiau craidd – ar sail eu dadansoddiad nhw eu hunain o anghenion o ran hyfforddiant ac ar sail unrhyw anghenion o ran hyfforddiant sy'n deillio o drosiant staff a rheolwyr. Mae Sir Ddinbych yn hyrwyddo'r Pasbort Gofal Cymdeithasol sy'n ei gwneud yn bosibl i hyfforddiant a gofnodwyd gael ei drosglwyddo i gyflogaeth newydd. At hynny, caiff Prif Reolwyr Penodedig Sir Ddinbych sesiynau hyfforddi a mentora un i un. Caiff meddalwedd Adnoddau Dynol Conwy ei ddefnyddio i adnabod anghenion o ran hyfforddiant, yn ôl rolau a swyddogaethau.

Mae Betsi Cadwaladr yn mynnu bod staff newydd yn mynychu "proses ymgyfarwyddo." Mae'r gwasanaethau ambiwlans yn darparu hyfforddiant sefydlu a chaiff swyddi newydd eu cefnogi gan hyfforddiant wedi'i deilwra. Mae gwaith monitro'n sicrhau bod staff presennol yn bodloni gofynion statudol a gorfodol o ran hyfforddiant. Yn yr un modd mae gweithwyr Iechyd Cyhoeddus yn cael hyfforddiant sefydlu ac yn cael gwybod am y cyfeirlyfr i staff a'r fewnwyd sy'n cynnwys tudalennau am ddiogelu.

Bae'r Gorllewin: -

Rhesymeg dros hyfforddiant: Gogledd Cymru – mae'r awdurdodau lleol yn darparu hyfforddiant gorfodol ynghylch diogelu ac yn ymateb i ddeddfwriaeth newydd a phresennol a dadansoddiadau o anghenion, er enghraifft. Mae Gwynedd yn darparu cyrsiau dwyieithog ac mae Ynys Môn yn ystyried anghenion o ran iaith wrth drefnu hyfforddiant.

Mae hyfforddiant ynghylch diogelu, a ddarperir yn Saesneg, yn orfodol i'r Bwrdd Iechyd. Er bod hyfforddiant amlasiantaeth wedi'i drafod, ni chaiff ei ddarparu. Mae'r gwasanaethau ambiwlans yn cynorthwyo staff i gyflawni nodau personol o ran hyfforddiant ynghylch diogelu, ac maent yn annog y staff i fynychu digwyddiadau diogelu amlasiantaeth. Maent hefyd wedi cydgynnal digwyddiadau dysgu gyda phartneriaid. Mae'r gwasanaethau yn cynnal mwyafrif eu cyrsiau yn Saesneg ac maent wedi cynnal rhai yn Gymraeg. Mae Tîm Diogelu Cenedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyfrannu at ddatblygu cyrsiau cymhwysedd diogelu Lefel 1 a Lefel 2, y gellir eu dilyn drwy gyfleusterau e-ddysgu. Caiff hyfforddiant Lefel 3 ei ddarparu gan y tîm diogelu corfforaethol drwy sesiynau mewn ystafell ddosbarth. Yn ogystal, mae'r Tîm Diogelu Cenedlaethol yn trefnu digwyddiadau hyfforddiant Lefel 4 ar gyfer GIG Cymru. Caiff pob un o'r cyrsiau eu darparu yn Saesneg.

Bae'r Gorllewin: Dywed fod hyfforddiant gorfodol yn cael ei flaenoriaethu ac mai'r prif resymeg yw codi safonau gofal a rheoli risg. Dywed asiantaethau mai eu prif "nodau ar gyfer gwella" yw bod "Pob aelod perthnasol o staff yn cael eu hyfforddi'n briodol" a "datblygiad proffesiynol parhaus."

Gweithredu deddfwriaeth a pholisi: Gogledd Cymru – mae'r awdurdodau lleol wedi diweddarau eu hadnoddau hyfforddi er mwyn adlewyrchu deddfwriaeth newydd. Caiff canolfan hyfforddi Gofal Cymdeithasol Cymru ynghylch y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ei hyrwyddo'n eang ym maes gofal cymdeithasol.

Mae Betsi Cadwaladr wedi buddsoddi mewn (i) digwyddiadau "hyfforddi'r hyfforddwyr" (ii) adolygiad o'i hyfforddiant gorfodol er mwyn sicrhau bod goblygiadau'r Ddeddf yn cael eu hymgorffori a (iii) hyfforddiant a ddarperir gan awdurdodau lleol. Mae cyrsiau datblygiad proffesiynol parhaus y gwasanaethau ambiwlans yn cyfeirio at y Ddeddf ac mae'r fewnwyd yn galluogi mynediad i ganolfan Gofal Cymdeithasol Cymru ynghylch y Ddeddf. Mae rhaglenni Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael eu diweddarau er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol allweddol.

Bae'r Gorllewin: Caiff y deddfwriaeth ei hadlewyrchu mewn gweithgareddau hyfforddi.

Safleoedd dysgu: Gogledd Cymru – mae'r awdurdodau lleol yn defnyddio cyfuniad o'u cyfleusterau hyfforddi eu hunain, cyfleusterau Prifysgol Glyndŵr, Venue Cymru a Chlwb Rygbi Llandudno. Fel rheol caiff lleoliadau allanol eu clustnodi ar gyfer niferoedd mwy o bobl.

Caiff holl hyfforddiant Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r gwasanaethau ambiwlans ei gynnal ar safleoedd y sefydliadau dan sylw. Mae gweithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael mynediad i hyfforddiant e-ddysgu ac yn ei gwblhau drwy eu Cofnod Staff Electronig, a gallant gwblhau'r hyfforddiant mewn unrhyw leoliad cyfleus. Caiff yr hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth ei ddarparu mewn amrywiaeth o leoliadau yn y gogledd, y canolbarth a'r gorllewin, a'r de-ddwyrain.

Bae'r Gorllewin: Fel rheol caiff yr hyfforddiant ei ddarparu "yn fewnol", efallai oherwydd bod saith asiantaeth wedi datgan bod hyfforddiant yn digwydd "drwy gyfarfodydd tîm".

Adnoddau i ymarferwyr: Gogledd Cymru - mae'r awdurdodau lleol yn defnyddio adnoddau megis gwefan Llywodraeth Cymru ar gyfer deddfwriaeth a pholisi, modiwlau e-ddysgu, Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion, canolfan wybodaeth a dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru, astudiaethau achos a Community Care Inform.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn defnyddio cyfleusterau e-ddysgu, ac mae'r gwasanaethau ambiwlans yn defnyddio cyfleusterau dysgu ar-lein asiantaethau rhanddeiliaid ac asiantaethau partner. Yn yr un modd, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dibynnu ar fewnwyd y staff.

Bae'r Gorllewin: Mae'n cyfeirio at "adnoddau ar-lein" a "deunyddiau ymchwil" amhenodol, a chyfeiriodd chwe asiantaeth at "gyfnodolion".

Cynnwys yr hyfforddiant: Gogledd Cymru – mae'r awdurdodau lleol yn cynnig hyfforddiant sefydlu sylfaenol ynghylch diogelu, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Caethwasiaeth Fodern, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, Masnachu Pobl, Oedolyn Priodol, Ymarferwyr Iechyd Meddwl Cymeradwy, Aseswyr Buddiannau, hyfforddiant ymwybyddiaeth ynghylch deall troseddwyd rhyw, hunanladdiad a hunan-niwed, Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, hyfforddiant ynghylch ymchwiliadau a hyfforddiant ynghylch risg.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn defnyddio podlediad ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Mae hyfforddiant y gwasanaethau ambiwlans yn cynnwys hyfforddiant ynghylch masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern. Mae'n ofynnol i holl staff Iechyd Cyhoeddus Cymru gwblhau hyfforddiant ynghylch Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, drwy e-ddysgu.

Bae'r Gorllewin: Mae'n cyfeirio at hyfforddiant ynghylch deddfwriaeth, polisi'n ymwneud ag amddiffyn oedolion a chynlluniau amddiffyn plant, a chyfeiriodd naw asiantaeth at hyfforddiant ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant.

Dulliau dysgu: Gogledd Cymru – mae'r awdurdodau lleol yn cynnig gwaith ar astudiaethau achos/datrys problemau, cyfarfodydd tîm, Setiau Dysgu Gweithredol (yn Wrecsam a Sir y Fflint), dysgu mewn ystafell ddosbarth a dysgu wrth ymarfer.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn hyrwyddo *dysgu drwy wrando* yn ystod hyfforddiant wyneb yn wyneb, cyfleoedd i gael adborth yn ystod *goruchwyliaeth anffurfiol a ffurfiol*, a digwyddiadau dysgu'n ymwneud ag achosion cymhleth, gan gynnwys digwyddiadau dysgu allanol. Mae'r gwasanaethau ambiwlans yn defnyddio hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth a dysgu sy'n seiliedig ar ddatrys problemau, a chaiff dolenni cyswllt â gwefannau e-ddysgu eu hyrwyddo. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyfuno e-ddysgu a hyfforddiant wyneb yn wyneb.

Bae'r Gorllewin: Mae'n cyfeirio at hyfforddiant a ddarperir yn fewnol ac yn allanol, a chyfeiriodd pedair asiantaeth at "hyfforddiant amlasiantaeth". Cyfeiriodd 12 asiantaeth at hyfforddiant "wyneb yn wyneb", a chyfeiriodd deg asiantaeth at ddigwyddiadau dysgu a digwyddiadau ymarferwyr. Mae wyth asiantaeth yn defnyddio cyfleusterau "e-ddysgu".

Cynulleidfaoedd hyfforddiant: Gogledd Cymru – cynhaliodd yr awdurdodau lleol sawl cwrs yr oedd dros 100 o bobl yn bresennol ynddynt. Roedd y cyrsiau'n ymwneud â'r Ddeddf, cydymwybyddiaeth (o ddiogelu) – gyda'r sector annibynnol, ymwybyddiaeth o ddiogelu, hyfforddiant diweddarau ynghylch diogelu a hyfforddiant ynghylch symleiddio Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Ni chafodd niferoedd y mynychwyr eu darparu gan sefydliadau eraill.

Bae'r Gorllewin: Y "sector gofal cymdeithasol" a'r "trydydd sector" yw'r prif "fathau o gynulleidfaoedd" y mae asiantaethau "yn eu cael ar gyfer hyfforddiant".

Amllder hyfforddiant: Gogledd Cymru – mae'n amrywio ar draws yr awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd, ac fel rheol caiff y rhaglenni hyfforddiant eu nodi mewn cynlluniau a llyfrynau.

Bae'r Gorllewin: -

Gwerthuso hyfforddiant: Gogledd Cymru – fel rheol mae'r awdurdodau lleol yn gwerthuso hyfforddiant yn syth ar ôl iddo gael ei ddarparu. Caiff y gwerthusiadau eu hadolygu o safbwynt cynnwys ac arddull yr hyfforddiant. Gall hynny arwain at gomisiynu mwy o waith gan hyfforddwyr penodol. Mae wedi arwain at adborth i Lywodraeth Cymru ynghylch codau ymarfer aneglur, er enghraifft. Yn yr un modd, mae gwasanaethau Iechyd yn adolygu hyfforddiant ar ôl iddo gael ei ddarparu.

Bae'r Gorllewin: "Taflenni adborth," arfarniadau, goruchwyliaeth a chyfarfodydd datblygiad proffesiynol yw'r ffyrdd arferol o werthuso hyfforddiant.

Gwariant blynyddol ar hyfforddiant ynghylch diogelu: Gogledd Cymru – mae'r chwe awdurdod lleol yn gwario rhwng £12,200 a £22,000, a'r gwariant ar gyfartaledd yw £18,000. Gwariodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr £3,314. Ni allai'r gwasanaethau ambiwlans ac Iechyd Cyhoeddus Cymru nodi eu gwariant.

Bae'r Gorllewin: £20,000

Cafwyd adroddiadau cyferbyniol ynghylch **gwaith diogelu sy'n amlygu arfer da ac arfer gwael** o Fwrdd Gogledd Cymru. Roedd y naill adroddiad yn sôn am ŵr gweddw 83 oed a oedd wedi bod mewn cartref nyrsio am chwe mis. Ar ôl cwmpo, bu'n rhaid iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty lle bu'n glaf am sawl wythnos. Ar ôl iddo ddychwelyd i'r cartref, gofynnwyd i nyrs hyfywedd meinwe adolygu ei achos. Roedd ganddo wlsr pwysedd necrotig, dwfn a dywedodd y nyrs fod angen cynnal ymchwiliad diogelu. Pan ymwelodd y nyrs â'r claf fis yn ddiweddarach, nid oedd gan y dyn unrhyw offer arbenigol, nid oedd unrhyw ddogfennau perthnasol ar gael ac nid oedd unrhyw ymchwiliad diogelu wedi'i gynnal. Roedd y cartref hefyd wedi'i annog gan weithwyr proffesiynol eraill ym maes gofal iechyd i gynnal ymchwiliad diogelu. Cafodd yr awdurdod lleol wybod bod pum pryder arall ynghylch diogelu wedi codi yng nghyswllt y cartref nyrsio. Yn y pen draw, canfuwyd na fyddai wedi bod yn bosibl atal y niwed i feinwe'r dyn oherwydd "cydafiachedd cymhleth." Roedd y gwersi a ddysgwyd o amgylchiadau'r dyn hwn yn cynnwys: pa mor gyndyn yr oedd staff allgymorth i uwchgyfeirio'r achos neu gynnal ymchwiliad i oedolyn a oedd yn wynebu risg; y ffaith y dylai amheuo gweithwyr proffesiynol ynghylch y cartref fod wedi cael eu trafod â'r cartref cyn dechrau cynnal ymchwiliad; y ffaith nad yw nifer yr ymchwiliadau diogelu yn ffordd anuniongyrchol o fesur ansawdd darpariaeth cartref.

Ar y llaw arall, bu pennaeth ysgol gynradd yn trafod presenoldeb gwael a golwg flêr merch 7 oed â nyrs yr ysgol. Roedd y fam yn honni bod gan ei merch broblem gyda'i system imiwnedd. Nodwyd bod agwedd y fam at y staff yn "ymosodol". Dywedodd y nyrs y dylid atgyfeirio'r ferch at y tîm amddiffyn plant a cheisiodd drefnu ymweliad â'r cartref. Gwrthododd y fam yr ymweliad ond rhoddodd ganiatâd i'r nyrs gysylltu â'r meddyg teulu i gael rhagor o wybodaeth. Ar ôl cadarnhau nad oedd gan y plentyn unrhyw broblemau iechyd penodol, cafwyd gwybod ar ôl cysylltu â'r ymwelydd iechyd nad oedd y fam wedi bod yn dod â'i phlentyn ieuengaf i gael archwiliadau sy'n rhan o'r drefn arferol. Trefnodd y nyrs gyfarfod ar gyfer gweithwyr proffesiynol o amryw asiantaethau, ac yno cadarnhawyd bod gan fam y plant broblemau iechyd meddwl a'i bod yn camddefnyddio alcohol. Cadarnhaodd ymchwiliad adran 47⁴ dilynol y wybodaeth a rannwyd yn y cyfarfod ar gyfer gweithwyr proffesiynol, a nodwyd hefyd bod y ferch 7 oed yn ofalwr ifanc. Cafodd enwau'r plant eu hychwanegu at y Gofrestr Amddiffyn Plant. Cafodd cynllun amddiffyn plant amlasiantaeth ei lunio a chafodd cymorth ei ddarparu.

Bae'r Gorllewin: Ni chafwyd unrhyw enghreifftiau o ymarfer.

Ar wahân i hynny, nododd Cwm Taf dair astudiaeth achos yn ei adroddiad blynyddol:

1. Datgelodd mam i ddau o blant, a oedd â phroblemau iechyd meddwl, ei bod yn clywed lleisiau a oedd yn dweud wrthi am niweidio un o'i phlant. Ar ôl i amryw asiantaethau rannu gwybodaeth â'i gilydd, darganfuwyd bod y cartref yn gysylltiedig â cham-drin domestig, esgeulustod ac amodau gwael, ac oherwydd camau blaenorol yn ymwneud ag amddiffyn plant cychwynwyd cynnal ymchwiliad adran 47.
2. Pan ddywedodd dynes wrth dîm gwasanaethau plant ei bod wedi cael ei cham-drin yn rhywiol gan ei thad a'i hewythr pan oedd yn blentyn, rhoddwyd cymorth iddi a chafodd trefniadau diogelu eu cyflwyno ar gyfer ei hŵyr a oedd yn dod i gysylltiad yn rheolaidd ag un o'r dynion. Cafodd y dynion eu harestio a chychwynwyd cynnal ymchwiliad troseddol.
3. Roedd dynes a oedd yn cael cymorth gan dîm gwasanaethau oedolion wedi bod yn dioddef camdriniaeth ddomestig. Roedd cyn-bartner iddi'n ei stelcio ac yn aflonyddu arni. Darganfu'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth fod gan ei chyn-bartner gollfarnau blaenorol a'i fod wedi dianc i Loegr. Cafodd gwybodaeth ei rhannu â'r heddlu perthnasol a chafodd y dyn ei arestio. Bu'r achos yn rhan o'r *drafodaeth ddyddiol ynghylch cam-drin domestig* a chafodd ei gyfeirio at y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg. Cafodd y cymorth yr oedd y ddynes yn ei gael ei ategu gan gymorth a gynigiwyd gan y Gwasanaeth Cynghori Annibynnol ar Drais Domestig.

⁴ O ran Deddf Plant 1989 – os eir â phlentyn i warchodaeth yr heddlu, os yw'n destun Gorchymyn Amddiffyn Brys neu os oes sail resymol i amau bod y plentyn yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol, bydd ymchwiliad adran 47 yn pennu pa gamau gweithredu sy'n ofynnol

Atodiad 4:


Y geiriau sy'n ymddangos amlaf yn adroddiadau blynyddol y Byrddau Rhanbarthol

Bwrdd Diogelu Cwm Taf




Caerdydd





Services Bay Act
Board
Wales Group
CSE Bridgend
plan 2016/17 representative
Swansea risk cases year Child
Business WBSCB children Service Management
Safeguarding
Children
Western
identified



Keep in touch



www.bwrdddiogelu.cymru



@NISBwales



safeguardingwales